

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

64/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

10/09/2020

Arolwg o'r Dystiolaeth am Amrywiad mewn Telerau ac Amodau Contractau Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Teitl: Arolwg o'r Dystiolaeth am Amrywiad mewn Telerau ac Amodau Contractau Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Sarah Wallace, Tony Garthwaite a Mark Llewellyn

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru

Wallace S., Garthwaite T., Llewellyn M. (2020). Arolwg o'r Dystiolaeth am Amrywiad mewn Telerau ac Amodau Contractau Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 64/2020.

Ar gael ar: <https://llyw.cymru/telerau-ac-amodau-contractau-cyflogaeth-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru>

Barn yr ymchwilyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl o'r cynnwys

1. Rhagarweiniad/Cefndir	5
2. Methodoleg	8
3. Canfyddiadau: Adolygiad llenyddiaeth	16
4. Canfyddiadau: Arolygon gofal cymdeithasol oedolion Cymru-gyfan a chyflogwyr y GIG	32
5. Arolygon gofal cymdeithasol oedolion Cymru-gyfan a chyflogwr y GIG: Cymariaethau rhwng sefydliadau gofal cymdeithasol a'r GIG *	57
6. Canfyddiadau: Cyfweiliadau a grwpiau ffocws	70
7. Crynodeb o'r canfyddiadau	85
8. Trafodaeth: Y goblygiadau ar gyfer y gweithlu a chyflogwyr	94
Cyfeiriadau	104
Atodiad A: Enghraifft o drywydd chwilio am y pwnc mewn llenyddiaeth.....	107
Atodiad B: Holiaduron	109
Atodiad C: Canllawiau cynnal cyfweiliad	285
Atodiad D: Canllaw ar gyfer cynnal grŵp ffocws	286
Atodiad E: Datganiad am fethodoleg Data Cymru	287

Tablau

Tabl 1: Teipoleg gweithlu gofal cymdeithasol oedolion.....	9
Tabl 2: Teipoleg gweithlu plant preswyl.....	10
Tabl 3: Crynodeb o'r canfyddiadau: Tâl	85
Tabl 4: Crynodeb o'r canfyddiadau: Contractau	87
Tabl 5: Crynodeb o'r canfyddiadau: Ychwanegiadau	88
Tabl 6: Crynodeb o'r Canfyddiadau: Recriwtio	89
Tabl 7: Crynodeb o'r Canfyddiadau: Cadw staff	90

Rhestr o'r ffigyrau

Ffigwr 1: Nifer ymatebion cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol fesul sector a'r GIG	33
Ffigwr 2: Nifer o ymatebion cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion fesul sector, y GIG a'r math o weithiwr	33
Ffigwr 3: Crynodeb ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiynau am gyfraddau tâl sylfaenol gweithiwr gofal, fesul lleoliad gofal	36
Ffigwr 4: Crynodeb o ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol uwch ofal, fesul lleoliad gofal	39
Ffigwr 5: Crynodeb o ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiynau am gyfraddau tâl sylfaenol goruchwyllydd fesul lleoliad gofal	42
Ffigwr 6: Crynodeb o ymatebion y sector annibynnol i gwestiynau am gyfraddau tâl sylfaenol gweithwyr gofal, fesul lleoliad	45
Ffigwr 7: Crynodeb o ymatebion y sector annibynnol i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol uwch weithwyr gofal, fesul lleoliad gofal	48
Ffigwr 8: Crynodeb o ymatebion y sector annibynnol i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol goruchwylwyr, fesul lleoliad gofal	50
Ffigwr 9: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol fesul sector a math o weithiwr	57
Ffigwr 10: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar gontractau fesul sector a math o weithiwr ..	59
Ffigwr 11: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau, fesul sector a math o weithiwr	61
Ffigwr 12: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau am opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr	62
Ffigwr 13: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr	63
Ffigwr 14: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr	65
Ffigwr 15: Crynodeb i ymatebion i gwestiynau am opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr	66
Ffigwr 16: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar recriwtio a chadw, fesul sector a math o weithiwr	67

Rhestr Termiau

Mae'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y defnydd a wneir ohonyn nhw gan gyflogai a chyflogwyr. Felly:

Mae **gofal cymdeithasol oedolion** yn cyfeirio at y gofal a'r cymorth a gynigir i unigolion 18 oed a throsodd, megis y cymorth personol ac ymarferol sydd ei angen iddyn nhw gadw eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd.

Mae **tâl sylfaenol** yn cyfeirio at faint o dâl mae gweithiwr yn ei dderbyn cyn ychwanegu gwerth manteision ychwanegol megis ad-daliad o gostau arbennig neu lwfansau am ffactorau ychwanegol megis gweithio shifftiau neu weithio gydag achosion cymhleth.

Mae **contract** yn cyfeirio at y cytundeb cyfreithiol rhwng y cyflogwr a'r cyflogai sy'n gosod allan telerau ac amodau'r cyflogaeth.

Mae **tâl** yn cyfeirio at y cyfanswm tâl y mae gweithiwr yn ei dderbyn.

Mae **recriwtio** yn cyfeirio at y broses y mae cyflogwyr yn ei defnyddio i ddenu staff i fod yn gyflogedig.

Mae **cadw** staff yn cyfeirio at allu cyflogwyr i gadw staff i weithio iddyn nhw.

Dethol ydy'r broses yn dilyn y recriwtio y mae cyflogwyr yn ei defnyddio i ddewis pobl i'w penodi.

Mae **sefydlogrwydd** yn cyfeirio at i ba raddau y mae swyddi a chontractau cyflogaeth yn newid.

Mae **termau ac amodau** yn cyfeirio at ofynion y swydd, e.e. oriau gwaith a'r lwfansau a'r manteision cysylltiedig.

Mae **sector yr awdurdod lleol** yn cyfeirio at y 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol.

Yr **Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)** ydy'r hyn y mae'r llywodraeth wedi pennu fel yr isafswm y mae rhaid ei dalu ar gyfartaledd am yr oriau mae pobl yn gweithio. Os ydych chi'n 25 oed neu drosodd, yr enw ar hyn ydy'r **Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW)**. Mae'r NMW a'r NLW yn ofynion statudol.

Mae'r **GIG** yn cyfeirio ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol sy'n cyflogi gweithwyr cymorth gofal iechyd yng Nghymru.

Mae'r **sector annibynnol** yn cyfeirio at gyflogwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd tu allan i sector yr awdurdod lleol a'r trydydd sector.

Y **Cyflog Byw Gwirioneddol** ydy'r cyfradd cyflog y mae'r 'Living Wage Foundation' yn ei amcangyfrif ar sail asesiad o'r hyn sydd ei angen ar gyflogi a'u teuluoedd i fyw. Telir y cyflog byw yn wirfoddol gan gyflogwyr.

Mae'r **trydydd sector** yn cyfeirio at elusennau, cyrff cydweithredol, mudiadau gwerth cymdeithasol a chyflogwyr eraill heb fod er elw sy'n cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol tu allan i sector yr awdurdod lleol a'r sector annibynnol.

Mae **gweithlu gofal cymdeithasol** yn cyfeirio at yr holl weithwyr o fewn ystod yr ymchwil hwn a gyflogir gan sefydliadau o fewn un o dri sector gofal cymdeithasol – sector yr awdurdod lleol, y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Mae amrywiad **o fewn** un o'r pedwar sector yn ystod yr ymchwil hwn – sector yr awdurdod lleol, y sector annibynnol, y trydydd sector a'r GIG – yn golygu bod elfen o'r tâl yr amodau a'r telerau yn wahanol o ran o leiaf un cyflogwr o fewn sector i rai cyflogwr mewn o leiaf un sector arall.

Mae amrywiad **rhwng neu ymhlith** un o'r pedwar sector yn ystod yr ymchwil hwn – sector yr awdurdod lleol, y sector annibynnol, y trydydd sector a'r GIG – yn golygu bod elfen o'r cyflog, yr amodau a'r telerau yn wahanol o ran o leiaf un cyflogwr o fewn sector i rai cyflogwr mewn o leiaf un sector arall.

Mae **gweithio ym maes gofal cymdeithasol** yn golygu gweithio i gyflogwyr sy'n cyflenwi gwahanol fathau o ofal personol ac ymarferol a chymorth ar gyfer oedolion..

1. Rhagarweiniad/Cefndir

1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru (LIC) Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC), Prifysgol De Cymru, i gyflwyno'r Arolwg hwn o *Dystiolaeth am Amrywiad mewn Telerau ac Amodau Contractau Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*.

1.2 Comisiynwyd yr arolwg hwn a chynhaliwyd yr ymchwil cyn y pandemig COVID-19.

Nodau ac Amcanion yr ymchwil

1.3 Nod yr arolwg hwn oedd adolygu'r gwahaniaethau mewn tâl ac amodau ar draws gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac asesu i ba raddau y gallai hyn fod wedi dylanwadu ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal. Roedd y ffocws sylfaenol ar y gweithwyr gofal 'ar y tâl isaf/ar lefel mynediad' sy'n cynnig gofal a chymorth. Er enghraifft, gweithwyr gofal cartref, gweithwyr cymorth gofal, gweithwyr cymorth tai (byw mewn tai â chymorth), cynorthwywyr gofal iechyd/gweithwyr cymorth gofal iechyd a gweithwyr gofal preswyl. Mae'r arolwg hwn yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd mewn rolau tebyg yn y GIG wedi'u cyflogi ar [Agenda ar gyfer Newid graddfeydd cyflog](#). Cafodd uwch ofalwyr a goruchwylwyr a gyflogwyd ym maes gofal cymdeithasol hefyd eu cynnig os oedd eu rôl yn golygu cynnig gofal a chymorth¹.

Amcanion penodol yr ymchwil yn ôl manyleb Llywodraeth Cymru oedd:

- Nodi i ba raddau roedd telerau ac amodau cyflogaeth gweithwyr gofal cymdeithasol yn amrywio (neu beidio) ar draws gwahanol fathau o gyflogwyr gan gynnwys yr awdurdod lleol (ALI), y sector gofal annibynnol a'r trydydd sector, a'r GIG. Roedd hyn yn cynnwys:
 - Cymhariaeth rhwng cynorthwywyr gofal iechyd/ gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogwyd yn y GIG ar raddfeydd cyflog Agenda ar gyfer Newid sy'n gweithio mewn swyddi tebyg;
 - Manteision ariannol megis cyfraddau tâl/codiadau cyflog a hawl i gyflog gwyliau, tâl salwch a thâl mamolaeth/ tadolaeth a rhai heb fod

¹ Darparwyd dau fath o deipoleg cyflogwr yn benodol ar gyfer yr astudiaeth hon a thrafodir y rhain yn adran dau, tud. 10 & 11

yn rhai ariannol megis hyfforddiant a datblygiad, sefydlogrwydd (math o gontract) a dilyniant gyrfaol.

- I ystyried i ba raddau mae'r gwahaniaethau mewn telerau ac amodau yn rhai daearyddol ar draws Cymru (e.e. dinesig/gwledig) a'r rhesymau posibl am y gwahaniaethau hyn.
- Os oes gwahaniaethau o ran telerau ac amodau yn bodoli (naill ai fesul math o ddarparwr neu'n ddaearyddol) yna i asesu i ba raddau mae hyn yn dylanwadu ar:
 - Gyflogwyr: er enghraifft, eu gallu i recriwtio a chadw staff, ansawdd staff, costau (hyfforddiant, recriwtio) a pharhad ac ansawdd y gofal a ddarperir;
 - Cyflogai: er enghraifft, morâl staff, parch cyffelyb, yr awydd i aros yn y sector a chanfod unrhyw effaith ar ansawdd neu barhad y gofal a ddarperir.
- Nodi enghreifftiau o arferion da, megis dulliau blaengar cyflogwyr o fynd ati i wella cyfraddau cadw myfyrwyr os nad ydyn nhw'n gallu cynnig cyfraddau tâl gwell/mwy cystadleuol neu ddewis y dulliau y mae comisiynwyr wedi'u defnyddio i hyrwyddo telerau ac amodau mwy cydnaws o fewn yr ardal leol.

Cyfyngiadau

- 1.4 Sylweddolwyd o'r cychwyn cyntaf fod amcanion yr astudiaeth hon yn uchelgeisiol o gofio bod angen ystyried y nifer fawr o ddarparwyr unigol gofal cymdeithasol ac ystod y problemau. Hefyd, roedd angen cydnabod sensitifrwydd y pwnc ac amharodrwydd posibl rhai cyflogwyr i rannu gwybodaeth y gellir ei hystyried yn fasnachol sensitif. Deellir mai hwn ydy'r tro cyntaf i arolwg Cymru cyfan, rhan annatod o'r ymchwil hwn, gael ei ddatblygu a'i gynnal ar draws pob sector gofal cymdeithasol, a'r GIG, gan chwilio am wybodaeth am amrywiad mewn tâl ac amodau. Roedd lefel gronynnedd y wybodaeth a gyrchwyd yn golygu bod cynllun yr arolwg yn broses arbennig o gymhleth, yn gofyn am nifer o iteriadau ac ymgynghoriadau gyda sefydliadau partner ac ymgynghorwyr arbenigol. Roedd y cymhlethdodau hefyd yn golygu goblygiadau i'r amserlen, y dosbarthu ac i

ddadansoddiad y data. Roedd dosbarthu yr arolwg ar-lein i gyflogwyr hefyd yn heriol gan nad oedd bas data cenedlaethol ar gael.

Felly, mae'r ymchwilyr yn dymuno mynegi eu gwerthfawrogiad bod swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gydol y prosiect yn deall beth roedd y cyfyngiadau hyn a chymhlethdodau eraill ei osod ar ein hymchwil. Roedd eu dealltwriaeth o natur ymchwiliol y gwaith yn arbennig o bwysig ynghyd â'i werth posibl fel sail i ymchwil manwl pellach.

Data Cymru

- 1.5 Gweithiodd WIHSC mewn partneriaeth gyda Data Cymru, yn datblygu a rheoli arolwg Cymru-gyfan o'r cyflogwyr, sy'n elfen sylweddol o'r arolwg hwn. Mae Data Cymru yn rhan o gymuned ystadegol Awdurdodau Lleol Cymru sydd â phrofiad sylweddol o gasglu a rheoli data gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol.

2. Methodoleg

Trosolwg o'r fethodoleg

Casglu Data

2.1 Defnyddiwyd dulliau cymysg i gasglu'r data ar gyfer yr ymchwil hwn, dulliau oedd yn cynnwys y canlynol:

- Arolwg pen desg o lenyddiaeth a dogfennaeth canllawiau polisi.
- Arolwg Cymru-gyfan o gyflogwyr staff gofal cymdeithasol yn gweithio yng ngwasanaethau oedolion a chartrefi preswyl plant.
- Arolwg Cymru-gyfan o gyflogwyr y GIG
- Cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda rheolwyr a staff gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a chartrefi preswyl plant.

Arolwg llenyddiaeth a dogfennol pen desg

2.2 Roedd dwy elfen i'r arolwg pen desg:

- a) Adolygiad llenyddiaeth o lenyddiaeth academiaidd a llwyd er mwyn sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o arferion ac ymchwil ar draws Cymru a'r DU.
- b) Cyrchu dogfennaeth ac ystadegau perthnasol sydd ar gael i'r cyhoedd – er enghraifft, data'r Rhaglen Ddatblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWWDP).

Cynorthwyodd y cyfnod hwn i sefydlu cyd-destun yr astudiaeth, i benderfynu'r hyn roedd angen ei ofyn yn arolygon y cyflogwyr ac i greu teipoleg o'r gweithlu at ddibenion yr ymchwil.

Teipoleg y gweithlu

2.3 Mae ffocws yr arolwg llenyddiaeth hwn ar weithlu gofal cymdeithasol oedolion a gweithlu plant preswyl yng Nghymru (yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n gwneud gwaith tebyg o fewn y GIG), ar draws pob sector gofal cymdeithasol (Awdurdodau Lleol, trydydd sector ac annibynnol). Isod, categoriwyd y rolau hyn gan ddefnyddio dau deipoleg cyflogai a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer yr astudiaeth hon a dydyn nhw ddim yn rhan o unrhyw fframwaith cytûn cenedlaethol.

Tabl 1: Teipoleg gweithlu gofal cymdeithasol oedolion

Math o weithiwr	Teitlau	Lleoliad/amgylchedd y gofal a ddarperir	Rôl/dyletswyddau
Gweithiwr gofal <i>Graddfa 1: Lefel mynediad</i>	Gweithiwr gofal cartref, cynorthwydd gofal, gweithiwr gofal yn y cartref, gweithiwr gofal rheng flaen, cynorthwydd gofal yn y cartref, gofalwr yn y cartref, gweithiwr cymorth, gweithiwr cymorth yn y gymuned, gweithiwr cymorth cartref Cynorthwydd gofal dydd, gweithiwr cymorth gofal dydd Gweithiwr cymorth preswyl, gweithiwr cymorth byw, gweithiwr cartref gofal, cynorthwydd gofal nos	Yng nghartref yr unigolyn neu'r cartref teuluol Lleoliadau gofal dydd Gwasanaethau cartrefi gofal (heb nyrsio) Gwasanaethau cartrefi gofal (gyda nyrsio) Tai â chymorth Gwasanaethau gofal yn y gymuned	Mae gweithlu rheng flaen yn darparu gofal a chymorth ar gyfer unigolion (e.e oedolion, pobl hŷn))
Uwch weithiwr gofal <i>Graddfa 2</i>	Uwch gynorthwydd gofal, uwch weithiwr gofal, uwch weithiwr yn y cartref, uwch weithiwr cymorth, arweinydd tîm	Y cyfan o'r uchod	Mae uwch weithwyr gofal yn goruchwyllo a monitro gweithwyr gofal. Maen nhw hefyd yn cynnig gofal a chymorth i unigolion (e.e. oedolion, pobl hŷn)
Goruchwyllydd <i>Graddfa 3</i>	Arweinydd tîm, goruchwyllydd gofal yn y maes, goruchwyllydd gofal, goruchwyllydd gofal yn y cartref	Y cyfan o'r uchod	Mae goruchwylwyr yn gyfrifol am grŵp bach neu dîm o weithwyr gofal a/neu uwch weithwyr gofal. Gallan nhw hefyd gynnig gofal a chymorth i unigolion (e.e. oedolion, pobl hŷn)
Gweithiwr cymorth gofal iechyd <i>Graddfa 2/3</i>	Cynorthwydd gofal iechyd, gweithiwr cymorth gofal iechyd, cynorthwydd nyrsio,	Ysbytai (GIG) Cymunedol Cartrefi nyrsio	Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn y bôn yn darparu help gyda gofal personol, prydau bwyd a symudedd yn ogystal â pherfformio tasgau meddygol sylfaenol (e.e. monitro organau allweddol) mewn ysbytai, cartrefi, clinigau ac yn y gymuned ehangach. Mae tasgau'r rôl yn sylfaenol yn delio ag anghenion cymorth iechyd sydd efallai'n galw am hyfforddiant priodol.

Tabl 2: Teipoleg gweithlu plant preswyl

Teitl y swydd	Teitlau	Lleoliad/amgylchedd y gofal a ddarperir	Rôl/dyletswyddau
Gweithiwr gofal plant preswyl	Gweithiwr cymorth plant preswyl, gweithiwr plant preswyl, Gweithiwr gofal plant preswyl	Lleoliadau gofal plant preswyl	Mae gweithwyr gofal plant preswyl yn darparu gofal a chymorth parhaus ar gyfer plant a phobl ifanc, yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Mae hefyd yn cynnwys cysylltu ag asiantaethau eraill (e.e. y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg) er mwyn sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau priodol eraill
Uwch weithiwr gofal plant preswyl	Uwch weithiwr cymorth plant preswyl, uwch weithiwr plant preswyl, Uwch weithiwr gofal plant preswyl	Fel yr uchod	Mae uwch weithwyr gofal plant preswyl yn goruchwyllo gweithwyr gofal plant preswyl, yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros redeg y cartref o ddydd i ddydd a chysylltu ag asiantaethau eraill (e.e. y gwasanaethau cymdeithasol). Maen nhw hefyd yn darparu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc.
Gweithiwr gofal iechyd plant preswyl	Gweithiwr gofal iechyd plant preswyl, cynorthwydd iechyd plant preswyl/ gweithiwr cymorth gofal iechyd/cynorthwydd nyrsio	Fel yr uchod	Gall gweithiwr gofal iechyd plant preswyl ddarparu gwiriadau meddygol sylfaenol neu gyngor a chymorth. Mae tasgau'r rôl yn sylfaenol yn delio ag anghenion cymorth iechyd sydd efallai angen hyfforddiant priodol.

- 2.4 Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn ffocysu ar swyddi yn nhablau 1 a 2, gyda'r pwyslais ar y rhai sy'n cynnig gofal a chymorth rheng flaen. Nid yw'n cynnwys dirprwyon neu uwch reolwyr na neb sy'n cyfateb iddyn nhw, na chwaith yn cynnwys gweithwyr asiantaeth na chynorthwywyr personol.

Strategaeth chwilio

- 2.5 Doedd dull manwl o fynd ati i chwilio ac arolygu ddim o fewn cylch gwaith yr astudiaeth hon. Ymchwil empirig gwreiddiol ydy arolygon systematig sy'n dilyn protocol gwyddonol safonol meini prawf (Kowalczyk & Truluck, 2013). Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth cychwynnol gan staff llyfrgell LIC a rhannwyd y canlyniadau gyda'r tîm ymchwil. Dilynwyd hyn gydag *archwiliad llenyddiaeth cynhwysfawr* o lenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd gan ddefnyddio basau data Prifysgol De Cymru; cynhaliwyd y chwiliad mewn modd cynhwysfawr ond heb lefel y manylder byddai ei angen ar arolwg systematig (Aveyard, 2014).

Ymhlith y cyfuniad o dermau a ddefnyddiwyd mae, 'gweithlu gofal cymdeithasol' NEU 'gweithwyr gofal cymdeithasol' NEU 'cynorthwydd gofal iechyd' NEU

'gweithwyr cymorth gofal iechyd' A HEFYD 'gofal oedolion' NEU 'gwasanaethau gofal oedolion', NEU 'gweithwyr plant preswyl' A HEFYD 'telerau cyflogaeth' NEU 'telerau ac amodau cyflogaeth' NEU 'tâl ac amodau'. Rhoddwyd y cyfuniadau hyn yn y basau data canlynol: Scopus; ASSIA; a Gofal Cymdeithasol Ar-lein (Mae Atodiad A yn dangos enghraifft o strategaeth chwilio).

2.6 Ymhlith y meini prawf cynhwysiad a chyfyngydd a ddefnyddiwyd mae:

- Teitl (TI) yn unig (ehangwyd i gynnwys 'abstract' os oedd canlyniadau'r archwiliad yn gyfyng)
- Dyddiad: Y 5 mlynedd diweddaraf (2014-2019)
- Lleoliad: Y DU yn unig
- Math o gyhoeddiad: Adolygwyd gan gymheiriaid, cylchgronau ysgolheigaidd, llenyddiaeth lwyd (datganiadau polisi a phapurau, adroddiadau ymchwil, taflenni gwybodaeth)
- Iaith: Saesneg

2.7 Darllenwyd crynodebau a chadwyd erthyglau a allai fod yn berthnasol i'w darllen ymhellach. Chwiliwyd drwy dudalennau cyfeiriadau cyhoeddiadau perthnasol i nodi llenyddiaeth na chafwyd drwy chwilio basau data Prifysgol De Cymru.

2.8 Cadwyd cyfanswm o tua 50 o bapurau (academaidd a llwyd) i'w cynnwys yn yr arolwg.

Arolygon gofal cymdeithasol Cymru-gyfan a chyflogwr GIG

2.9 Lluniwyd yr arolygon (Atodiad B) i gasglu data ar gyflog ac amodau i'w cymharu ar draws ystod o benawdau pwnc e.e. fesul sector, daearyddiaeth a lleoliad y gofal. Defnyddiwyd y teipoleg uchod i gynnal arolygon gwahanol gyda phob un o'r grwpiau staff . Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn ymwneud â'r isod:

- Tâl
- Ychwanegiadau
- Contractau
- Recriwtio a chadw staff

2.10 Seiliwyd cynnwys yr arolygon ar farn a sylwadau nifer o ran-ddeiliaid allweddol oedd wedi cytuno i weithredu fel grŵp cyfeirio drwy gydol cyfnod y prosiect. Cynhaliwyd trafodaethau gyda phob un o'r canlynol :

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Fforwm Gofal Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
- Uwch Reolwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y GIG
- Cyn-Reolwr AD Awdurdod Lleol
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- ADSS Cymru
- UNISON Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Ffederasiwn y GIG yng Nghymru
- Grŵp Cyfeirio Arbenigol sefydlog (GCA/ERG) WIHSC sy'n cynnwys uwch academyddion profiadol a gweithwyr proffesiynol o'r sectorau iechyd a gofal

2.11 Oherwydd natur yr astudiaeth, roedd rhaid delio â rhai sefydliadau yn fwy nag eraill. Er enghraifft, roedd cyfraniadau cydweithwyr Fforwm Gofal Cymru, CGGC, y CLILC (drwy arweinyddion AD) a'r GIG yn arbennig o bwysig yn nyluniad a dosbarthiad yr arolwg. Cafwyd sylwadau defnyddiol gan gydweithwyr yn LIC, sylwadau a ymgorfforwyd yn yr adroddiad terfynol.

2.12 Roedd nifer o ffactorau yn golygu nad oedd hi'n bosibl llunio sampl o ffrâm yn cynnwys pob darparwr gofal. Y bwriad gwreiddiol oedd dosbarthu linc i'r arolwg i bob darparwr gofal drwy fas data cenedlaethol a gynhaliwyd gan drydydd parti ond am resymau tu hwnt i reolaeth y timoedd ymchwil, doedd hyn ddim yn bosibl. Ar ôl ystyried gwahanol fecanweithiau eraill, dosbarthwyd yr arolygon yn electronig drwy'r partneriaid a enwir uchod. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd cael cyrhaeddiad oedd 100% a bu angen cymorth trydydd parti i'w ddosbarthu. O ganlyniad, doedd hi ddim yn bosibl i reoli'r broses ddosbarthu yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd y

dull amgen hwn o leiaf yn galluogi partneriaid i annog eu haelodau i gymryd rhan i gwblhau'r arolygon ac anfon e-byst atyn nhw i'w hatgoffa.

Cyfweliadau a grwpiau ffocws

- 2.13 Defnyddiodd yr astudiaeth samplu pwrpasol a ddefnyddir yn fynych i recriwtio cyfranogwyr at ddibenion ymchwil cymdeithasol archwiliol (Adler & Clark, 2008), ac i gael syniad o ffenomena penodol drwy ddewis y sampl sy'n gweddu orau. Bydd gan gyfranogwyr wybodaeth neu brofiad o'r pwnc dan sylw (Starks & Brown-Trinidad, 2007) a nhw ydy'r gorau i gynorthwyo i gyflawni nodau ac amcanion yr astudiaeth. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio gyda chymorth grŵp cyfeirio'r prosiect a'r GCA/ERG yn WIHSC. Cynhaliwyd y cyfweliadau a grwpiau ffocws dros y ffôn ac wyneb yn wyneb a'r sesiynau wedi'u trefnu ar adegau ac mewn lleoliadau oedd yn gyfleus i'r cyfranogwyr, ac yn digwydd rhwng Tachwedd 2019 a Ionawr 2020. Paratowyd amserlenni y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws ymlaen llaw (Atodiad C a D).
- 2.14 Cynhaliwyd unarddeg o gyfweliadau gyda darparwyr/rheolwyr yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol, y sector annibynnol a'r trydydd sector ar draws y lleoliadau gofal canlynol:
- Gofal plant preswyl
 - Gwasanaethau dydd
 - Cymorth yn y Gymuned
 - Gofal preswyl
 - Gofal cartref
 - Byw â chymorth/tai â chymorth
- 2.15 Cwblhawyd chwe grŵp ffocws penodol i sector yn cynnwys sector yr Awdurdodau Lleol, y sector annibynnol a'r trydydd sector, a'r GIG (pedwar aelod o staff a dau rheolwr/ddarparwr). Roedd grwpiau ffocws staff yn cynnwys cyfuniad o weithwyr gofal, uwch weithwyr a goruchwylwyr/rheolwyr ac yn cynnwys:
- Gofal plant preswyl
 - Gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn

- Gofal cartref
- Byw/tai â chymorth
- Y GIG

Moeseg

- 2.16 Cyn cychwyn casglu data, sicrhawyd caniatâd moesegol gan Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg, Prifysgol De Cymru. Derbyniodd yr holl o ddarpar gyfranogwyr daflen wybodaeth yn cynnwys manylion o'r hyn fyddai cymryd rhan yn ei olygu. Er mwyn cyrchu'r arolwg ar-lein, gofynnwyd i'r cyfranogwyr gadarnhau eu bod yn deall bod cwblhau'r arolwg gyfystyr â rhoi eu caniatâd. Ar gyfer casglu data ansoddol, cadarnhawyd caniatâd llafar neu ysgrifenedig cyn cychwyn y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws.

Dadansoddi data

Arolygon gofal cymdeithasol Cymru-gyfan a chyflogwr y GIG

- 2.17 Gweithredodd Data Cymru fel y partner arweiniol ar lunio a saernïo'r arolwg. Defnyddiodd Data Cymru yr adnodd [SmartSurvey](#), oedd yn galluogi holiaduron dwyieithog y gellid eu haddasu a'u teilwra yn unol â gofynion GDPR (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data). Roedd yn caniatáu ystod o ddulliau casglu ymatebion yn cynnwys dolenni cyswllt arferol, e-bost, dolenni cyswllt cymdeithasol, codau QR, mewnosodiadau gwe a 'popups', yn ogystal â chasglu all-lein. Roedd hefyd yn cynnig mynediad uniongyrchol i ganlyniadau gydag ystadegau crynodeb allweddol a thablau a siartiau sylfaenol (gweler Atodiad E am y datganiad ar fethodoleg).

Cyfweiliadau a grwpiau ffocws

- 2.18 Recordiwyd sain cyfweiliadau a grwpiau ffocws, a chawson nhw eu trawsgrifio a'u dadansoddi gan ddefnyddio chwe cham 'Braun and Clarke' (2006) i ddadansoddi fesul thema, a darparodd hyn fframwaith i sicrhau cysondeb.

Triongli'r data a gasglwyd

- 2.19 Trionglwyd canfyddiadau o'r basau data (adolygiad llenyddiaeth, arolygon. y cyfweiliadau a grwpiau ffocws). Mae'r broses o driongli yn cyfeirio at y farn bod canfyddiadau o liaws o ddulliau yn cael eu cyfuno i gyfnerthu ei gilydd (Creswell & Plano-Clarke, 2011). Ystyriwyd data a gasglwyd o bob ffynhonnell i benderfynu a

ydy'r canfyddiadau yn cytuno â'i gilydd, yn cynnig gwybodaeth ategol ar yr un mater neu'n croes-ddweud ei gilydd (O'Cathain *et al*, 2010).

3. Canfyddiadau: Adolygiad llenyddiaeth

3.1 Yn yr adolygiad llenyddiaeth, ceisiwyd chwilio am dystiolaeth o:

Amrywiad tâl ac amodau rhwng ac o fewn sectorau (cyhoeddus, trydydd, annibynnol a'r GIG), yn ffocysu'n benodol ar:

- gyflogwyr: e.e. yr effaith ar recriwtio a chadw staff, ansawdd staff, costau, dilyniant y gofal/a neu ansawdd y gofal a gynigir
- cyflogai: e.e. morâl y staff, parch cydradd
- enghreifftiau o arferion blaengar gan gyflogwyr i recriwtio a chadw staff.

Termau a diffiniadau

Gofal cymdeithasol oedolion

3.2 Mae gofal cymdeithasol oedolion yn derm eang sy'n cyfeirio at ddarparu gofal a chymorth ar gyfer pobl 18 oed a throsodd, megis cymorth personol ac ymarferol gyda'r bwriad o gynnal eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd (Cromarty, 2019). Darperir gofal cymdeithasol ffurfiol yng nghartref yr unigolyn ei hun, mewn lleoliadau cymunedol (canolfannau dydd) neu leoliadau preswyl (cartrefi gofal) neu dai â gofal. Er y gall y ffin rhwng gofal cymdeithasol, gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill, fod yn annelwig ac yn gorgyffwrdd, diffinnir gofal cymdeithasol yn bennaf yn ôl y ffynhonnell ei gyllid (Atkinson et al, 2016). Ar gyfer mwyafrif defnyddwyr gwasanaethau, yr Awdurdodau Lleol sy'n cyllido peth neu'r cyfan o'u gofal (Cromarty, 2019; Atkinson et al, 2016). Mae gofal di-dâl neu ofal anffurfiol yn cyfeirio at deulu, ffrindiau neu gymdogion yn darparu'r gofal yn ddi-dâl. (Cromarty, 2019).

Gweithlu gofal cymdeithasol oedolion

3.3 Ceir nifer o deitlau cyflogai gofal cymdeithasol sy'n cyflenwi gofal a chymorth rheng flaen. Gellir gwahaniaethu rhwng rhai teitlau swyddi/rolau ar sail lleoliad y gofal a gynigir, er enghraifft yng nghartref yr unigolyn (e.e. gofal cartref) neu i ffwrdd o'r cartref (e.e. byw â chymorth neu ofal preswyl). Yn aml gellir cyfnewid teitlau swyddi; gellir cyfeirio at weithwyr gofal cartref fel 'gweithwyr gofal yn y cartref' neu 'weithwyr cymorth' (Atkinson et al, 2016) a chyfeirio at y rhai sy'n darparu gofal preswyl fel 'gweithiwr preswyl/gofalydd/gweithiwr cymorth/ymarferydd'.

- 3.4 Mae grwpiau cleientiaid gofal cymdeithasol oedolion yn cynnwys pobl hŷn yn bennaf (yn cynnwys unigolion sy'n byw gyda dementia gydag anghenion gofal a chymorth), oedolion (iau a hŷn) gydag anabledau corfforol a/neu ddysgu sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- 3.5 Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cyfeirio at y rhai sydd mewn rolau cyffelyb yn y GIG ar raddau cyflog yr Agenda Newid (Cyflogwyr y GIG, 2017).

Gofal plant preswyl

- 3.6 Mae gweithwyr gofal plant preswyl yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n byw i ffwrdd o'u cartrefi. Mae rôl gweithwyr gofal plant preswyl yn wahanol i un gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion. Yn hytrach na chynnig, er enghraifft, gofal personol, mae'r pwyslais ar gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, darparu cymorth emosiynol, eu helpu i newid eu hymddygiad, cysylltu ag asiantaethau a rhieni, darparu cymorth a chynorthwyo mynediad i addysg a gweithgareddau hamdden (White et al, 2015).

Cyd-destun gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr

- 3.7 Yn 2016 yng Nghymru, amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwerth uniongyrchol ac anuniongyrchol ac ysgogol darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion oedd £2.2 biliwn, roedd tua 2,070 o leoliadau yn darparu gofal a chyfartaledd enillion cyfwerth amser llawn (FTE) oedd £16,900 (Sgiliau Gofal 2018a). Cyflogwyd mwyafrif o'r gweithlu gofal cymdeithasol oedolion (44,500) sy'n cynnig gwasanaethau rheoledig mewn safleoedd a gynhelir, mewn lleoliadau ddarparwyd gan y sector annibynnol.
- 3.8 Yn Lloegr, cyfrannodd cyflogwyr gofal cymdeithasol oedolion £38.5 biliwn i'r economi a darparu gofal mewn dros 40,000 o leoliadau gofal, a'r mwyafrif ohonyn nhw (78%) yn cael eu cynnal gan y sector annibynnol (Skills for Care, 2018b). Mae gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yn cynyddu, ac amcangyfrifwyd bod 1.47 miliwn o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr, yn unig, a nifer y swyddi'n cynyddu o 275,000 erbyn 2009 (Sgiliau Gofal, 2018c).
- 3.9 Darparodd data gweithlu Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) (2017) wybodaeth am wasanaethau darparwyd gofal a gomisiynwyd (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a) a gwasanaethau rheoledig yr Awdurdodau

Lleol² (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b) ac mae hyn yn cynnig trosolwg defnyddiol o faes gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru.

Darparwyr gofal a gomisiynwyd

- 3.10 Yn 2017, comisiynwyd tua 1,350 o ddarparwyr gofal gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gynnig gofal cymdeithasol ac amcangyfrifwyd bod dros 52,500 o staff yn gweithio i ddarparwyr a gomisiynwyd i gynnig gofal. Darparwyd mwyafrif y gofal a gomisiynwyd gan sefydliadau'r sector annibynnol (83%) o'i gymharu â 17% yn y trydydd sector, gostyngiad o 21% ers 2016. Gofal preswyl oedd y rhan fwyaf o'r hyn ddarparodd y darparwyr gofal, er bod hyn yn amrywio, o 71% yng Ngheredigion i 19% ym Merthyr Tudful. O ran y gofal cartref a gomisiynwyd gan ddarparwyr, roedd y canran yn amrywio o 11% yng Ngwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i 42% yn Sir Fflint. Comisiynwyd gwasanaethau i gynnig gwasanaethau ar gyfer oedolion (62%) a phobl hŷn (62%) a darparodd 13% o ddarparwyr gofal a gomisiynwyd wasanaethau ar gyfer plant. Gweithwyr gofal rheng flaen oedd y staff a gyflogwyd yn bennaf (65%) tra mai 9% a gyflogwyd oedd fel staff y cyfeiriwyd atyn nhw fel uwch ofalwyr.

Gwasanaethau rheoledig yr Awdurdodau Lleol³

- 3.11 Yn ystod yr un cyfnod, roedd yr Awdurdodau Lleol yn cynnal o leiaf 130 o wasanaethau ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu rheoleiddio, yn cyflogi 11,000 o staff gofal cymdeithasol. Gofal preswyl (51%) oedd rhan fwyaf o ddarpariaethau'r gwasanaethau rheoledig gydag 20% yn cynnig gofal cartref. Roedd y mwyafrif yn darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phobl hŷn gan gyflogi gweithwyr gofal rheng flaen (57%).
- 3.12 Er na nodwyd hyn yn y llenyddiaeth na chwaith yn y naill adroddiad uchod na'r llall, gallai fod gan staff a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol a'r GIG fwy nag un contract ac efallai'n gweithio i fwy nag un darparwr.

² 'Gan mai hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r data gael ei gasglu yn genedlaethol, cafwyd, fel y rhagwelwyd, nifer o broblemau o ran ansawdd y data. O ganlyniad, cyfyng fu lefel ein dadansoddiad' (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b, tud.3)

³ 'Rydyn ni'n ansicr o ganran y sector gwasanaethau rheoledig y mae'r data yn ei gynrychioli. O ganlyniad ni fu'n bosibl i ni amcangyfrif ar gyfer unrhyw wasanaethau 'coll'. Felly mae ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny sy'n cael eu cynnwys yn y casgliad. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigyrau hyn' (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b, tud.3)

Recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol

- 3.13 Mae nifer o sialensiau yn wynebu gofal cymdeithasol o ran y gweithlu, gan gynnwys trosiant uchel a chyfraddau uchel o swyddi gwag, galw cynyddol am weithwyr gofal, recriwtio costus a hyfforddi staff newydd sydd hefyd yn gostus a'r defnydd cynyddol o staff asiantaeth (Moriarty et al. 2018).
- 3.14 Yng Nghymru, nodwyd y canran uchaf o swyddi gwag (9%) gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd gan Sir Gaerfyrddin ac Abertawe tra riportwyd llai na 1% o swyddi gwag gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd gan Sir Fôn, a dim ond 0.5% ar gyfer Merthyr Tudful (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a). O'r swyddi gwag a riportwyd ar draws yr holl ddarparwyr gofal, roedd 74% ar gyfer gweithwyr gofal, swyddogion gofal neu gynorthwyyr gofal. O ran gwasanaethau rheoledig yr Awdurdodau Lleol, Blaenau Gwent a Chaerffili riportiodd y canran uchaf o swyddi gwag (24%) a bron hanner yr holl Awdurdodau Lleol yn dweud nad oedd ganddyn nhw swyddi gwag. O'r swyddi gwag a riportwyd ar draws gwasanaethau rheoledig, roedd 73% ar gyfer gweithwyr gofal, swyddogion gofal neu gynorthwyyr gofal (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b).
- 3.15 Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn amrywio o un awdurdod i'r llall. Ym Mro Morgannwg recriwtwyd 39% o staff yn gweithio i ddarparwyr gofal a gomisiynwyd gan yr awdurdod yn 2017 o'i gymharu â 14% yn gweithio i ddarparwyr a gomisiynwyd yng Ngheredigion (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a). Mae data y darparwyr gofal a gomisiynwyd hefyd yn dangos bod 33% o staff gofal cartref ar draws Cymru wedi gadael yn 2017 o'i gymharu â 13% of staff a adawodd lleoliadau gofal eraill (e.e. gwasanaethau gofal dydd). Doedd y data ddim yn egluro cyrchfan yr ymadawyr hyn.
- 3.16 Mae Sgiliau Gofal (2018c) yn amcangyfrif bod cyfradd trosiant cyflogai ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr yn cyfateb i amcangyfrif o 390,000 o bobl yn gadael eu swyddi bob blwyddyn. Fodd bynnag, dydy'r mwyafrif ddim yn gadael maes gofal cymdeithasol a 67% o'r recriwtio yn dod o rolau eraill o fewn gofal cymdeithasol. Mae lefelau cynyddol y trosiant a'r newid yn arwydd o'r sialens i recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol, mae Sgiliau Gofal (2018c) yn amcangyfrif bod 110,000 o swyddi gwag ar unrhyw gyfnod penodol.

3.17 Yn ogystal â chystadleuaeth rhwng darparwyr gofal, mae cystadleuaeth rhwng y GIG ac asiantaethau cyflogaeth dros dro. Mae Moriarty et al (2018) yn amlygu problemau'r sector annibynnol a gwirfoddol; maen nhw'n cael trafferth i gystadlu gyda telerau ac amodau gwasanaeth y GIG ac yn buddsoddi mewn hyfforddi gweithwyr/cynorthwyr gofal iechyd sydd wedyn yn gadael i weithio yn y GIG. Safonodd system yr Agenda ar gyfer Newid y tâl ac amodau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gyflogwyd o fewn y GIG. Mae Agenda ar gyfer Newid yn neilltuo swyddi i fand tâl penodol gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swydd. Ei fwriad ydy cyflenwi tâl teg ar gyfer staff anfeddygol, darparu gwell dolenni cyswllt rhwng tâl a dilynant gyrfa a chysoni telerau ac amodau gwasanaethau megis gwyliau blynyddol, oriau a thâl salwch, a gwaith a wneir yn ystod oriau anghymdeithasol (Cyflogwyr y GIG, 2017). I weithiwr cymorth gofal iechyd a gyflogir gan y GIG yng Nghymru byddai hyn yn golygu y byddai'n derbyn yr un tâl a'r un telerau ac amodau waeth ble fyddai'n gweithio (yn ddaearyddol).

3.18 Un anhawster wrth recriwtio a chadw staff ydy'r gystadleuaeth o du rolau swyddi eraill y tu allan i ofal cymdeithasol. Un sialens allweddol a amlygwyd oedd diffyg gwahaniaeth tâl rhwng gwaith gofal cymdeithasol a rolau eraill, er enghraifft, lletygarwch a manwerthu (Moriarty, 2018, Grimshaw & Carroll, 2002). Cododd darparwyr gofal cartref y cwestiwn o gystadleuaeth mewn rolau tu allan i faes gofal cymdeithasol, er enghraifft, agor archfarchnad newydd yn ddiweddar (Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW), 2016). Yn yr un modd, mewn adroddiad ar enillion ac oriau gwaith gofal cartref, amlygodd astudiaeth achos Awdurdodau Lleol yn Lloegr nad oedd cyfraddau tâl gofal cartref yn gallu cystadlu ag archfarchnadoedd mawr lleol ac roedd hynny'n effeithio ar y marchnadoedd llafur lleol ac ar recriwtio a chadw staff (Bessa et al 2013).

Ffactorau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw gweithlu gofal cymdeithasol

3.19 Yn ogystal â chystadleuaeth rhwng darparwyr a rolau tu allan i ofal cymdeithasol, mae ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw ym maes gofal cymdeithasol.

Tystiolaeth o amrywiad mewn tâl ac amodau

3.20 Ni nodwyd yn y llenyddiaeth unrhyw dystiolaeth o amrywiad mewn tâl ac amodau ymhlith cyflogwyr gofal cymdeithasol sector yr Awdurdodau Lleol, y sector

annibynnol na'r trydydd sector. Fodd bynnag, ceir ychydig o dystiolaeth bod amrywiad yn y telerau a'r amodau y mae'r GIG yn eu cynnig yn cyfrannu at anawsterau cadw gweithwyr gofal (Moriarty et al, 2018). Fel y nodwyd uchod, er gwaethaf cyfraddau uchel trosiant cyflogai o fewn gofal cymdeithasol oedolion, roedd dros hanner (67%) yn gadael i weithio i ddarparwyr eraill ond heb adael maes gofal cymdeithasol. Serch hynny, heb dystiolaeth empirig, dydy hi ddim yn bosibl penderfynu i ba raddau mae amrywiad mewn tâl ac amodau yn ffactor bod cyflogai yn gadael i weithio i ddarparwyr eraill.

Cyflogau isel

- 3.21 Fel galwedigaeth, mae'n wybyddus bod gofal cymdeithasol yn sector isel ei dâl gyda threfniadau gwaith ansicr (Hussein, 2017). Cydnabyddir yr anawsterau i recriwtio a chadw gweithwyr o ganlyniad i hyn (Moriarty et al, 2018) ac mae darparwyr gwasanaethau wedi mynegi eu hanfodlonrwydd am y cyfraddau tâl y maen nhw'n gallu cynnig gan eu bod yn ystyried hyn yn anfanteisiol i recriwtio a chadw gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol (Bessa et al, 2013).
- 3.22 Mewn adolygiad o ofal cartref yng Nghymru, un o negeseuon allweddol AGGCC/CSSIW (2016) oedd bod gweithwyr gofal yn teimlo bod y tâl a'r amodau yn wael a heb fod yn adlewyrchu gofynion a chymhlethdod eu gwaith. Yn 2018, canolrif tâl gweithiwr gofal yn y DU oedd £9.14 yr awr, yn codi i £9.62 ar gyfer uwch weithwyr gofal. Roedd tua 517,000 o swyddi ym maes gofal cymdeithasol yn talu tâl is na'r tâl byw a nodwyd gan y Living Wage Foundation (Dromey & Hochlaf, 2018). Ar ben hynny, mae Moriarty et al (2018) yn cyfeirio at ychwanegiadau cyfyngedig ar gael ar gyfer oriau anghymdeithasol neu lefel profiad y rhai sy'n derbyn y Cyflog Byw Cenedlaethol, oedd yn creu capasiti anghytwys o ran darpariaeth gofal 24 awr, gydag anawsterau i recriwtio staff i weithio nos, gyda'r nos a phenwythnosau.
- 3.23 Gan ddadansoddi data o ddwy ffynhonnell, y Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol (NMDS-SC), Ionawr 2012, a 'Longitudinal Care Study' (LoCS), ystyriodd Hussein (2017) raddfa ffactorau a ffactorau ymddangosiadol '*tâl tlodi*' ar gyfer y gweithlu gofal hirdymor maes gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Gan ffocysu ar '*grŵp mwyaf agored i niwed y gweithlu hwn*' (tud.1818), nododd canfyddiadau LoCS fod dros hanner yr ymatebwyr yn derbyn rhyw fath o fudd-daliadau a nododd 28% o weithwyr gofal bod rheoli eu harian yn anodd neu'n anodd iawn. Datblygodd

dadansoddiad ansoddol Hussein (2017) o'r LoCS dair thema yn berthnasol i gyflogau isel ym maes gofal cymdeithasol; 1) Natur gynhenid y swydd, 2) Cymdeithas a gwerth gwaith gofal, 3) Ariannu, darpariaeth gan gyflenwyr allanol a marchnata gofal.

Isel eu sgiliau ac isel eu statws

- 3.24 Mae data SCWWDP (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a) yn dangos bod amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol Cymru o ran canran y staff y cyfeirir atyn nhw fel Gweithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwyr Gofal sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol/ a argymhellir. Roedd y ffigyrau yn amrywio o 32% mewn darparwyr gofal a gomisiynwyd gan Ferthyr Tudful i 71% o ddarparwyr gofal a gomisiynwyd gan Sir Fflint a Cheredigion.
- 3.25 Cyfeirir yn gyson at statws isel gwaith cymdeithasol fel rheswm dros broblemau recriwtio a chadw gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol, er enghraifft, Twigg et al, 2011; Cavendish, 2013; Sgiliau Gofal, 2014; Hussein a Christensen, 2017). Er mai tâl isel oedd y rheswm mwyaf mynych a gynigwyd dros anawsterau recriwtio a chadw gweithwyr, nodwyd statws bron cyn amlled.
- 3.26 Yng Nghymru mae gofyn i weithwyr cymdeithasol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol, rheolwyr a gweithwyr gofal plant preswyl, rheolwyr cartrefi gofal oedolion a rheolwyr gofal cartref fod yn gofrestredig er mwyn gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae gofyn i weithwyr gofal plant preswyl gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, meddu ar Ddiploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) neu gwblhau'r cymhwyster o fewn tair blynedd cyntaf y cofrestriad (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019a). Newidiodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Un o ofynion y ddeddf oedd y cynlluniwyd, o Ebrill 2020, y byddai holl weithwyr gofal cartref ym maes gofal cymdeithasol wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a holl weithwyr gofal preswyl oedolion wedi cofrestru erbyn 2022. Ymhlith manteision cofrestru yn ôl Gofal Cymdeithasol Cymru (2019b) oedd y byddid yn gwerthfawrogi gweithwyr gofal cymdeithasol drwy gydnabod y rôl a dangos bod gan weithwyr gofal y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'r swydd. Dydy hyn ddim yn ofynnol i weithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogir yn y GIG.

Contractau a sefydlogrwydd swydd

- 3.27 Un nodwedd o weithlu gofal cymdeithasol ydy lefelau uchel o ansicrwydd swydd (Dromey & Hochlaf, 2018) megis trefniadau gweithio anniogel (e.e. contractau oriau heb eu gwarantu, contractau byr-dymor dros dro). Cysylltir y defnydd o gontractau oriau sero ym maes gofal cymdeithasol â bylchau niferus di-dâl yn niwrnod gwaith y cyflogai gofal. Hefyd, gall oriau gwaith afreolaidd neu weithio tu hwnt i oriau'r contract olygu bod gweithiwr yn colli budd-dal (credyd cynhwysol) (Bessa et al, 2013).
- 3.28 Gan gydnabod y defnydd cynyddol o gontractau oriau heb eu gwarantu mewn gofal cymdeithasol, deddfodd LIC i ddelio â'r broblem. Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) i ddarparwyr gweithwyr gofal cartref i gynnig y dewis i weithwyr gofal o gontract ag oriau wedi'u gwarantu ar ôl tri mis o gyflogaeth (LIC, 2017).
- 3.29 Mae data SCWWDP data (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a) yn dangos yn 2017, bod 82% o staff darparwr gofal Awdurdodau Lleol a gomisiynwyd yng Nghymru ar gontractau parhaol. Roedd y canran yn amrywio o 73% o staff mewn darparwyr gofal a gomisiynwyd gan Gaerdydd i 92% a gomisiynwyd gan Wrecsam. Yn ystod yr un cyfnod roedd 14% o staff a gyflogwyd gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd ar gontractau achlysurol, 1% o ddarparwyr a gomisiynwyd gan Ferthyr Tudful, i 23% a gomisiynwyd gan Gaerdydd. Ar draws y mathau o ddarparwyr, roedd 92% o holl staff darparwr gofal preswyl a gomisiynwyd ar gontractau parhaol, yn gostwng i 66% ymhlith staff gofal cartref a gomisiynwyd tra bod 32% o staff gofal cartref a gomisiynwyd ar gontractau achlysurol. Ar gyfer gwasanaethau rheoledig Awdurdod Lleol (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b), roedd 79% o'r staff ar gontractau parhaol yn 2017, yn amrywio o 100% o staff ym Merthyr Tudful i 40% yn Abertawe.

Ehangu'r gagendor rhwng y galw a'r gwariant

- 3.30 Mae cyflogwyr gofal cymdeithasol oedolion wedi dadldau ers nifer o flynyddoedd bod y ffioedd y mae cynghorau lleol yn talu iddyn nhw ddarparu gwasanaethau yn annigonol i'w galluogi i fuddsoddi mewn dulliau o wella amodau cyflogaeth ar gyfer eu staff, a fyddai yn eu tro yn fodd i wella recriwtio a chadw staff (United Kingdom Homecare Association, 2015, dyfynnwyd yn Moriarty, 2018). Fodd bynnag, dywedodd Consillium (2016) bod tuedd i gyflogwyr fabwysiadu datrysiadau byr-

dymor i fynd i'r afael â'r broblem o brinder staff yn hytrach na buddsoddi mewn dulliau hir-dymor o fynd ati i wella cyfraddau cadw staff. Amlygwyd y '*gagendor cynyddol*' rhwng lefelau gwariant a'r galw am ddarpariaeth gofal cymdeithasol, yn enwedig anghenion cymhleth a'r gofyn am gymorth dwys gan Moriarty et al (2018) a edrychodd ar recriwtio a chadw staff yng gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn Lloegr.

Gwledig yn erbyn y dinesig

- 3.31 Cyfeiriodd Moriarty et al (2018) hefyd at y sialensiau sy'n wynebu darparwyr gofal cartref mewn ardaloedd gwledig i recriwtio gweithwyr gofal. Mae gwella recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael ei lesteirio gan gostau teithio a chludiant cyhoeddus i weithwyr gofal sydd heb eu cludiant eu hunain. Mewn cyferbyniad, yr anhawster roedd cartrefi gofal a leolwyd mewn ardaloedd ffyniannus, oedd â'r nod o ddenu pobl oedd yn mynd i 'ariannu eu hunain', yn ei gael oedd recriwtio staff gofal. oedd yn byw o fewn pellter teithio i'r lleoliad gofal.

Gofal plant preswyl

- 3.32 Roedd sialensiau tebyg i'r uchod o ran recriwtio a chadw gweithwyr yn bodoli i gyflogwyr ym maes gofal plant preswyl. Priodolir yr anawsterau i statws isel ymddangosiadol y rôl, denu pobl gyda digon o brofiad a sgiliau, a chystadleuaeth gyda swyddi eraill isel eu tâl ar lefel mynediad nad oedd angen unrhyw gymwysterau blaenorol ac sy'n debygol o fod yn llai beichus ac yn fwy cydnaws â bywyd ac ymrwymadau teuluol (White et al, 2015).

Effaith recriwtio a chadw staff

- 3.33 Gall problemau recriwtio a chadw staff o fewn gofal cymdeithasol effeithio ar ddilyniant y gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, tra bod ymglymiad a llesiant staff yn cysylltu'n uniongyrchol â phrofiad defnyddwyr (Maben, 2013). Ceir consensws bod cyfraddau uchel o swyddi gwag a throsiant gyflawni a chynnal safonau da o ran gofal (Moriarty et al, 2018). Ymhlith yr effeithiau eraill mae morâl staff a boddhad yn y swydd a gallai diffyg hyn effeithio ar waith, cydweithwyr ac ansawdd y gofal a gynigir (Squires et al, 2015).
- 3.34 Amlygodd arolwg systematig o ffactorau (unigol a threfniadol) o ran boddhad yn y swydd ymhlith gofalwyr mewn lleoliadau preswyl hir-dymor ar gyfer pobl hŷn bod

grymuso ac ymreolaeth yn ffactorau pwysig i'r unigolyn, tra bod adnoddau a baich gwaith yn ffactorau trefniadol pwysig. Aeth astudiaethau ansoddol sy'n cael eu cynnwys yn yr arolwg ac sy'n cyfeirio at y ffactorau unigol yn eu blaen i amlygu hefyd y cyswllt/perthynas gyda'r preswylwyr, natur y swydd a chyfle i ddysgu a datblygu fel ffactorau pwysig sy'n cyfrannu at foddhad yn y swydd. (Squires et al, 2015). Nodwyd mewn ymchwil blaenorol bod cymhellion gofalgar yn cynnwys perthynas gyda'r unigolion yn derbyn gofal a chymorth yn ffactorau sydd hefyd yn cyfrannau at foddhad yn y swydd yn ogystal â chyfleoedd i weithio'n hyblyg ac argaeledd swydd i yn agos adre (Hebson et al, 2015; CSSIW, 2016). Ymhlith y ffactorau unigol na thybiwyd eu bod yn bwysig roedd oed, ethnigrwydd, rhyw, lefel addysg, mynychu hyfforddiant arbennig a blynyddoedd o brofiad. Ond doedd boddhad gyda chyflog/budd-daliadau a pherfformiad yn y swydd ddim yn cael eu hystyried yn ffactorau sefydliadol bwysig o ran boddhad yn y swydd (Squires et al, 2015).

- 3.35 Amlygodd gwaith a wnaeth [Prifysgol Exeter](#) ar broblemau recriwtio a chadw o fewn gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yn Nyfnaint yn 2018 resymau tebyg bod gweithwyr yn aros yn eu rolau. Roedden nhw'n cynnwys teimlo eu od yn cael eu gwerthfawrogi yn eu gwaith, boddhad yn y swydd (yn cynnwys amrywiaeth a her eu rôl), teimlo eu bod yn cael effaith positif ar fywydau pobl, cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol ac amodau da ar gyfer gwaith (e.e. oriau gwaith wedi eu gwarantu, cyflogau teg). Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai'r hyn sy'n sbarduno pobl i adael eu swydd ydy: sialensiau'r rôl (e.e. gweithio ar eu pen eu hun, lefel y tâl a lefel y cymorth a gynigir), y strès o gael apwyntiadau'n rhy agos i'w gilydd, diffyg swydd llawn amser a shifftiau hollt, diffyg mewnbwn i amserlenni gwaith a newidiadau munud olaf, a bod gweithwyr asiantaethau yn cael eu talu'n uwch. Yn yr un modd, amlygodd Hebson et al (2015), yr hyn sydd wrth wraidd anfodlonrwydd gweithwyr gofal yn eu swydd sef telerau ac amodau cyflogaeth (yn enwedig tâl), amser gweithio a phrinder staff.

Dulliau blaengar o fynd ati i recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol

- 3.36 O dderbyn y sialensiau recriwtio a chadw staff y mae maes gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, ceisiodd yr adolygiad llenyddiaeth ddefnyddio dulliau blaengar o fynd ati, a fyddai o bosib o gymorth i ddelio gyda'r mater.

- 3.37 Yn 2017, cynhaliodd Sgiliau Gofal arolwg ar-lein ymhlith cyflogwyr gofal cymdeithasol oedolion y nodwyd bod ganddyn nhw drosiant isel o ran staff (llai na 10%) er mwyn ystyried beth yn eu tyb nhw oedd yn cyfrannu at eu llwyddiant. Seiliwyd yr arolygon ar bedair thema allweddol o becyn adnoddau recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion '*Finders keepers*' (Sgiliau Gofal, 2013):

Denu pobl i weithio i'ch sefydliad

- 3.38 Tâl oedd y maen prawf *pwysicaf* i gael ei ddyfynnu a fyddai'n denu mwy o bobl i wneud cais, ac yna - y sefydliad yn datblygu hinsawdd mwy positif sy'n cynorthwyo a gwerthfawrogi ei staff, mynediad i hyfforddiant, gonestrwydd am realiti'r rôl, ac amodau gwaith (yn benodol gweithio hyblyg).

Cyflogi'r bobl iawn

- 3.39 Ystyriwyd mai'r ffactorau *pwysicaf* i sicrhau bod cyflogwyr yn recriwtio'r bobl iawn oedd sefydlu bod gan ddarpar gyflogai newydd y rhinweddau personol priodol, y cymhellion a'r gwerthoedd cywir a chael proses recriwtio cadarn a thrylwyr. Mae Bennett et al (2018) yn ailadrodd pwysigrwydd dull o fynd ati i recriwtio a chadw sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae'r dull hwn o fynd ati yn ystyried i ba raddau mae darpar gyflogai yn arddangos gwerthoedd y rôl gofalu megis tosturi yn ogystal â sgiliau a phrofiad. Cafodd gwerthusiad blaenorol bod recriwtio ar sail gwerthoedd o'i gymharu â dulliau 'traddodiadol' o fynd ati yn arwain at fanteision yn cynnwys trosiant isel o ran staff, gwell perfformiad gan staff a staff yn meddu ar werthoedd gofal cryfach; er enghraifft, empathi, parch a thosturi (Consilium, 2016). Fodd bynnag, ymhlith y ffactorau y tybiai cyflogwyr fyddai'n effeithio ar eu gallu i weithredu'r dull hwn o fynd ati fyddai'r '*Cyflog Byw Cenedlaethol, pwysau ariannol yn gysylltiedig â chontractau 'tynn' gydag awdurdodau lleol a diffyg amser a chapasiti uwch rheolwyr i fuddsoddi mewn cynllunio*' (tud.7). Ar ben hynny, ceir dryswch yn parhau ymhlith cyflogwyr beth ydy dull o fynd ati yn seiliedig ar werthoedd, sut i'w ddatblygu a beth sy'n cynrychioli arferion da.

Datblygu talent a sgiliau

- 3.40 Y ffactor *pwysicaf* i ddatblygu talent newydd a sgiliau oedd mynediad staff i gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad (parhaus) ac yna, datblygu sgiliau cyfredol y staff i alluogi cyflogai addas i dyfu a symud ymlaen.

Cadw eich pobl

- 3.41 Ymhlith y ffactorau *pwysicaf* i gadw staff roedd parchu a gwerthfawrogi staff, cyfathrebu (gwrando ar staff), cynorthwyo a chefnogi staff yn eu rolau (ac yn gynyddol yn eu bywydau personol), buddiannau a chymelliadau, ac amgylchedd gwaith sy'n hwyluso datblygiad staff.
- 3.42 Yn yr un astudiaeth, gofynnwyd i gyflogwyr am faterion oedd yn effeithio ar recriwtio naill ai'n bositif neu'n negyddol. Y materion y cyfeiriwyd atyn nhw fynychaf oedd:
- Enw da y sefydliad
 - Oriau a phatrymau gwaith
 - Tâl
 - Cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfaol
 - Cystadleuaeth o du darparwyr gofal cymdeithasol eraill
 - Arweinyddiaeth a rheolaeth leol ar y safle ac arweinyddiaeth a rheolaeth sefydliad-cyfan
 - Cyllid
 - Proffil(iau) defnyddwyr gwasanaeth
 - Cystadleuaeth o du cyflogwyr tu allan i ofal cymdeithasol
- 3.43 Mae Bennett et al (2018) yn cynnig crynodeb defnyddiol o ddulliau eraill o fynd ati a ddefnyddir i wella telerau ac amodau gweithwyr gofal sy'n cynnwys mynd i'r afael â materion hyfforddiant, sefydlogrwydd, tâl ac ymreolaeth. Mae gwledydd Ewropeaidd (Yr Almaen, Awstria, a Denmarc) wedi diwygio cymwysterau a hyfforddiant gweithwyr gofal cartref er mwyn annog recriwtio i faes gofal cymdeithasol a helpu i wella ei ddelwedd. Yn Nenmarc, amlygwyd rhaglenni lle ystyrir gofalwyr yn 'hyfforddwyr' sy'n gwneud gwaith positif a chymhelliol a hynny'n gwella statws gwaith gofal. Yn y DU mae lleihau hierarchaeth mewn timau wedi galluogi sefydliadau i gynnig hyfforddiant a chyfraddau tâl mwy cystadleuol er mwyn gwneud

gyrfa ym maes gofal yn fwy deniadol. Mae Bennett et al (2018) yn tynnu sylw at ddulliau newydd o fynd ati i drefnu a chyflenwi gofal drwy ddefnyddio timau ymreolaethol sy'n rheoli eu hunain ac mae hyn yn galluogi '*hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gofal yn ogystal â gwell hyblygrwydd a rheolaeth ar gyfer gweithwyr gofal dros eu horiau a boddhad yn eu swydd*' (tud.6).

- 3.44 Mewn astudiaeth sy'n ystyried recriwtio a chadw gweithwyr mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion (Moriarty, 2018), nodwyd bod gwella statws gofal cymdeithasol yn elfen bwysig. Cyfeiriodd enghraifft a gynigwyd gan un o'r cyfranogwyr at raglen 'Proud to Care' Cyngor Sir Dyfnaint. Partneriaeth ydy Proud to Care South West o16 o Awdurdodau Lleol I (yn cynnwys Dyfnaint) a Health Education England. Gan gydweithio ar lefel ranbarthol, y nod ydy codi proffil gyrfa ym maes gofal a iechyd drwy ddefnyddio 'gwir straeon pobl' i dynnu sylw at y mathau o waith gofal sydd ar gael a'r amrywiad o bobl a gyflogir yn y maes (Proud to Care South West, 2019).
- 3.45 O fewn yr un astudiaeth, cafwyd enghreifftiau o gymhellion ariannol i well recriwtio a chadw. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Ffi '*darganfod*' – Cyflwyno cyflogai newydd boddhaol. Soniodd cyfranogwyr am enghreifftiau o dderbyn £350 am bob un cyflogai newydd y gwnaethon nhw gyflwyno ar ôl i'r gweithwyr newydd fod yn y swydd am chwe mis.
 - '*Rhannu enillion/Gainsharing*' – Mae rhannu enillion yn cyfeirio at gynnig taliadau i gyflogai ar sail eu perfformiad h.y. eu cynhyrchiant (Freeman et al, 2010); yn annhebyg i dâl am berfformiad sy'n gwobrwyo perfformiad unigolyn, mae rhannu enillion yn arwain at gyd-fuddiannau. Gan ddyfynnu papur cynharach (Moriarty, J., & Manthorpe, J. 2014), mae Moriarty et al, (2018) yn cydnabod, er bod yr arfer o gomisiynu yn seiliedig ar ganlyniadau wedi hen ennill ei blwyf, dyma'r enghraifft gyntaf a gafwyd o droi hyn yn wobrau i gyflogai.
 - Mae ymglymiad cyflogai pan gaiff cyflogai eu hannog i fuddsoddi eu hadnoddau corfforol, gwybyddol ac emosiynol i gyflawni targedau'r sefydliad yn cael ei gynnwys yn gyson mewn enghreifftiau o arferion gwaith uchel eu perfformiad (HPWP) (Albrecht et al, 2015). Roedd dau o'r cyfranogwyr yn ystyried bod hyn yn llesol i gadw gweithwyr (Moriarty et al, 2018).

Ymgyrchoedd /y cyfryngau cymdeithasol – targedu uniongyrchol

- 3.46 Yng Nghymru, lansiwyd menter ym mis Mawrth 2019 o'r enw 'Gofalwn Cymru/ WeCare Wales'. Mae hon yn ymgyrch genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ac mae'n rhan o brosiect pedair blynedd cychwynnol i ddenu a recriwtio i faes gofal cymdeithasol. Y nod ydy denu mwy o bobl yng Nghymru i rolau ym maes gofal (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019c). Mae'n cynnwys gwefan ddwyieithog [WeCare](#) ac mae'n ffocysu ar godi proffil gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant, gwella canfyddiadau pobl o ofal fel gyrfa a phwysleisio'r pethau positif am weithio ym maes gofal (Gofalwn Cymru /WeCare Wales, 2019).
- 3.47 Ym mis Chwefror 2019, lansiodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU ei hymgyrch '[When you care, every day makes a difference](#)' gyda'r nod o recriwtio pobl newydd gyda'r 'gwerthoedd iawn' i faes gofal cymdeithasol chynnig cyngor ar recriwtio a chadw'r 'bobl iawn'. Wedi'i datblygu mewn cydweithrediad agos gyda rhai sydd yn ymwneud â gofal cymdeithasol oedolion, fe barodd yn ystod Chwefror a Mawrth ar y cyfryngau cymdeithasol (defnyddio'r hashtag #shareifyoucare), ac mewn hysbysebion digidol a digwyddiadau ar draws Lloegr. Lansiwyd ail gyfnod yr ymgyrch ym mis Hydref 2019 i redeg tan Ebrill 2020. Roedd y ddwy ymgyrch yn targedu pobl oed 20-39 oed yn bennaf. Dangosodd arolwg diweddar o 2,020 o oedolion yn Lloegr gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU /[UK Department of Health and Social Care](#), mai'r rhai rhwng 18 a 39 oed fyddai'r bobl mwyaf tebygol o ystyried gyrfa mewn gofal cymdeithasol oedolion.
- 3.48 Mae [gwefan yr ymgyrch](#) yn cynnwys chwilio ar-lein am swydd, gwybodaeth am rinweddau, sgiliau a datblygiad a thystiolaeth bersonol gan gyflogai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Creodd cyfnod cyntaf yr ymgyrch gynnydd o 14% mewn cliciadau ar y botwm 'apply' ar gyfer rolau gofal 97% mwy o chwiliadau am swyddi yn cynnwys y gair 'gofal' neu 'gweithiwr gofal' (Sgiliau Gofal, dim dyddiad).

Crynodeb o'r llenyddiaeth

- 3.49 Yn ôl yr adolygiad llenyddiaeth, cyfyng oedd y llenyddiaeth academaidd oedd yn ymwneud ag amrywiad o ran telerau ac amodau a'i effaith ar recriwtio a chadw o fewn gweithlu gofal cymdeithasol. Er mai cyfyng oedd y llenyddiaeth oedd ar gael, mae'r materion a amlygwyd yn yr arolwg yn cynnig sail defnyddiol i'r ymchwil hwn.

3.50 Mae llenyddiaeth academaidd sydd yn bodoli yn cynnig gwybodaeth ar rai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r sialensiau hyn, a'i ategu gan nifer o gyhoeddiadau 'llwyd'. Mae'r ffactorau yn cynnwys y canlynol:

- Cyflogau isel
- Sgiliau isel a statws isel
- Contractau a sefydlogrwydd swydd
- Gwledig yn erbyn y dinesig
- Gagendor cynyddol rhwng y galw a'r gwariant

3.51 Mae'r ffactorau hyn yn dangos, er bod tâl ac amodau gwaith o fewn gofal cymdeithasol yn broblemau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff, nad y nhw ydy'r unig ffactorau a dydyn nhw ddim yn bodoli ar eu pen eu hunain. Ymhlith yr ystyriaethau eraill a geir yn yr arolwg, mae'r canlynol:

- Adeiladu perthynas gyda'r unigolion y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw
- Cael effaith bositif ar fywydau
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol
- Gweithio hyblyg
- Teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Amodau da ar gyfer gwaith (cyflogau teg, oriau sy'n cael eu gwarantu)

3.52 Mae gwreiddiau anfodlonrwydd ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol yn cynnwys y canlynol:

- Telerau ac amodau cyflogaeth, megis tâl a chyfleusterau gwyliau/amser i ffwrdd
- Sialensiau'r rôl (gweithio ar eich pen eich hun, y cymorth a gynigir)
- Diffyg dewis o ran oriau gwaith (shifftiau hollt, newidiadau munud olaf yn y rota)
- Prinder staff

3.53 Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn amlygu rhai dulliau o fynd ati o ddelio â mater recriwtio a chadw staff, ac eto mae diffyg tystiolaeth i ddangos pa mor effeithiol ydy'r dulliau hyn o fynd ati. Mae'r enghreifftiau uchod o'r dulliau megis recriwtio'r 'bobl

briodol' 'gwerthfawrogi staff', buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad gyrfaoi ac amodau gwaith yn cael eu hadlewyrchu ym marn gweithwyr gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, er y canllawiau a allai fod o gymorth a rhai enghreifftiau da o strategaethau ar gyfer gwella cyfraddau recriwtio a chadw gweithwyr, cyfyngedig ydy'r sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Efallai bod hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngwahanol gyfraddau cadw'r Awdurdodau Lleol y cyfeiriwyd atyn nhw yn gynharach. Ar ben hynny, er gwaethaf buddiannau posibl dulliau megis recriwtio ar sail gwerthoedd, mae cyflogwyr wedi sôn am y rhwystrau rhag eu gweithredu'n llawn (e.e. pwysau ariannol, diffyg amser a chapasiti) ac mae ansicrwydd am ymarferoldeb dull fel hwn o fynd ati a sut i'w ddatblygu. Gallai gwaith yn y dyfodol ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn, er enghraifft, datblygu canllawiau i gynorthwyo cyflogwyr i weithredu dulliau'n seiliedig ar werthoedd, rhannu arferion da rhwng ac ymhlith sectorau ac annog a chynorthwyo cyflogwyr i werthuso mentrau i ddatblygu'r sail tystiolaeth am yr hyn fyddai'n effeithiol i wella recriwtio a chadw staff.

4. Canfyddiadau: Arolygon gofal cymdeithasol oedolion Cymru-gyfan a chyflogwyr y GIG

Rhagarweiniad

- 4.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau arolygon gofal cymdeithasol oedolion Cymru-gyfan a chyflogwyr y GIG. Cyfyngwyd y canfyddiadau i arolygon yr oedolion gan mai dim ond nifer fechan o ymatebion (11) a dderbyniwyd am arolwg plant preswyl, 10 gan Awdurdodau Lleol ac un o'r sector preifat. Roedd hyn yn golygu nad oedd dadansoddiad ymhlith sectorau yn ystyrlon, a bod dadansoddiad o fewn yr Awdurdodau Lleol yr un mor gyfyng.
- 4.2 Yn Adran 5, sy'n dilyn, gwneir cymariaethau ymhlith sefydliadau gofal cymdeithasol a rhyngddyn nhw a'r GIG.
- 4.3 Roedd yr arolygon yn ceisio gwybodaeth am ystod o rolau gweithwyr a'r mathau o leoliadau gofal. Er bod ymatebion i'r arolygon efallai'n ddigon trylwyr a chadarn mewn rhai meysydd pwnc (cynrychiadol o'r boblogaeth gyfan), doedd hynny ddim yn wir yn achos ymatebion eraill. Dydy'r rhain ddim wedi cael eu hamlygu yn y canfyddiadau. Yn hytrach cyfyngwyd y riportio i'r wybodaeth a gynigwyd gan ymatebwyr. Fodd bynnag cyflwynir ffigur sy'n sail i'r nifer o sefydliadau a ymatebodd i bob cwestiwn. Ceir rhagor o fanylion am ffigur y sail ym mharagraff 4.5.
- 4.4 Mewn nifer fechan o achosion lle cafwyd anghysonderau yn y data o fewn yr ymatebion neu lle roedd rheswm da i amau bod gwerthoedd yn cael eu riportio yn anghywir, ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y canfyddiadau.
- 4.5 Wrth ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn, dylid nodi na chafwyd ymatebion i bob eitem h.y. doedd pob ymatebydd ddim wedi cyflwyno data ar gyfer pob cwestiwn. Gwelir hyn yn y golofn 'Sail' yn nhablau'r canfyddiadau isod. Os na chafwyd ymateb mae'r golofn sail yn rhoi sero (0). Fodd bynnag, os oedd ffigur y sail yn is na phump, ataliwyd y data fel rhan o reoli datgeliad; cynrychiolir hyn gyda llinell doriad fel hyn (-).

Ymatebion i'r Arolwg

- 4.6 Mae Ffigur 1 isod yn dangos nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan gyflogwyr gweithlu gofal cymdeithasol a'r GIG. Mae'r materion sy'n gysylltiedig â sampl o

ffrâm a dosbarthiad yr arolygon (cyfeiriwyd at hyn ym mharagraff 2.12) yn golygu nad ydy hi'n bosibl i gynnig cyfraddau ymatebion cyffelyb.

Ffigwr 1: Nifer ymatebion cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol fesul sector a'r GIG

	Nifer yr ymatebion
ALI	14
Sector preifat / annibynnol	55
Trydydd sector	7
GIG	7
Cyfanswm	83

4.7 Mae Ffigwr 2 yn dangos nifer y cyflogwyr a ymatebodd i'r arolygon sef y cyflogwyr hynny sy'n cyflogi staff ar draws targed y teipoleg o weithwyr gofal oedolion (Tabl 1)

Ffigwr 2: Nifer ymatebion cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion fesul sector, y GIG a'r math o weithiwr

	Gweithwyr gofal	Uwch weithwyr gofal	Goruchwylwyr	Gweithwyr cymorth gofal iechyd
ALI	14	13	13	0
Sector preifat / annibynnol	53	45	30	8
Trydydd sector	7	7	5	0
GIG	-	-	-	7
Cyfanswm	74	65	48	15

Riportio'r canfyddiadau

4.8 Mae'r canfyddiadau sy'n dilyn yn deillio o wybodaeth gan gyflogwyr gofal cymdeithasol oedolion a'r GIG. Yn yr adrannau hyn, cofnodir y data fesul sector (Awdurdod Lleol, annibynnol, trydydd sector a'r GIG) a fesul math o weithiwr (gweithwyr gofal, uwch weithwyr gofal, goruchwylwyr a gweithwyr cymorth iechyd a gofal. Mae cofnodi'r canlynol:

Tâl

4.9 Doedd ceisio gwybodaeth am dâl ddim mor syml â hynny, gan fod cyflogwyr yn gweithredu dulliau gwahanol o fynd ati, er enghraifft:

Tâl penodedig – un cyfradd tâl i rai neu i'r cyfan o'u gweithwyr;

Ystod tâl – yn galluogi rhai neu'r cyfan o'u gweithwyr i symud yn gynyddrannol o bwynt isafswm tâl i bwynt uwch heb gael dyrchafiad;

Cyfraddau tâl gwahaniaethol – megis talu gwahanol gyfraddau tâl mewn gwahanol leoliadau;

Cyfraddau tâl ar sail cleient – talu gweithwyr ar gyfraddau gwahanol yn ôl pa grŵp o gleientiaid maen nhw'n eu cynorthwyo; neu

Cyfuniad o rai neu'r cyfan o'r uchod

D.S. Sylwer hefyd ar y diffiniad o gyfradd tâl sylfaenol yn y rhestr termau. Dylid nodi hefyd bod rhai ymatebwyr efallai'n gweithredu systemau tâl sy'n cynnwys elfennau ychwanegol yn y tâl sylfaenol megis cydnabyddiaeth am weithio gydag achosion cymhleth.

- 4.10 Gofynnwyd i ymatebwyr roi gwybodaeth am y dulliau gwahanol hyn o ddelio â thâl.
- 4.11 Er y cyflwynwyd ystod o werthoedd, mae'r dadansoddiad o ddata tâl wedi canolbwyntio ar werthoedd canolrif (h.y. pwynt canol y gwerthoedd a nodwyd). Mae hyn yn cyfyngu'r effaith ar unrhyw werthoedd sy'n 'allanolynnau' ac yn fwy priodol na'r cymedr, o gofio effaith bosibl yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar ddsbarthiad cyfraddau tâl fesul awr.
- 4.12 Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar adeg casglu'r data (cyn Ebrill 2020) oedd £4.35 ar gyfer y rhai o dan 18, £6.15 ar gyfer y rhai rhwng 18 a 25 oedd £7.70 ar gyfer y rhai rhwng 21 a 24 oed. Y Cyflog Byw ar adeg casglu'r data oedd £8.21 ar gyfer pobl 25 oed a throsodd. Yn yr adolygiad llenyddiaeth (paragraff. 3.22), cyfeirion ni at y "cyflog byw gwirioneddol", cyfradd a sefydlwyd gan y Living Wage Foundation. Roedd hyn yn £9.30 ar adeg casglu'r data.

Contractau

- 4.13 Gofynnwyd i ymatebwyr i roi gwybodaeth am y mathau o gontractau sydd gan eu gweithlu gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau ar nifer y staff sydd â chontractau gwaith heb ei warantu/ oriau sero. Byddai gan rai o'r gweithwyr ar y contractau hyn fath arall o gontract(au) llawn amser neu ran amser. Er enghraifft, efallai byddai rhaid defnyddio contractau oriau heb eu gwarantu/oriau sero i alluogi staff i gynnig gwaith llanw ychwanegol yn ystod absenoldeb cydweithwyr.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.14 Gofynnodd yr arolwg am wybodaeth am 30 o'r gwahanol fanteision contract, ychwanegiadau, gwobrwyon neu gymhellion sydd ar gael neu a delir i weithlu gofal cymdeithasol (yn ogystal â chyfraddau'r tâl fesul awr sylfaenol). Roedd hyn yn cynnwys opsiynau megis rhannu swydd neu weithio hyblyg, ychwanegiadau megis tâl am weithio goramser eu weithio yn ystod gwyliau banc a chymhellion megis buddiannau hamdden/adloniant neu ad-daliad o ffioedd cofrestru.

Recriwtio a chadw

- 4.15 Ceisiodd yr arolwg gael barn cyflogwyr ar raddau'r anawsterau roedden nhw'n eu profi wrth recriwtio a chadw staff o fewn gweithlu gofal cymdeithasol, ac hefyd, os yn berthnasol, eu barn ar y ffactorau sy'n cyfrannu at yr anawsterau hyn. Disgrifiwyd y ffactorau yn 'eithriadol' neu'n 'sylweddol iawn' gan o leiaf 50% o ymatebwyr.
- 4.16 Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd ddisgrifio sut aethon nhw ati i recriwtio a chadw eu gweithlu gofal cymdeithasol.

Canfyddiadau: Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gweithwyr gofal

- 4.17 Yn yr adran hon, mae pob cyfeiriad at **weithwyr gofal** yn cyfeirio at weithwyr gofal 'rheng flae'n sy'n cynnig gofal a chymorth uniongyrchol i **oedolion** (gweler y teipoleg yn Nhabl 1)

Tâl

- 4.18 Roedd ymatebion yr arolwg yn rhoi manylion am gyfraddau sylfaenol tâl tua 5,500 o **weithwyr gofal** a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol oedolion ar draws 13 o Awdurdodau Lleol Cymru (ni wnaeth un Awdurdod Lleol a ymatebodd gynnig niferoedd y gweithlu ond mae eu hymateb am dâl wedi cael ei gynnwys yn y dadansoddiad isod o'r tâl). Mae Ffigur 3 isod yn dangos yr ymatebion i gwestiynau ar **weithwyr gofal** Awdurdodau Lleol.

Ffigwr 3: Crynodeb o ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiynau am gyfraddau tâl sylfaenol gweithiwr gofal, fesul lleoliad gofal ⁴

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Gwasanaethau gofal dydd	9.36	12.85	3.49	9.74	10.97	12
Gwasanaethau cartrefi gofal	9.36	12.35	2.99	9.74	10.14	11
Gwasanaethau cymorth cartref	9.36	12.35	2.99	9.74	10.34	12
Tai â chymorth	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau eraill gofal yn y gymuned	9.55	13.11	3.56	9.94	12.12	6

- 4.19 **Isafswm cyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **weithwyr gofal** gan Awdurdodau Lleol ar draws pob math o leoliadau oedd £9.36. Ar draws yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd, roedd y lleiafswm absoliwt (neu'r gwerth isaf) y gyfradd ar draws pob math o leoliad gofal yn amrywio o £9.36 i £9.55. Gwerth lleiafswm y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £9.74. Roedd lleiafswm absoliwt y gyfradd a'r lleiafswm canolrif yn uwch na'r ffigwr Cyflog Byw Cenedlaethol cyfredol sef £8.21 ac ychydig yn uwch na ffigwr y cyflog byw gwirioneddol o £9.30.
- 4.20 **Yr uchafswm cyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **weithwyr gofal** gan yr Awdurdodau Lleol ar draws pob math o leoliad gofal oedd £13.11. Ar draws yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd roedd uchafswm absoliwt (neu'r gwerth uchaf) y gyfradd ar draws y lleoliadau yn amrywio o £12.35 i £13.11. Cyfradd uchafswm y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £11.88.
- 4.21 Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn ein galluogi i ystyried yr amrywiad ar draws y mathau gwahanol o leoliadau gofal. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai nifer fechan o ymatebion a dderbyniwyd am ddau fath o leoliad gofal.
- 4.22 Fel y dengys Ffigwr 3, roedd y lleiafswm cyfradd sylfaenol fesul awr a dalwyd i **weithwyr gofal** gan yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd yr un fath â delir i nifer o fathau o leoliadau gofal (£9.36). Yr eithriad oedd **gwasanaethau gofal cymunedol**

⁴ Darparodd 13 ALI o leiaf un ymateb i un cwestiwn. Fodd bynnag, ni wnaeth pob Awdurdod Lleol ateb yr un cwestiynau. Felly, dydy ffigyrau'r sail ddim yn gwneud 13 pan ddadelfennwyd y data e.e. fesul lleoliad gofal.

eraill gyda lleiafswm cyfradd sylfaenol fesul awr ychydig yn uwch ar £9.55. Mae'r canolrif yn rhoi syniad gwell i ni o'r amrywiad hwn. Gwerthoedd canolrif (lleiafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr) ar gyfer tri math o leoliadau gofal oedd £9.74, yr eithriad oedd **gwasanaethau gofal cymunedol eraill** lle roedd canolrif lleiafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr yn £9.94 ond mae'n bwysig nodi mai nifer fechan a ymatebodd.

- 4.23 O ran amrywiad yn uchafswm cyfraddau fesul awr ar gyfer **gweithwyr gofal** yr Awdurdodau Lleol, roedd uchafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr mewn dau fath o leoliad gofal (**gwasanaethau cartrefi gofal** a **gwasanaethau cymorth cartref**) yn £12.35, a **chyfradd gwasanaethau gofal dydd** oedd £12.85. Roedd cyfradd sylfaenol fesul awr **gwasanaethau gofal cymunedol eraill** ychydig yn uwch (£13.11). Roedd gwerthoedd canolrif uchafswm cyfraddau sylfaenol fesul awr yn amrywio o £10.14 ar gyfer **gwasanaethau cartrefi gofal** i £12.12 ar gyfer **gwasanaeth gofal cymunedol eraill**. Eto, yn achos yr olaf, seiliwyd y ffigwr ar ymatebion chwe Awdurdod Lleol yn unig.

Contractau

- 4.24 Ar draws y 14 Awdurdod Lleol l a roddodd wybodaeth am gontractau, roedd 76% o gontractau **gweithwyr gofal** yn rhai parhaol; roedd 25% yn llawn amser a 51% yn rhan amser. Ar ben hynny, roedd contractau 22% o weithwyr gofal yn gontractau oriau heb eu gwarantu /oriau sero. Mewn o leiaf dau Awdurdod Lleol, cyfeiriwyd at y rhain fel contractau "achlysurol" neu "achlysurol drwy hawlio (*casual by claim*)" ac yn bodoli'n ychwanegol at gontractau sylweddol (oriau a warentir). Roedd un y cant (1%) pellach o gontractau gweithwyr gofal yn rhai rhan amser dros dro. Dydy'r ffigyrau ddim yn dod i gyfanswm o 100 oherwydd y talgrynnu.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.25 Nododd pob Awdurdod Lleol a ymatebodd (14 o'r 14) eu bod yn talu tâl salwch a thâl mamolaeth 'yn ogystal â'r lleiafswm statudol' ar gyfer **gweithwyr gofal** ar draws pob lleoliad gofal. Roedd tri ar ddeg o'r 14 Awdurdod Lleol (93%) hefyd yn cynnig tâl tadolaeth yn ogystal â'r lleiafswm statudol. Ar ben hynny, roedd pob Awdurdod Lleol yn cynnig cyfnod absenoldeb 'â thâl' a 'di-dâl' ac roedd naw o'r 14 (64%) yn cynnig gweithio hyblyg.
- 4.26 Roedd pob Awdurdod Lleol (14 o'r 14) yn cynnig dilyniant gyrfaoel/cyfleoedd am ddyrchafiad, goruchwyliaeth a chymorth personol (e.e. cwnsela) i'w **gweithwyr**

gofal ar draws pob lleoliad gofal. Cynigiwyd cymorth teuluol (e.e caniatâd absenoldeb i ofalwr) a gwerthusiad gan 13 o'r 14 Awdurdod Lleol (93%) a ymatebodd, cynigiwyd rhannu swydd gan 12 (86%) ac roedd 10 (71%) yn cynnig seibiant gyrfa

- 4.27 Cynigwyd gwell cyfraddau tâl i **weithwyr gofal** ymhob Awdurdod Lleol a ymatebodd. Cynigiwyd gwell tâl am oriau goramser gan 13 o'r 14 Awdurdod Lleol (93%) ar draws lleoliadau gofal. Fodd bynnag, talodd chwe Awdurdod Lleol (43%) gwell cyfraddau am weithio dros benwythnos ac am weithio oriau anghymdeithasol, a thalodd tri (21%) gwell cyfraddau am weithio shifftiau.
- 4.28 Roedd pob Awdurdod Lleol a ymatebodd (14 o 14) yn cynnig amser â thâl/ amser a ad-delir am hyfforddiant/datblygiad ar gyfer **gweithwyr gofal** ac roedd naw (64%) yn cynnig talu neu ad-dalu ffioedd cofrestru. Talodd 13 (93%) neu ad-dalu ffioedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd pob un o'r 14 Awdurdod Lleol yn cynnig talu costau teithio ar gyfer dyletswyddau yn ystod amser gwaith ac roedd wyth (57%) yn cynnig ryw ffurf ar fanteision hamdden/adloniant.

Recriwtio a chadw staff

- 4.29 Saith o'r 13 Awdurdod Lleol a ymatebodd eu bod yn cael trafferth i recriwtio **gweithwyr gofal**. Y prif resymau dros yr anhawster oedd 'tâl' a 'gweithio shifftiau/oriau anghymdeithasol' a chwech o'r saith Awdurdod Lleol (86%) yn ddisgrifio'r ddau reswm yn 'eithriadol' neu'n 'sylweddol iawn'. Nododd pump (71%) bod 'swyddi eraill tu allan i'r sector gofal (e.e. manwerthu)' a phedwar (57%) yn dweud bod 'natur y gwaith' a 'swyddi tebyg yn y sector iechyd (e.e. y GIG)' yn ffactorau sylweddol oedd yn ychwanegu at eu hanhawster i recriwtio.
- 4.30 Nododd chwech o'r 13 Awdurdod Lleol (46%) anfonodd ymateb eu bod yn cael anhawster i gadw **gweithwyr gofal**. Pan ofynnwyd iddyn nhw nodi'r rhesymau dros hyn, y ffactor mwyaf sylweddol a nodwyd oedd 'gwaith shifft/oriau anghymdeithasol' a phob un o'r pump o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd (100%) yn graddio hyn yn 'sylweddol iawn'. 'Tâl, 'swyddi tebyg yn y sector iechyd' a 'swyddi amgen tu allan i'r sector gofal' (e.e. manwerthu) yn cael eu graddio yn faterion 'eithriadol' neu 'sylweddol iawn' gan dri o'r pump a ymatebodd (60%).

Uwch weithwyr gofal

- 4.31 Yn yr adran hon, mae pob cyfeiriad at **uwch weithwyr gofal** yn cyfeirio at uwch weithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth uniongyrchol i **oedolion** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1).

Tâl

- 4.32 Mae'r arolwg yn cynnig manylion o dâl tua 380 o **uwch weithwyr gofal** a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol oedolion ar draws 11 o Awdurdodau Lleol Cymru.

Ffigwr 4: Crynodeb o ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol uwch ofal, fesul lleoliad gofal⁵

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Gwasanaethau gofal dydd	9.18	13.64	4.46	11.19	12.6	9
Gwasanaethau cartrefi gofal	10.14	14.46	4.32	12.11	13.11	7
Gwasanaethau cymorth cartref	10.34	14.92	4.58	12.36	13.82	8
Tai â chymorth	10.54	16.26	5.72	11.64	14.92	5
Gwasanaethau eraill gofal yn y gymuned	10.34	17.52	7.18	11.88	13.64	5

- 4.33 Y **lleiafswm cyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **uwch weithwyr gofal** gan Awdurdodau Lleol ar draws pob math o leoliad oedd £9.18. Ar draws yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd, roedd lleiafswm absoliwt y gyfradd sylfaenol (neu'r gwerth isaf) ar draws y lleoliadau yn amrywio o £9.18 i £10.54. Lleiafswm gwerth canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £11.08. Roedd lleiafswm absoliwt a lleiafswm canolrif y cyfraddau yn uwch na ffigwr cyfredol y Cyflog Byw Cenedlaethol o £8.21.

⁵ Darparodd 11 o Awdurdodau Lleol o leiaf un ymateb i un cwestiwn. Fodd bynnag, ni atebodd pob Awdurdod Lleol yr un cwestiwn, efallai oherwydd nad oedd pob un yn berthnasol. Felly, dydy ffigwr y sail ddim yn gwneud 11 pan ddadelfennir y data e.e. fesul lleoliad gofal.

- 4.34 Yr **uchafswm cyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **uwch weithwyr gofal gan** Awdurdodau Lleol ar draws pob math o leoliad oedd £17.52. Ar draws yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd roedd uchafswm absoliwt cyfradd sylfaenol (neu'r gwerth uchaf) ar draws y lleoliadau gofal yn amrywio o £13.64 i £17.52. Uchafswm canolrif y gyfradd sylfaenol ar draws yr holl leoliadau gofal oedd £13.82.
- 4.35 Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn caniatáu i ni ystyried yr amrywiad ar draws y gwahanol fathau o leoliad. Fodd bynnag, dim ond nifer fechan o ymatebion sydd gan ddau fath o leoliad gofal (**tai â chymorth** a **gwasanaethau gofal cymunedol eraill**).
- 4.36 Fel y gwelir yn Ffigwr 4, roedd y lleiafswm cyfradd sylfaenol fesul awr a dalwyd i **uwch weithwyr gofal** gan yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd yn debyg mewn pedwar o'r pump math o leoliad gofal (rhwng £10.14 a £10.54). Yr eithriad oedd **gwasanaethau gofal dydd** gyda lleiafswm cyfradd fesul awr o £9.18. Mae'r canolrif yn rhoi syniad pellach i ni o'r amrywiad hwn. Gwerth canolrif (lleiafswm cyfradd fesul awr) ar gyfer **gwasanaethau gofal dydd** ydy £11.19, y gwerth canolrif isaf ar draws lleoliadau gofal.
- 4.37 O ran amrywiad mewn uchafswm cyfraddau fesul awr ar gyfer **uwch weithwyr gofal, gwasanaethau gofal cymunedol eraill** talwyd yr uchafswm cyfradd sylfaenol fesul awr o £17.52. Fodd bynnag roedd gwerthoedd canolrif uchafswm cyfradd sylfaenol fesul awr ar gyfer mathau o leoliadau gofal yn amrywio o £12.60 ar gyfer **gwasanaethau gofal dydd** i £14.92 ar gyfer **tai â chymorth**, gydag uchafswm canolrif tâl mewn **gwasanaethau gofal cymunedol eraill** yn y canol o'r pum lleoliad gofal ac yn £13.64.

Contractau

- 4.38 Darparodd unarddeg o'r Awdurdodau Lleol wybodaeth am y contractau cyflogaeth oedd ganddyn nhw ar adeg cynnal yr arolwg; roedd 86% o gontractau **uwch weithwyr gofal** yn rhai parhaol (55% llawn amser a 31% rhan amser). Roedd wyth y cant (8%) o gontractau **uwch weithwyr gofal** ar gyfer oriau heb eu gwarantu/oriau sero. Roedd pedwar y cant pellach (4%) o gontractau gweithwyr gofal yn rhai dros dro a dau y cant (2%) yn rhai tymor penodol.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.39 Nododd pob un o'r 12 Awdurdod Lleol eu bod yn talu tâl salwch a thâl mamolaeth 'yn ogystal â 'r lleiafswm statudol' ar gyfer **uwch weithwyr gofal** ar draws pob lleoliad gofal ac 11 (92%) yn cynnig tâl tadolaeth yn ogystal â'r lleiafswm statudol. Ar ben hynny, roedd y 12 Awdurdod Lleol yn cynnig cyfnod absenoldeb 'â thâl' a 'di-dâl' ar gyfer **uwch weithwyr gofal** ac roedd naw (75%) yn cynnig gweithio hyblyg.
- 4.40 Roedd pob un o'r 12 Awdurdod Lleol yn cynnig goruchwyliaeth, gwerthusiad a chymorth personol (e.e. cwnsela) i'w **huwch weithwyr gofal** ar draws pob lleoliad gofal. Roedd dilyniant gyrfaol/cyfleodd am ddyrchafiad, cyfleodd i rannu swydd a chymorth teuluol (e.e. caniatâd absenoldeb i ofalwr) ar gael i **uwch weithwyr gofal** mewn 10 (38%) o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd
- 4.41 Cynigiwyd gwell cyfraddau tâl i **uwch weithwyr gofal** gan bob un o'r 12 Awdurdod Lleol a ymatebodd am weithio gwyliau banc ar draws pob lleoliad gofal. Talodd unarddeg (92%) ychwanegiadau i **uwch weithwyr gofal** am weithio goramser a thalodd chwech (83%) ychwanegiadau am weithio nos. Talwyd ychwanegiadau am weithio shifftiau gan bedwar (33%) o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd, saith am weithio oriau anghymdeithasol a gweithio dros benwythnosau (58%) a gan chwech am oriau anghymdeithasol (50%). Fodd bynnag, roedd talu ychwanegiadau am oriau anghymdeithasol a gweithio dros benwythnosau yn fwy cyffredin i staff oedd yn gweithio mewn gwasanaethau gofal dydd, gwasanaethau cartrefi gofal neu wasanaethau gofal cartref o'i gymharu â thai â chymorth neu wasanaethau gofal cymunedol eraill.
- 4.42 Roedd pob un o'r 12 Awdurdod Lleol a ymatebodd yn cynnig amser â thâl/ad-daliad ar gyfer eu hyfforddiant/datblygiad a thalu/ad-dalu ffioedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd **uwch weithwyr gofal** ar draws pob lleoliad gofal. Roedd wyth (67%) Awdurdod Lleol yn cynnig talu neu ad-dalu ffioedd cofrestru. Roedd y 12 yn cynnig talu costau teithio ar gyfer dyletswyddau yn ystod oriau gwaith ac roedd saith (58%) yn cynnig rhyw fath o fanteision hamdden /adloniant.

Recriwtio a chadw staff

- 4.43 Nododd dau (18%) o'r 11 Awdurdod Lleol a ymatebodd eu bod yn cael anhawster recriwtio **uwch weithwyr gofal**

4.44 Dim ond un (9%) o'r 11 a ymatebodd eu bod yn cael anhawster cadw **uwch weithwyr gofal**

Goruchwylwyr

4.45 Yn yr adran hon bydd po cyfeiriad at **oruchwylwyr** yn cyfeirio at oruchwylwyr sy'n darparu gofal a chymorth uniongyrchol i **oedolion** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1)

Tâl

4.46 Darparodd yr arolwg fanylion tâl ar gyfer tua 330 o **oruchwylwyr**, a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol oedolion ar draws 12 Awdurdod Lleol.

4.47 Roedd ymatebion i'r arolwg yn caniatáu i ni ystyried yr amrywiad ar draws gwahanol fathau o leoliadau gofal. Fodd bynnag, roedd rhaid anwybyddu ac atal oherwydd maint bach y samplau.

Ffigwr 5: Crynodeb o ymatebion Awdurdodau Lleol i gwestiynau am gyfraddau tâl sylfaenol goruchwyllydd fesul lleoliad gofal⁶

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Gwasanaethau gofal dydd	9.74	19.11	9.37	13.37	18.03	8
Gwasanaethau cartrefi gofal	12.6	24.14	11.54	13.68	16.82	8
Gwasanaethau cymorth cartref	10.54	24.14	13.6	14.46	17.84	10
Tai â chymorth	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau eraill gofal yn y gymuned	-	-	-	-	-	-

4.48 Y **lleiafswm cyfradd sylfaenol fesul awr a dalwyd i oruchwylwyr** gan Awdurdodau Lleol ar draws mathau o leoliadau oedd £9.74. Ar draws yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd, roedd lleiafswm absoliwt y gyfradd sylfaenol (neu'r gwerth isaf) ar draws y lleoliadau yn amrywio o £9.74 i £12.60. Fodd bynnag, roedd

⁶ Darparodd 12 ALI o leiaf un ymateb i un cwestiwn. Fodd bynnag, ni atebodd pob Awdurdod Lleol yr un cwestiynau, efallai am nad oedden nhw i gyd yn berthnasol. Felly dydy ffigwr y sail ddim yn gwneud 12 pan ddadelfennir y data e.e. fesul lleoliad gofal.

peth o'r data a ataliwyd yn is na'r lleiafswm y gallwn eu nodi yma. Lleiafswm gwerth y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £13.37.

- 4.49 Yr **uchafswm cyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **oruchwylwyr** gan Awdurdodau Lleol ar draws pob math o leoliad oedd £24.14. Ar draws yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd roedd uchafswm absoliwt y gyfradd sylfaenol (neu'r gwerth uchaf) ar draws y lleoliadau yn amrywio o £19.11 hyd £24.14. Uchafswm gwerth y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £18.03.
- 4.50 Fel y gwelir yn Ffigwr 5, roedd lleiafswm cyfradd sylfaenol fesul awr a dalwyd i **oruchwylwyr** gan yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd yn amrywio fesul lleoliad gofal. Roedd **gwasanaethau gofal dydd** yn talu lleiafswm absoliwt y gyfradd sef £9.74, a hefyd nodwyd y gwerth isaf canolrif (lleiafswm fesul awr) o £13.37. **Gwasanaethau cymorth cartref** oedd yn talu'r gwerth uchaf canolrif (isafswm cyfradd fesul awr) o £14.46.
- 4.51 Roedd uchafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr a dalwyd i **oruchwylwyr** gan yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd yn amrywio fesul leoliad gofal. **Gwasanaethau gofal dydd** oedd yn talu'r gyfradd isaf absoliwt o £19.11; gyda **gwasanaethau cartrefi gofal** a **gwasanaethau cymorth cartref** yn nodi'r un uchafswm absoliwt y gyfradd sylfaenol o £24.14. Fodd bynnag, roedd gwerthoedd y canolrif yn dangos canlyniadau i'r gwrthwyneb. **Gwasanaethau gofal dydd** oedd yn talu'r gwerth canolrif uchaf (uchafswm cyfradd fesul awr) o £18.03, ac yna **gwasanaethau cymorth cartref**, ac yna **gwasanaethau cartrefi gofal**.

Contractau

- 4.52 Darparodd deuddeg Awdurdod Lleol wybodaeth am gontractau cyflogaeth oedd yn bodoli ar adeg yr arolwg; roedd 92% o gontractau **goruchwylwyr** yn rhai parhaol, (82% llawn amser a 10% rhan amser). Dau y cant yn unig o gontractau **goruchwylwyr** oedd am waith heb ei warantu/oriau sero. Roedd pump y cant pellach o gontractau gweithwyr gofal yn rhai dros dro, a dau y cant yn rhai tymor sefydlog. Dydy'r ffigyrau ddim yn gwneud 100 oherwydd y talgrynnu.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.53 Roedd pob un o'r 12 Awdurdod Lleol a ymatebodd yn cynnig tâl salwch a thâl mamolaeth i'w **goruchwylwyr** (sy'n uwch na'r lwfans statudol) caniatâd absenoldeb

â thâl a di-dâl; cyfleoedd dyrchafiad/dilyniant, goruchwyliaeth, cymorth personol, amser â thâl ar gyfer hyfforddiant/datblygiad, ad-dalu ffioedd DBS a chostau teithio.

- 4.54 Roedd unarddeg o'r Awdurdodau Lleol (92%) yn cynnig tâl tadolaeth, rhannu swydd a gwerthusiad i'w goruchwylwyr gofal cymdeithasol. Telir ychwanegiadau i **oruchwylwyr** am weithio gwyliau banc mewn 11 (92%) o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd ac am weithio nos mewn 10 (83%).

Recriwtio a chadw staff

- 4.55 Dim ond un o'r 11 (9%) o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd nododd eu bod yn cael anhawster recriwtio a chadw **goruchwylwyr**.

Canfyddiadau: Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gweithwyr gofal cymdeithasol y sector annibynnol

- 4.56 Mae'n werth nodi er bod ymatebion yr arolwg yn ein galluogi i ystyried yr amrywiad ar draws gwahanol fathau o leoliadau, roedd niferoedd ar gyfer rhai mathau o leoliadau gofal yn isel neu'n sero.

Gweithwyr gofal

- 4.57 Yn yr adran hon mae pob cyfeiriad at **weithwyr gofal** yn cyfeirio at weithwyr gofal sy'n cynnig gofal a chymorth uniongyrchol i **oedolion** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1)

Tâl

- 4.58 Roedd yr arolwg yn darparu manylion am gyfraddau tâl tua 2,400 o **weithwyr gofal** a gyflogir gan 50 o sefydliadau yn y **sector annibynnol**. Mae Ffigwr 6 isod yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn ar dâl **gweithwyr gofal** yn y **sector annibynnol**. Ar gyfer y sector hwn, rhennir **gwasanaethau cartrefi gofal** yn rhai gyda nyrsio a 'r rhai heb nyrsio.

Ffigwr 6: Crynodeb o ymatebion y sector annibynnol i gwestiynau am gyfraddau tâl sylfaenol gweithwyr gofal, fesul lleoliad.⁷

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Gwasanaethau gofal dydd	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau cartrefi gofal gyda nyrsio	8.21	18.5	10.29	8.24	8.58	14
Gwasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio	7.7	19	11.3	8.25	8.56	20
Gwasanaethau cymorth cartref	8.21	11	2.79	8.3	9.1	19
Tai â chymorth	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau eraill gofal yn y gymuned	-	-	-	-	-	-

- 4.59 Yr **isafswm cyfradd sylfaenol fesul awr** a delir i **weithwyr gofal** gan **sefydliadau'r sector annibynnol** a ymatebodd ar draws pob math o leoliad oedd £7.70. Ar draws sefydliadau'r sector annibynnol a ymatebodd, roedd isafswm absoliwt (neu'r gwerth isaf) y cyfradd sylfaenol ar draws y lleoliadau yn amrywio o £7.70 i £8.21. Isafswm gwerth y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £8.25. Mae'r lleiafswm absoliwt (£7.70) yn cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol cyfredol ar gyfer gweithwyr iau a phrentisiaid (21-24 oed). Ond mae'n is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol cyfredol o £8.21, tra bod canolrif y raddfa isafswm ychydig yn uwch.
- 4.60 Yr **uchafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr** a delir i **weithwyr gofal** gan **sefydliadau'r sector annibynnol** a ymatebodd ar draws pob math o leoliad oedd £19.00. Ar draws sefydliadau'r sector annibynnol a ymatebodd, roedd uchafswm absoliwt (neu'r gwerth uchaf) y gyfradd sylfaenol yn amrywio o £11.00 i £19.00. Ond

⁷ Darparodd 50 sefydliad y sector annibynnol o leiaf un ymateb i un cwestiwn. Fodd bynnag, ni atebodd pob sefydliad yr un cwestiynau, efallai am nad oedden nhw i gyd yn berthnasol. Felly dydy ffigwr y sail ddim yn gwneud 50 pan ddadelfennir y data e.e. fesul lleoliad gofal.

roedd rhai o'r data a ataliwyd yn uwch na'r uchafsymiau y gellir eu riportio yma. Uchafswm gwerth canolrif ar draws pob leoliad gofal oedd £9.00.

- 4.61 Roedd ymatebion yr arolwg yn caniatáu i ni ystyried r amrywiad ar draws gwahanol fathau o leoliadau. Ond mae'n bwysig nodi bod ymatebion tri math o'r lleoliadau gofal wedi cael eu hatal oherwydd bod maint y sampl yn fach.
- 4.62 Fel y gwelir yn Ffigwr 6, roedd cryn dipyn o amrywiad yng ngwerthoedd y lleiafswm absoliwt, yn amrywio o £7.70 i £8.21. Fodd bynnag, roedd y canolrif (isafswm y gyfradd fesul awr) yn arddangos lawer llai o wahaniaeth, yn amrywio o £8.24 a delir am **wasanaethau cartrefi gofal gyda nyrsio** i £8.30 a delir am **wasanaethau cymorth cartref**.
- 4.63 Yn yr un modd, roedd llawer o wahaniaeth yng ngwerthoedd yr uchafswm absoliwt, yn amrywio o £11.00 i £19.00. Fodd bynnag roedd y canolrif (yr uchafswm cyfradd fesul awr) yn dangos llawer llai o wahaniaeth, yn amrywio o £8.56 a delir am **wasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio** i £9.10 a delir am **wasanaethau cymorth cartref**.

Contractau

- 4.64 O ymatebwyr y **sector annibynnol** a roddodd wybodaeth am y contractau oedd yn bodoli ar adeg yr arolwg, roedd, 78% o gontractau **gweithwyr gofal** yn rhai parhaol, (55% llawn amser a 23% rhan amser). Roedd 22% o holl gontractau **gweithwyr gofal** ar gyfer oriau heb eu gwarantu/oriau sero.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.65 Darparodd pedwar deg chwech o sefydliadau'r **sector annibynnol** ymatebion am opsiynau contract ac ychwanegiadau. Roedd tri deg (65%) o'r rhai ymatebodd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i'w **gweithwyr gofal**, roedd 28 (61%) yn cynnig absenoldeb di-dâl a 27 yn cynnig absenoldeb â thâl. Ond dim ond saith (15%) oedd yn cynnig tâl oherwydd salwch a thadolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol, gyda naw (20%) yn cynnig tâl mamolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol.
- 4.66 Roedd y cyfan a ymatebodd yn cynnig goruchwyliaeth, 45 (98%) yn cynnig gwerthusiad, a 32 (70%) yn cynnig cymorth personol. Cynigiwyd rhannu swydd a seibiant gyrfa gan 16 (35%) o ymatebwyr y **sector annibynnol**, gyda chymorth teuluol yn cael ei gynnig gan 13 (28%).

4.67 Cynigiwyd ychwanegiadau â thâl i **weithwyr gofal** am weithio gwyliau banc mewn 34 (74%) o sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd ac am weithio nos mewn 12 (26%).

Recriwtio a chadw staff

4.68 Ar draws 45 o sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd i'r cwestiwn, dywedodd, 32 (71%) eu bod yn cael anhawster recriwtio **gweithwyr gofal**. O'r rhain nododd, 70% (21 o'r 30) bod 'tâl' yn fater 'eithriadol' neu sylweddol 'iawn', dewisodd, 73% (22 o'r 30) 'swyddi tebyg yn y sector iechyd (e.e. y GIG)' a dewisodd 76% (22 o 29) 'swyddi amgen tu allan i'r sector gofal (e.e. manwerthu)'. Nodwyd bod 'statws isel y swydd', 'natur y swydd' a 'gwaith shifft/oriau anghymdeithasol' yn faterion sylweddol i dros 50% o ymatebwyr.

4.69 Pan ofynnwyd am gadw gweithwyr, dywedodd 18 o'r 46 (39%) sefydliad y **sector annibynnol** a ymatebodd eu bod yn cael trafferth i gadw **gweithwyr gofal**. Pan ofynnwyd am reswm/resymau penodol am yr anhawster hwn atebodd 88% (14 o 16 ymatebwyr) 'swyddi tebyg yn y sector iechyd (e.e. y GIG)' yn 'eithriadol' neu 'sylweddol iawn', dywedodd 75% (12 o 16) 'swyddi tebyg yn y sector gofal', a dywedodd 73% (11 o 15) 'swyddi eraill tu allan i'r sector gofal (e.e. manwerthu)'. Rhesymau eraill o roddodd hanner yr ymatebwyr oedd 'tâl' (11 o 16) a 'natur y gwaith' (10 o 16).

Uwch weithwyr gofal

4.70 Yn yr adran hon bydd pob cyfeiriad at **uwch weithwyr gofal** yn cyfeirio at yr uwch weithwyr gofal sy'n cynnig gofal a chymorth uniongyrchol i **oedolion** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1)

Tâl

4.71 Darparodd yr arolwg fanylion am dâl tua 12 o **uwch weithwyr gofal** a gyflogir mewn 28 o sefydliadau'r **sector annibynnol**

Ffigwr 7: Crynodeb o ymatebion y sector annibynnol i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol uwch weithwyr gofal, fesul lleoliad gofal ⁸

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Gwasanaethau gofal dydd	-	-	-	-	-	0
Gwasanaethau cartrefi gofal gyda nyrsio	8.49	10.15	1.66	8.7	8.7	7
Gwasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio	8.4	9.49	1.09	8.82	8.82	12
Gwasanaethau cymorth cartref	8.57	11.2	2.63	9.33	9.56	11
Tai â chymorth	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau eraill gofal yn y gymuned	-	-	-	-	-	0

- 4.72 Y **lleiafswm cyfradd fesul awr** a delir i uwch weithwyr gofal gan sefydliadau'r **sector annibynnol** ar gyfer pob math o leoliad oedd £8.40. Ar draws sefydliadau'r sector annibynnol a ymatebodd roedd lleiafswm absoliwt (neu'r gwerth isaf) y gyfradd sylfaenol ar draws y lleoliadau yn amrywio o £8.40 i £8.57. Gwerth lleiafswm y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £8.80.
- 4.73 Yr **uchafswm graddfa fesul awr** a delir i **uwch weithwyr gofal** gan sefydliadau'r **sector annibynnol** ar gyfer pob math o leoliadau oedd £11.20. Ar draws y sefydliadau sector annibynnol a ymatebodd roedd uchafswm absoliwt (neu'r gwerth uchaf) y gyfradd sylfaenol ar draws y lleoliadau yn amrywio o £9.49 i £11.20. Uchafswm gwerth y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £9.00.
- 4.74 Fel y gwelir yn ffigwr 7, roedd **lleiafswm y raddfa sylfaenol fesul awr** a delir i **uwch weithwyr gofal** gan sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd yn debyg (rhwng £8.40 a £8.57). Mae'r canolrif yn rhoi syniad pellach i ni, gyda gwerth y canolrif (lleiafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr) ar gyfer **cymorth cartref** yn £9.33, sydd yn £0.63 uwch na **gwasanaethau cartrefi gofal gyda nyrsio** lle nodir mai £8.70 ydy'r canolrif (lleiafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr).

⁸ Darparodd 28 o sefydliadau annibynnol o leiaf un ymateb i un cwestiwn. Fodd bynnag, ni atebodd pob sefydliad yr un cwestiynau, efallai am nad oedden nhw i gyd yn berthnasol. Felly dydy ffigwr y sail ddim yn gwneud 28 pan ddadelfennir y data e.e. fesul lleoliad gofal.

- 4.75 O ran amrywiad mewn uchafswm cyfraddau fesul awr ar gyfer **uwch weithwyr gofal** a gyflogir gan **sefydliadau'r sector annibynnol, gwasanaethau cymorth cartref** oedd yn talu'r absoliwt gwerth uchaf o £11.20. Yn yr un modd, y **gwasanaethau cymorth cartref** hefyd oedd yn talu'r gwerth canolrif uchaf (uchafswm y gyfradd fesul awr) o £9.56.

Contractau

- 4.76 O ymatebwyr y **sector annibynnol**, a gynigiodd wybodaeth am y contractau oedd yn bodoli adeg yr arolwg, roedd 9% o gontractau **uwch weithwyr gofal** yn rhai parhaol, (81% llawn amser ac 17% yn rhan amser). Roedd dau y cant o gontractau holl **uwch weithwyr gofal** yn rhai am waith heb ei warantu/oriau sero.

Opsiynau contractau ac ychwanegiadau

- 4.77 Darparodd dau ddeg naw o sefydliadau'r **sector annibynnol** ymatebion am opsiynau contract ac ychwanegiadau. Roedd deuddeg (41%) o'r rhai hynny a ymatebodd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i'w **huwch weithwyr gofal**, 17 (59%) yn cynnig absenoldeb di-dâl, a 19 (59%) a 19 (66%) yn cynnig absenoldeb â thâl. Ond dim ond tri (10%) oedd yn cynnig tâl salwch yn ogystal â'r lwfans statudol a phedwar (14%) yn cynnig tâl tadolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol, gyda phump (17%) yn cynnig tâl mamolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol.
- 4.78 Roedd dau ddeg wyth (97%) o'r rhai a ymatebodd yn cynnig goruchwyliaeth, 27 (93%) yn cynnig gwerthusiad ac 19 (66%) yn cynnig cymorth personol. Cynigiodd saith (24) o ymatebwyr y sector annibynnol rannu swyddi, gyda seibiant gyrfa yn cael ei gynnig gan chwech (21%), a chymorth teuluol yn cael ei gynnig gan naw (31%).
- 4.79 Cynigiwyd ychwanegiadau â thâl i **uwch weithwyr gofal** am weithio gwyliau banc gan 19 (66%) o sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd ac am weithio nos mewn pedwar (14%).

Recriwtio a chadw staff

- 4.80 Ar draws 29 o sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd i'r cwestiwn dynododd wyth (28%) eu bod yn cael anhawster recriwtio **uwch weithwyr gofal**. Nodwyd 'statws isel y rôl' yn rheswm 'eithriadol' neu 'sylweddol iawn' am yr anhawster hwn gan yr holl sefydliadau a ymatebodd, saith o wyth (88%) o'r ymatebwyr yn nodi

‘swyddi cyffelyb yn y sector iechyd (e.e. y GIG)’ yn ffactor sylweddol a chwech o wyth o’r ymatebwyr (75%) yn dewis ‘natur y gwaith’ a ‘gwaith shifft /oriau anghymdeithasol’.

- 4.81 Pan ofynnwyd am gadw staff, dim ond dau (7%) o’r 28 o sefydliadau’r **sector annibynnol** nododd eu bod yn cael anhawster cadw **uwch weithwyr gofal**.

Goruchwylwyr

- 4.82 Yn yr adran hon, bydd pob cyfeiriad at **oruchwylwyr** yn cyfeirio at y goruchwylwyr sy’n cynnig gofal a chymorth uniongyrchol i **oedolion** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1)

Tâl

- 4.83 Darparodd yr arolwg fanylion am dâl tua 55 o **oruchwylwyr** a gyflogir mewn gofal cymdeithasol oedolion mewn 13 o sefydliadau’r **sector annibynnol**

Ffigwr 8: Crynodeb o ymatebion y sector annibynnol i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol goruchwylwyr, fesul lleoliad gofal⁹

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Gwasanaethau gofal dydd	-	-	-	-	-	0
Gwasanaethau cartrefi gofal gyda nyrsio	-	-	-	-	-	0
Gwasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio	9	18.56	9.56	10.1	12.5	6
Gwasanaethau cymorth cartref	9.21	14	4.79	10.04	10.04	8
Tai â chymorth	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau eraill gofal yn y gymuned	-	-	-	-	-	0

- 4.84 **Lleiafswm graddfa sylfaenol fesul awr** a delir i **oruchwylwyr** gan sefydliadau’r **sector annibynnol** ar draws pob math o leoliadau oedd £9.00. Ar draws

⁹ Darparodd 13 o sefydliadau’r sector annibynnol o leiaf un ymateb i un cwestiwn. Fodd bynnag, ni atebodd pob sefydliad yr un cwestiynau, efallai am nad oedden nhw i gyd yn berthnasol. Felly dydy ffigwr y sail ddim yn gwneud 13 pan ddadelfennir y data e.e. fesul lleoliad gofal.:

sefydliadau'r sector annibynnol a ymatebodd, roedd isafswm absoliwt (neu werth isaf) y raddfa sylfaenol ar draws y lleoliadau yn amrywio o £9.00 i £9.21. Lleiafswm gwerth y canolrif ar draws yr holl lleoliadau gofal oedd £10.10.

- 4.85 **Uchafswm y raddfa sylfaenol fesul awr** a delir i **oruchwylwyr** gan sefydliadau'r **sector annibynnol** ar draws pob math o leoliad oedd £18.56. Ar draws sefydliadau'r sector annibynnol a ymatebodd, roedd uchafswm absoliwt (neu'r gwerth uchaf) y raddfa sylfaenol ar draws y lleoliadau yn amrywio o £14.00 i £18.56. Uchafswm gwerth y canolrif ar draws pob lleoliad gofal oedd £10.26.
- 4.86 Fel y gwelir yn Ffigwr 8, lleiafswm y gyfradd fesul awr a delir i **oruchwylwyr** gan sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd oedd £9.00 a dalwyd am **wasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio**. Fodd bynnag, roedd gwerth y canolrif (lleiafswm y raddfa fesul awr) am **wasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio** yn uwch na **gwasanaethau cymorth** (£10.10 o'i gymharu â £10.04).
- 4.87 O ran amrywiad yn uchafswm y cyfraddau sylfaenol fesul awr a delir i **oruchwylwyr** gan sefydliadau'r **sector annibynnol**, roedd canolrif (uchafswm) tâl sylfaenol (£12.50) y rhai a gyflogwyd yng **ngwasanaethau cartrefi gofal heb nyrsio** yn uwch na'r rhai a gyflogwyd yn y **gwasanaethau cymorth cartref** (£10.04).

Contractau

- 4.88 O ymatebwyr y **sector annibynnol** a gynigiodd wybodaeth am y contractau oedd yn bodoli ar adeg yr arolwg, roedd holl gontractau **goruchwylwyr** yn rhai llawn amser a pharhaol. Doedd dim un o gontractau **goruchwylwyr** am oriau gwaith heb eu gwarantu/ oriau sero.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.89 Darparodd 13 o sefydliadau'r **sector annibynnol** ymatebion am opsiynau contract ac ychwanegiadau. Roedd naw (69%) o'r rhai hynny a ymatebodd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i'w **huwch weithwyr gofal**, 6 (46%) yn cynnig absenoldeb di-dâl, a 7 (54%) yn cynnig absenoldeb â thâl. Roedd pedwar (31%) yn cynnig tâl salwch yn ogystal â'r lwfans statudol a doedd dim un ohonyn nhw'n cynnig tâl tadolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol a dim un yn cynnig tâl mamolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol.

- 4.90 Roedd deuddeg o'r 13 (92%) o sefydliadau'r sector annibynnol a ymatebodd yn cynnig goruchwyliaeth a gwerthusiad ac wyth (62%) yn cynnig cymorth personol. Cynigiwyd rhannu swyddi a seibiant gyrfa gan bedwar (31%) i ymatebwyr y **sector annibynnol** ac roedd chwech (46%) yn cynnig cymorth teuluol.
- 4.91 Cynigiwyd ychwanegiadau â thâl i **uwch weithwyr gofal** am weithio gwyliau banc mewn wyth o'r 13 (62%) o sefydliadau'r **sector annibynnol** a ymatebodd, ond ni chynigiwyd unrhyw ychwanegiadau â thâl am weithio nos.

Recriwtio a chadw staff

- 4.92 Nododd pedwar o 13 (31%) o gyflogwyr y **sector annibynnol** a ymatebodd i'r cwestiwn eu bod yn cael anhawster recriwtio **goruchwylwyr**, ond ni nododd un ohonyn nhw eu bod yn cael anhawster cadw goruchwylwyr ar ôl eu penodi i'r swydd.
- 4.93 O ran problemau recriwtio nodwyd bob sefydliad a ymatebodd bod 'swyddi tebyg yn y sector iechyd (e.e. y GIG)', yn broblem 'eithriadol' neu'n broblem sylweddol 'iawn'. Rhestrwyd 'tâl', 'natur y gwaith', 'gwaith shifft/oriau anghymdeithasol' 'swyddi amgen tu allan i'r sector gofal' a 'baich emosiynol' yn broblemau sylweddol gan 75% (3 o bob 4) o ymatebwyr.

Gweithwyr cymorth gofal iechyd

- 4.94 Mae'r holl ddata perthnasol i **weithwyr cymorth gofal iechyd** a gyflogwyd gan sefydliadau'r **sector annibynnol** wedi cael ei atal, gan gynnwys y data hynny am dâl, opsiynau contract ac ychwanegiadau, ac am recriwtio a chadw staff. Y rheswm dros hyn ydy bod y ffigyrau sail (y nifer o gyflogwyr wnaeth ymateb i bob cwestiwn) yn is na phump a hynny'n golygu y byddai perygl datgelu pwy oedd y cyfranwyr.

Canfyddiadau: Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gweithwyr gofal cymdeithasol y trydydd sector

- 4.95 Mae'n werth nodi er bod yr ymatebion i'r arolwg yn caniatáu i ni ystyried yr amrywiad ar draws y gwahanol fathau o leoliadau, mae'r niferoedd ar gyfer rhai mathau o leoliadau gofal yn isel neu'n sero. Roedd hyn yn wir yn achos holl leoliadau'r **trydydd sector**.

Gweithwyr gofal

- 4.96 Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at **weithwyr gofal** yn cyfeirio ar weithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth uniongyrchol 'rheng flaen' i **oedolion** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1)

Tâl

- 4.97 Ataliwyd y data am dâl **gweithwyr gofal** a gyflogwyd yn y **trydydd sector**. Y rheswm dros hyn ydy bod y ffigyrau sail (y nifer o gyflogwyr yn ymateb i bob cwestiwn) yn is na phum a hynny'n golygu y byddai perygl datgelu pwy oedd y cyfranwyr.

Contractau

- 4.98 Ar draws ymatebion y chwe ymatebydd o'r **trydydd sector** a ddarparodd wybodaeth am gontractau, roedd 89% o'r **gweithwyr gofal** yn rhai parhaol, (62% yn rhai llawn amser a 27% yn rhai rhan amser). Roedd pedwar y cant o holl, gontractau **gweithwyr gofal** ar gyfer oriau gwaith heb eu gwarantu/oriau sero. Roedd saith y cant arall o gontractau gweithwyr gofal yn rhai tymor sefydlog.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.99 Darparodd chwech o sefydliadau'r **trydydd sector** ymatebion ar opsiynau contract ac ychwanegiadau. Roedd pump (83%) o'r rhai a ymatebodd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i'w **gweithwyr gofal**, tri (50%) yn cynnig absenoldeb di-dâl a phump (83%) yn cynnig absenoldeb â thâl. Fodd bynnag, roedd dau (33%) yn cynnig tâl salwch yn ogystal â'r lwfans statudol, gyda thri (50%) yn cynnig tâl mamolaeth yn ogystal â'r lwfans statudol.
- 4.100 Roedd pob un o'r rhai a ymatebodd yn cynnig goruchwyliaeth a gwerthusiad a chynigiodd pump (83%) gymorth personol. Cynigiwyd rhanni swydd gan ddau (33%) o ymatebwyr y **trydydd sector**, cymorth teuluol yn cael ei gynnig gan dri (50%), a seibiant gyrfa gan un (17%).
- 4.101 Cynigiwyd ychwanegiadau â thâl i **weithwyr gofal** am weithio gwyliau banc mewn tri (50%) o sefydliadau'r **trydydd sector** a ymatebodd, roedd dau yn cynnig ychwanegiadau â thâl am weithio nos ac oriau anghymdeithasol, ac un (17%) yn cynnig ychwanegiadau â thâl am weithio dros benwythnos a goramser, Doedd dim un yn talu ychwanegiadau â thâl am weithio shifft.

Recriwtio a chadw staff

- 4.102 Nododd pump o chwe chyflogwr (83%) **y trydydd sector** a ymatebodd i'r cwestiwn eu bod yn cael anhawster recriwtio **gweithwyr gofal**, fodd bynnag, ni nododd un ohonyn nhw unrhyw anhawster am gadw gweithwyr gofal ar ôl eu penodi i'r swydd.
- 4.103 O ran problemau recriwtio, nodwyd 'tâl' yn ffactor 'eithriadol' neu 'sylweddol iawn' gan bedwar (80%) o'r pump a ymatebodd tra nodwyd 'swyddi amgen tu allan i'r sector gofal' yn broblem gan dri (60%) o'r pump a ymatebodd.

Uwch weithwyr gofal

- 4.104 Ataliwyd yr holl ddata am **uwch weithwyr gofal** a gyflogwyd gan y **trydydd sector**, gan gynnwys tâl, contractau, opsiynau contract ac ychwanegiadau, a recriwtio a chadw. Y rheswm dros hyn ydy bod y ffigyrau sail (y nifer o gyflogwyr yn ymateb i bob cwestiwn) yn is na phump a hynny'n golygu y byddai perygl datgelu pwy oedd y cyfranwyr.

Goruchwylwyr

- 4.105 Ataliwyd yr holl ddata am **goruchwylwyr** a gyflogwyd gan y **trydydd sector**, gan gynnwys tâl, contractau, opsiynau contract ac ychwanegiadau a recriwtio a chadw. Y rheswm dros hyn ydy bod y ffigyrau sail (y nifer o gyflogwyr yn ymateb i bob cwestiwn) yn is na phump a hynny'n golygu y byddai perygl datgelu pwy oedd y cyfranwyr.

Canfyddiadau: Gweithwyr cymorth gofal iechyd y GIG

- 4.106 Ar draws y sector iechyd, ceisiodd yr arolwg wybodaeth am rôl un gweithiwr, **gweithwyr cymorth iechyd** (gweler y Teipoleg yn Nhabl 1). Seiliwyd hyn ar gyngor swyddogion arbenigol AD yn y GIG a gadarnhaodd bod y rôl hon yn delio â holl weithwyr y categori oedd yn ystod yr ymchwil.

Tâl

- 4.107 Roedd yr arolwg yn darparu manylion am gyfraddau sylfaenol tua 9,400 o **weithwyr cymorth gofal iechyd**, a gyflogwyd ar draws y GIG yng Nghymru, yn seiliedig ar enillion saith bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd. Ychydig o wahaniaeth a welwyd ar draws ymatebion y GIG. Roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod **gweithwyr cymorth gofal iechyd** yn cael eu talu ar raddfeydd tâl Band 2 a Band 3 yr 'Agenda

ar gyfer Newid', gyda swyddi'n cael eu gwerthuso ar sail y rôl, cyfrifoldebau a chymwysterau.

- 4.108 **Lleiafswm y gyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **weithwyr cymorth gofal iechyd** oedd £9.02. Ar draws y byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd a ymatebodd, roedd lleiafswm y gyfradd yn amrywio o £9.02 i £9.03. Gwerth y canolrif oedd £9.03. Mae cyfraddau lleiafswm ac uchafswm absoliwt yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol cyfredol o £8.21 ond yn is na'r cyflog byw gwirioneddol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.22.
- 4.109 **Uchafswm sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **weithwyr cymorth gofal iechyd** oedd £10.64. Ar draws y byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd a ymatebodd, roedd uchafswm y gyfradd sylfaenol yn amrywio o £9.73 i £10.64. Y gwerth canolrif oedd £10.63.

Contractau

- 4.110 Ar draws y byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd a ymatebodd, roedd y contractau a gynigwyd i **weithwyr cymorth gofal iechyd** yn rhai parhaol, roedd 77% o'r contractau a gynigwyd i **weithwyr cymorth gofal iechyd** yn rhai parhaol. Roedd ychydig dros yr hanner (56%) yn gontractau rhan amser parhaol. Nododd sefydliadau'r GIG fod 21% o holl gontractau eu **gweithwyr cymorth gofal iechyd** yn rhai am oriau heb eu gwarantu/oriau sero. Roedd gweddill y contractau (25) yn rhai tymor sefydlog.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 4.111 Roedd (7 o 7) o fyrddau ac ymddiriedolaethau y GIG a ymatebodd i'r arolwg yn cynnig gweithio hyblyg, tâl salwch, tâl mamolaeth a thâl tadolaeth yn ogystal â lwfans statudol, absenoldeb â thâl a di-dâl, amser rhydd 'in lieu', rhannu swydd, seibiant gyrfa, dilyniant gyrfa/cyfleoedd dyrchafiad, goruchwyliaeth, gwerthusiad, cymorth personol (e.e. cwnsela) a chymorth teuluol (e.e. seibiant i ofalwyr) i **weithwyr cymorth gofal iechyd**.
- 4.112 Nododd pob un o ymatebwyr y GIG eu bod yn talu cyfraddau uwch am weithio dros benwythnos, gweithio gwyliau banc ac oriau anghymdeithasol. Roedd chwech o'r saith a ymatebodd (86%) yn talu ychwanegiadau â thâl am weithio goramser a

gweithio nos a phump (71%) yn dweud eu bod yn talu ychwanegiadau â thâl am weithio shifftiau.

- 4.113 Cadarnhaodd holl ymatebwyr y GIG bod ffioedd y DBS yn cael eu talu /eu had-dalu a chwech o'r saith (86%) yn cael eu talu/ amser yn rhydd am amser dreulwid ar hyfforddiant a datblygiad.
- 4.114 Talwyd costau teithio yr holl ymatebwyr am ddyletswyddau a wnaed yn ystod oriau gwaith ac roedd pump (71%) hefyd yn cynnig car a rennir/car cwmni.

Recriwtio a chadw staff

- 4.115 Ni nododd yr un o fyrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG a ymatebodd i'r arolwg anhawster gyda recriwtio ***gweithwyr cymorth gofal iechyd***.
- 4.116 Nododd un o'r saith ymatebydd (14%) anhawster gyda chadw ***gweithwyr cymorth gofal iechyd***.

5. Arolygon gofal cymdeithasol oedolion Cymru-gyfan a chyflogwr y GIG: Cymariaethau rhwng sefydliadau gofal cymdeithasol a'r GIG *

5.1 Mae'r adran hon hyn yn crynhoi'r data a gyflwynwyd yn Adran 4 er mwyn gallu cymharu a dangos y gwahaniaethau ymhlith sefydliadau gofal cymdeithasol a rhyngddyn nhw a'r GIG.

5.2 Mae'r canfyddiadau sy'n dilyn yn ymwneud â gweithlu gofal cymdeithasol a'r GIG a fesul math o weithiwr (gweithwyr gofal, uwch weithwyr gofal, goruchwylwyr a gweithwyr cymorth gofal iechyd).

Tâl

5.3 Darparodd ymatebion i'r arolwg fanylion am gyfraddau tâl ar draws lleoliadau gofal oedolion mewn 14 o Awdurdodau Lleol Cymru, 53 o sefydliadau'r sector annibynnol, 7 o sefydliadau'r trydydd sector o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG. Mae Ffigur 9 isod yn dangos yr ymatebion i'r gwestiynau am gyfraddau tâl ar gyfer pob sector a math o weithiwr.

Ffigur 9: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar gyfraddau tâl sylfaenol fesul sector a math o weithiwr

	£ yr awr					Sail
	Isafswm	Uchafswm	Ystod	Canolrif isafswm yr awr	Canolrif uchafswm yr awr	
Awdurdodau Lleol						
<i>Gweithwyr gofal</i>	9.36	13.11	3.75	9.74	11.88	13
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	9.18	17.52	8.34	11.08	13.82	12
<i>Goruchwylwyr</i>	9.74	24.14	14.4	13.37	18.03	11
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol						
<i>Gweithwyr gofal</i>	7.7	-	-	8.25	9	50
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	8.4	11.2	2.8	8.8	9	28
<i>Goruchwylwyr</i>	9	18.56	9.56	10.1	10.26	13
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-
Trydydd sector						
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	0
GIG						
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	0
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	0
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	0
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	9.02	10.64	1.62	9.03	10.63	7

5.4 Er mwyn gallu cyfeirio'n hwylus, mae cyfraddau tâl ***gweithwyr cymorth gofal iechyd*** wedi cael eu cynnwys yn y paragraffau sy'n ymwneud â ***gweithwyr***

cymorth. Dim ond byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG a chyflogwyr y sector annibynnol ddarparodd ddata am gymorth gofal iechyd. Fodd bynnag ataliwyd y data am weithwyr cymorth gofal iechyd y sector annibynnol oherwydd pryderon ynglŷn â datgelu pwy oedd y cyfranwyr. Felly, dim ond data a ddarparwyd gan y GIG roedd yn bosibl ei ddsbarthu am dâl gweithiwr cymorth gofal iechyd. O ganlyniad mae rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigyrau hyn.

- 5.5 Ar draws yr holl gyflogwyr a ymatebodd, roedd **lleiafswm** absoliwt (y gwerth isaf) **y gyfradd sylfaenol fesul awr** a dalwyd i **weithwyr gofal/gweithwyr cymorth gofal** iechyd yn amrywio o £7.70 (cyflogai'r sector annibynnol rhwng 21 a 14 oed) i £9.36 (Awdurdodau Lleol). Roedd isafswm gwerth y canolrif ar draws y sectorau a ymatebodd hefyd yn is ar gyfer sefydliadau'r sector annibynnol (£8.25) nac ar gyfer yr Awdurdodau Lleol (£9.74) ac ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd y GIG (£9.03).
- 5.6 Ar draws y cyflogwyr a ymatebodd, roedd **uchafswm** absoliwt (gwerth uchaf) **y gyfradd fesul awr** a dalwyd i **weithwyr gofal/gweithwyr cymorth gofal** yn amrywio o £10.64 (y GIG) i £13.11 (Awdurdodau Lleol). Ond dylid bod yn ofalus wrth ystyried y ffigyrau hyn gan fod y data ar uchafswm tâl y sector gofal annibynnol wedi cael ei atal. Roedd uchafswm cyfradd y canolrif ar draws y sectorau a ymatebodd yn is ar gyfer cyflogwyr y sector annibynnol (£9.00) nag ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd Awdurdodau Lleol (£11.88) ac ar gyfer gweithwyr cymorth gofal y GIG (£10.63).
- 5.7 Ar draws yr holl sectorau a ymatebodd, cyflogwyr y sector annibynnol dalodd **leiafswm** absoliwt (gwerth isaf) **y raddfa sylfaenol fesul awr** sef £8.40, i **uwch weithwyr gofal** gyda'r Awdurdodau Lleol yn talu lleiafswm o £9.18. Roedd gwerth isafswm y canolrif ar draws y sectorau a ymatebodd hefyd yn is ar gyfer darparwyr y sector annibynnol (£8.80) nag ar gyfer yr Awdurdodau Lleol (£11.08).
- 5.8 Ar draws yr holl sectorau a ymatebodd, yr Awdurdodau Lleol dalodd **uchafswm** absoliwt (gwerth uchaf) **y raddfa sylfaenol fesul awr** o £17.52 i **uwch weithwyr gofal**, gyda chyflogwyr y sector annibynnol yn talu uchafswm o £11.20. Roedd gwerth uchafswm y canolrif ar draws y sectorau a ymatebodd hefyd yn is ar gyfer darparwyr y sector annibynnol (£9.00) nag ar gyfer yr Awdurdodau Lleol (£13.82).

- 5.9 Ar draws yr holl sectorau a ymatebodd, cyflogwyr y sector annibynnol dalodd y **lleiafswm** absoliwt (gwerth isaf) **y raddfa sylfaenol fesul awr** l **oruchwylwyr** sef £9.00, gydag Awdurdodau Lleol yn talu lleiafswm o £9.74. Roedd uchafswm gwerth y canolrif ar draws y sectorau a ymatebodd hefyd yn is ar gyfer darparwyr y sector annibynnol (£10.10) nag ar gyfer yr Awdurdodau Lleol (£13.37).
- 5.10 Ar draws yr holl sectorau a ymatebodd, yr Awdurdodau Lleol dalodd **uchafswm** absoliwt (gwerth uchaf) **y raddfa sylfaenol fesul awr** sef (£24.14), gyda chyflogwyr y sector annibynnol yn talu uchafswm o £18.56. Roedd uchafswm gwerth y canolrif hefyd yn is ar gyfer darparwyr y sector annibynnol (£10.26) nag ar gyfer yr Awdurdodau Lleol (£18.03).

Contractau

- 5.11 Darparodd ymatebion i'r arolwg fanylion am amodau contractau ar draws lleoliadau gofal oedolion mewn 14 o Awdurdodau Lleol Cymru, 53 o sefydliadau'r sector annibynnol, 7 o sefydliadau'r trydydd sector a 7 bwrdd/ymdiriedolaeth iechyd y GIG. Mae Ffigwr 10 isod yn dangos yr ymatebion i'r cwestiynau am contractau fesul pob sector a mathau o weithwyr sector.

Ffigwr 10: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar contractau fesul sector a math o weithiwr

	Llaw amser - Parh	Llaw amser - Penodol	Llaw amser - dros dro	Rhan amser - Parh	Rhan amser - Penodol	Rhan amser - Dros dro	Cyfanswm llawn a rhan amser	Contract dim oriau	Sail
Awdurdodau Lleol									
<i>Gweithwyr gofal</i>	25%	0%	0%	51%	0%	1%	78%	22%	14
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	55%	2%	3%	31%	0%	1%	92%	8%	11
<i>Goruchwylwyr</i>	82%	1%	3%	10%	1%	2%	98%	2%	12
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol									
<i>Gweithwyr gofal</i>	55%	0%	0%	23%	0%	0%	78%	22%	46
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	81%	0%	0%	17%	0%	0%	98%	2%	27
<i>Goruchwylwyr</i>	100%	0%	0%	0%	0%	0%	100%	0%	12
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Trydydd sector									
<i>Gweithwyr gofal</i>	62%	4%	0%	27%	4%	0%	96%	4%	6
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	0
GIG									
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	56%	1%	0%	21%	1%	0%	79%	21%	7

- 5.12 Roedd y canran o **weithwyr gofal** a gyflogwyd ar contract **llawn amser a parhaol** yn gymharol debyg, ar 55% ar gyfer y sector annibynnol, 62% ar gyfer y trydydd sector, a 56% ar gyfer y GIG (er mai **gweithwyr cymorth gofal iechyd** ydy'r cyflogai hynny yn hytrach na gweithwyr gofal). Ond roedd cyflogai'r Awdurdodau Lleol tua hanner mor debygol o fod yn cael eu cyflogi ar contract llawn amser parhaol, sef 25%. O edrych ar contractau **parhaol rhan amser**, mae eto'n amlwg bod Awdurdodau Lleol yn allanolynnau, yn cyflogi tua dwywaith gymaint o staff rhan amser parhaol â'r tri sector arall. Ond roedd yr Awdurdodau Lleol yn cyflogi tua dwywaith gymaint o staff rhan amser parhaol nag o staff llawn amser parhaol, tra roedd y sectorau eraill yn cyflogi tua dwywaith gymaint o staff llawn amser parhaol rhagor na staff rhan amser parhaol
- 5.13 Roedd canran y **gweithwyr gofal** a gyflogwyd ar contractau am oriau gwaith **heb eu gwarantu/oriau sero** yn debyg sef 22% ar gyfer Awdurdodau Lleol, 22% ar gyfer sefydliadau'r sector annibynnol a 21% ar gyfer y GIG (er mai **gweithwyr cymorth gofal iechyd** ydy'r rhain nid gweithwyr gofal). Roedd gweithwyr gofal cymdeithasol y trydydd sector, fodd bynnag, yn llawer llai tebygol o gael eu cyflogi ar contractau am oriau gwaith heb eu gwarantu/oriau sero ar 4%.
- 5.14 O edrych ar ddata contractau **uwch weithwyr gofal** a **goruchwylwyr**, mae'n amlwg bod staff wrth symud i swyddi uwch yn llai tebygol o fod yn cael eu cyflogi ar contractau am oriau gwaith **heb eu gwarantu/oriau sero**. Roedd llai na 10% o'r contractau a gynigwyd i uwch weithwyr gofal gan Awdurdodau Lleol a chyflogwyr y sector annibynnol yn debygol o fod am oriau gwaith heb eu gwarantu/oriau sero. Eto, roedd cyflogwyr y sector annibynnol ychydig yn fwy tebygol o gyflogi'r staff hyn ar **contractau llawn amser parhaol** na'r Awdurdodau Lleol.

Opsiynau contract ac ychwanegiadau

- 5.15 Darparodd ymatebion i'r arolwg fanylion am opsiynau contract ac ychwanegiadau ar draws lleoliadau gofal oedolion mewn 14 o Awdurdodau Lleol Cymru, 53 o sefydliadau'r sector annibynnol, 7 o sefydliadau'r trydydd sector a 7 bwrdd/ymsddiriedolaeth iechyd. Doedd yr arolwg ddim yn ceisio gwerthoedd y ychwanegiadau ond yn ceisio gwybodaeth am gyfraddau tâl **syifaenol**, mae unrhyw ychwanegiadau â thâl yn bwysig i ni ddeall sut mae gwahanol ffactorau yn effeithio ar werth y tâl y mae gweithwyr yn ei wir dderbyn. Mae ffigwr 11 isod yn dangos yr

ymatebion i'r cwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul pob sector a math o weithiwr .

Ffigwr 11: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau, fesul sector a math o weithiwr

	Gwaith shifft	Gwaith penwyth- nos	Gwaith gŵyl banc	Gwaith nos	Oriau anghym- deithasol	Goramser	Sail
Awdurdodau Lleol							
<i>Gweithwyr gofal</i>	21%	43%	100%	100%	43%	93%	14
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	33%	58%	100%	83%	50%	92%	12
<i>Goruchwylwyr</i>	17%	58%	92%	83%	50%	58%	12
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol							
<i>Gweithwyr gofal</i>	13%	28%	74%	26%	11%	24%	46
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	3%	24%	66%	14%	7%	24%	29
<i>Goruchwylwyr</i>	0%	23%	62%	0%	8%	15%	13
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-
Trydydd sector							
<i>Gweithwyr gofal</i>	0%	17%	50%	33%	33%	17%	6
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	0
GIG							
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	0
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	0
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	0
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	71%	100%	100%	86%	100%	86%	7

- 5.16 Ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a'r GIG, cafwyd llawer o wahaniaeth yn y modd y talwyd am batrymau gwaith heb fod yn waith creiddiol drwy ychwanegiadau. Talwyd gweithwyr am **weithio gwyliau banc** drwy ychwanegiadau gan bron pob Awdurdod Lleol a ymatebodd; talwyd ychwanegiadau am weithio gwyliau banc i weithwyr gofal ac uwch weithwyr gofal ac i oruchwylwyr gan 11 o'r 12 (92%). Yn yr un modd roedd gan holl weithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogwyd gan y GIG yr hawl i well tâl am weithio gwyliau banc. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd rhwng hanner a thri chwarter ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol yn cynnig gwell tâl am weithio gwyliau banc i weithwyr o bob math.
- 5.17 Talwyd am **waith nos** drwy ychwanegiadau gan bron pob un o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd; talodd pawb ychwanegiadau am waith nos i weithwyr gofal, 10 o'r 12 (83%) i uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr. Yn yr un modd, talodd chwech o'r

saith (86%) bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG a ymatebodd ychwanegiadau i'w gweithwyr cymorth gofal iechyd am waith nos. Fodd bynnag, cynigiodd llai na 35% o ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol well tâl am waith nos i bob waeth beth fo math y gweithwyr.

- 5.18 Talwyd am weithio **goramser** drwy ychwanegiadau gan bron pob Awdurdod Lleol a ymatebodd; talodd 13 o'r 14 (93%) am waith goramser i'w gweithwyr gofal, 11 o 12 (92%) i uwch weithwyr gofal a saith o 12 (58%) i oruchwylwyr. Yn yr un modd, talodd chwech o'r saith (86%) bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG a ymatebodd am weithio goramser i weithwyr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, cynigiodd llai na 25% o ymatebwyr o'r trydydd sector a'r sector annibynnol dâl gwell am weithio goramser, waeth beth fo math y gweithwyr.

Ffigwr 12: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau am opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr

	Trefniant gweithio hyblyg	Tâl salwch	Tâl mamolaeth	Tâl Tadolaeth	Absenoldeb â thâl	Absenoldeb heb dâl	Amser rhydd yn lle oriau ychwanegol o waith	Sail
Awdurdodau Lleol								
Gweithwyr gofal	64%	100%	100%	93%	100%	100%	64%	14
Uwch weithwyr gofal	75%	100%	100%	92%	100%	100%	75%	12
Goruchwylwyr	83%	100%	100%	92%	100%	100%	83%	12
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	-	-	-	-	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol								
Gweithwyr gofal	65%	15%	20%	15%	59%	61%	35%	46
Uwch weithwyr gofal	41%	10%	17%	14%	66%	59%	38%	29
Goruchwylwyr	69%	31%	8%	0%	54%	46%	46%	13
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	-	-	-	-	-	-	-	-
Trydydd sector								
Gweithwyr gofal	83%	33%	50%	50%	83%	50%	83%	6
Uwch weithwyr gofal	-	-	-	-	-	-	-	-
Goruchwylwyr	-	-	-	-	-	-	-	-
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	-	-	-	-	-	-	-	0
GIG								
Gweithwyr gofal	-	-	-	-	-	-	-	0
Uwch weithwyr gofal	-	-	-	-	-	-	-	0
Goruchwylwyr	-	-	-	-	-	-	-	0
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	7

- 5.19 Cynigiwyd **tâl salwch (ar raddfa uwch na'r lwfans statudol)** drwy ychwanegiadau i bob math o weithwyr gan bob Awdurdod Lleol a ymatebodd. Yn yr un modd, cynigiodd pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG a ymatebodd dâl salwch oedd yn uwch na'r lwfans statudol i weithwyr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, cynigiodd llai na 35% o ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol dâl salwch oedd yn uwch na'r lwfans statudol waeth beth fo math y gweithwyr.

5.20 Darparwyd **tâl mamolaeth ar raddfa uwch na'r lwfans statudol** drwy ychwanegiadau i bob math o weithiwr gan bob Awdurdod Lleol a ymatebodd. Yn yr un modd, talodd pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG dâl mamolaeth oedd yn uwch na'r lwfans statudol i weithwyr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, dim ond uchafswm o 50% o ymatebwyr y trydydd sector gynigiodd dâl mamolaeth uwch na'r lwfans statudol ac uchafswm o ymatebwyr y sector annibynnol gynigiodd yr ychwanegiad hwn, waeth beth fo math y gweithwyr.

5.21 Cynigiwyd **trefniadau gweithio hyblyg** gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, o bob sector. Roedd naw o'r 14 (64%) Awdurdod Lleol a ymatebodd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i weithwyr gofal, naw o 12 (75%) i uwch weithwyr gofal a 10 o 12 (83%) i oruchwylwyr. Roedd pob un o'r byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG a ymatebodd yn darparu trefniadau gweithio hyblyg i weithwyr cymorth gofal iechyd. Cynigiodd 30 o 46 (65%) o ymatebwyr y sector annibynnol drefniadau gweithio hyblyg i weithwyr gofal, 12 o 29 (41%) i uwch weithwyr gofal, a 9 o 13 (69) i oruchwylwyr. Roedd pump o chwech (83%) o ymatebwyr y trydydd sector yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i weithwyr gofal.

Ffigwr 13: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr

	Rhannu swydd	Seibiant gyrfa	Dilyniant gyrfa / cyfleoedd dyrchafiad	Goruchwyliaeth	Gwerth-usrad	Cefnog-aeth bersonol	Cefnog-aeth deuluol	Sail
Awdurdodau Lleol								
<i>Gweithwyr gofal</i>	86%	71%	100%	100%	93%	100%	93%	14
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	83%	75%	83%	100%	100%	100%	83%	12
<i>Goruchwylwyr</i>	92%	67%	100%	100%	92%	100%	83%	12
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol								
<i>Gweithwyr gofal</i>	35%	35%	80%	100%	98%	70%	28%	46
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	24%	21%	69%	97%	93%	66%	31%	29
<i>Goruchwylwyr</i>	31%	31%	77%	92%	92%	62%	46%	13
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	-
Trydydd sector								
<i>Gweithwyr gofal</i>	33%	17%	67%	100%	100%	83%	50%	6
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
GIG								
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	7

- 5.22 Cynigiwyd **goruchwyliaeth** gan yr holl Awdurdodau Lleol i bob math o weithiwr. Yn yr un modd, cynigiwyd goruchwyliaeth i weithwyr cymorth gofal iechyd gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd a ymatebodd. Hefyd, cynigiodd holl ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol oruchwyliaeth i weithwyr gofal. Yn yr un modd, roedd mwyafrif ymatebwyr y sector annibynnol 28 o 29 (97%) yn cynnig goruchwyliaeth i uwch weithwyr gofal a 12 o 13 i oruchwylwyr (92%).
- 5.23 Cynigiwyd **cymorth teuluol** (e.e. absenoldeb gofalwyr, cyfleusterau gofal plant) gan fwyafrif ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol waeth beth fo math y gweithwyr; cynigiodd 13 o 14 (93%) o'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd gymorth teuluol i weithwyr gofal, 10 o 12 (83%) i uwch weithwyr gofal, a 10 o 12 (83%) i oruchwylwyr. Cynigiodd pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG a ymatebodd gymorth teuluol i weithwyr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, uchafswm o 50% o ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol oedd yn cynnig cymorth teuluol waeth beth fo math y gweithwyr.
- 5.24 Cynigiwyd **rhannu swydd** gan y rhan fwyaf o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol waeth beth fo math y gweithwyr, mae 12 o 14 (86%) o ymatebwyr yn cynnig rhannu swydd i weithwyr gofal, 10 o 12 (83%) i uwch weithwyr gofal, ac 11 o 12 (92%) i oruchwylwyr. Roedd pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG yn cynnig i weithwyr cymorth gofal iechyd i rannu swydd. Fodd bynnag, uchafswm o 35% o ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol oedd yn cynnig rhannu waeth beth fo math y gweithwyr.

Ffigwr 14: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr

	Tâl neu ad-dalu'r amser am hyfforddi / datblygu	Tâl neu ad-daliad am ffioedd cofrestru	Tâl neu ad-daliad am ffioedd DBS	Yswiriant meddygol	Buddiannau hamdden / adloniant	Ffôn symudol	Offer TG / gliniadur	Sail
Awdurdodau Lleol								
<i>Gweithwyr gofal</i>	100%	64%	93%	7%	57%	43%	29%	14
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	100%	67%	100%	8%	58%	42%	33%	12
<i>Goruchwylwyr</i>	100%	67%	100%	8%	50%	50%	33%	12
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol								
<i>Gweithwyr gofal</i>	89%	46%	72%	7%	11%	11%	9%	46
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	83%	45%	83%	14%	7%	17%	10%	29
<i>Goruchwylwyr</i>	85%	38%	85%	8%	8%	23%	38%	13
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	-
Trydydd sector								
<i>Gweithwyr gofal</i>	100%	67%	100%	0%	33%	33%	50%	6
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
GIG								
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-	-	-	-	0
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	86%	0%	100%	0%	29%	14%	14%	7

- 5.25 Talwyd neu ad-dalwyd am amser **hyfforddiant/datblygiad** gan bob un o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol i bob math o weithiwr a gan chwech o saith (86%) o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG a ymatebodd. Yn yr un modd, roedd holl ymatebwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol yn talu am amser hyfforddiant/datblygiad ar gyfer gweithwyr gofal. Roedd 41 o 46 (89%) o ymatebwyr y sector annibynnol yn cynnig hyn i weithwyr gofal, 24 o 29, (83%) i uwch weithwyr gofal ac 11 o 13 (85%) i oruchwylwyr.
- 5.26 Talwyd neu ad-dalwyd **ffioedd DBS** gan bron bob un o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol; talodd 13 o 14 (93%) o'r ymatebwyr ffioedd DBS gweithwyr gofal a thalodd pob un (12 o'r 12) ffioedd DBS uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr. Roedd pob un (saith o saith) o fyrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG a ymatebodd yn talu ffioedd DBS gweithwyr cymorth gofal iechyd tra bod pob un (chwech o chwech) o ymatebwyr y trydydd sector yn talu ffioedd DBS gweithwyr gofal. O ran y sector annibynnol, roedd 33 o 46 (72%) yn talu ffioedd DBS gweithwyr gofal, 24 o 29 (83%) yn talu ffioedd uwch weithwyr gofal, ac 11 o 13 (85%) yn talu ffioedd goruchwylwyr.
- 5.27 Ni thalwyd neu ad-dalwyd **yswiriant meddygol** gan lawer o ymatebwyr. Ni thalodd ac ni ad-dalodd unrhyw ymatebwyr y GIG nac ymatebwyr y trydydd sector am

yswiriant meddygol . Dim ond un o 14 (7%) o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol dalodd neu ad-dalodd yswiriant meddygol ar gyfer gweithwyr gofal, un o 12 (8%) ar gyfer uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr. Yn yr un modd, tri o 46 (7%) o ymatebwyr y sector annibynnol oedd yn talu neu ad-dalu yswiriant meddygol eu gweithwyr gofal, pedwar o 29 (14%) yn talu neu ad-dalu yswiriant meddygol eu huwch weithwyr gofal ac un o 13 (8%) eu goruchwylwyr.

Ffigwr 15: Crynodeb i ymatebion i gwestiynau am opsiynau contract ac ychwanegiadau fesul sector a math o weithiwr

	Talu costau teithio o'r cartref i'r gwaith	Talu costau teithio am ddyletswyddau yn ystod oriau gwaith	Darparu car i'w rannu / car cwmni	Sail
Awdurdodau Lleol				
Gweithwyr gofal	14%	100%	21%	14
Uwch weithwyr gofal	8%	100%	33%	12
Goruchwylwyr	0%	100%	25%	12
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	-	-	-	0
Sector preifat /annibynnol				
Gweithwyr gofal	4%	76%	33%	46
Uwch weithwyr gofal	3%	69%	31%	29
Goruchwylwyr	0%	77%	38%	13
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	-	-	-	-
Trydydd sector				
Gweithwyr gofal	0%	100%	33%	6
Uwch weithwyr gofal	-	-	-	-
Goruchwylwyr	-	-	-	-
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	-	-	-	0
GIG				
Gweithwyr gofal	-	-	-	0
Uwch weithwyr gofal	-	-	-	0
Goruchwylwyr	-	-	-	0
Gweithwyr cymorth gofal iechyd	0%	100%	71%	7

- 5.28 Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn talu am **deithio rhwng adre a'r gwaith**, waeth beth fo'r sector na'r math o weithiwr. Dim ond dau o 14 (14%) o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol oedd yn talu gweithwyr gofal am y math hwn o deithio, tra bod un o 12 (8%) yn talu uwch weithwyr gofal. Dim ond dau o 46 (4%) o ymatebwyr y sector annibynnol oedd yn talu gweithwyr gofal am deithio rhwng adre a'r gwaith, ac un o 29 (3%) oedd yn talu uwch weithwyr gofal. Doedd dim un ymatebydd yn talu'r ychwanegiad hwn i oruchwylwyr.
- 5.29 Talwyd **costau teithio am ddyletswyddau a wnaed yn ystod oriau gwaith** gan bob ymatebydd yr Awdurdod Lleol, y trydydd sector a byrddau ac ymddiriedolaethau

iechyd y GIG i bob math o weithiwr. Talwyd y costau hyn gan dri deg pump o 46 (76%) o ymatebwyr y sector annibynnol i weithwyr gofal, gydag 20 o 29 (69%) yn eu talu i uwch weithwyr gofal a 10 o 13 (77%) o oruchwylwyr.

- 5.30 Darparwyd **ceir a rennir/ceir cwmni** gan lai na 40% o ymatebwyr yr Awdurdod Lleol, y sector annibynnol a'r trydydd sector waeth beth fo'r math o swydd. Fodd bynnag, darparodd pump o saith (71%) ymatebwyr byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG gerbydau a rennir/ceir cwmni.

Recriwtio a chadw staff

- 5.31 Darparodd ymatebion yr arolwg fanylion o'r anawsterau i recriwtio a chadw ar draws lleoliadau gofal oedolion gan 14 o Awdurdodau Lleol Cymru, 53 o sefydliadau'r sector annibynnol, 7 o sefydliadau'r trydydd sector a 7 bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd y GIG. Mae Ffigwr 16 isod yn dangos yr ymatebion i'r cwestiynau am gcontractau ar gyfer pob sector a phob math o weithiwr.

Ffigwr 16: Crynodeb o ymatebion i gwestiynau ar recriwtio a chadw, fesul sector a math o weithiwr

	Canran yr ymatebwyr nododd anhawster recriwtio staff	Sail	Canran yr ymatebwyr nododd anhawster i gadw staff	Sail
Awdurdodau Lleol				
<i>Gweithwyr gofal</i>	54%	13	46%	13
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	18%	11	9%	11
<i>Goruchwylwyr</i>	9%	11	9%	11
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	0	-	0
Sector preifat /annibynnol				
<i>Gweithwyr gofal</i>	71%	45	39%	46
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	28%	29	7%	28
<i>Goruchwylwyr</i>	31%	13	0%	11
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	-	-	-
Trydydd sector				
<i>Gweithwyr gofal</i>	83%	6	0%	6
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	-	-	-
<i>Goruchwylwyr</i>	-	-	-	-
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	-	0	-	0
GIG				
<i>Gweithwyr gofal</i>	-	0	-	0
<i>Uwch weithwyr gofal</i>	-	0	-	0
<i>Goruchwylwyr</i>	-	0	-	0
<i>Gweithwyr cymorth gofal iechyd</i>	0%	7	14%	7

- 5.32 Nododd pob sefydliad gofal cymdeithasol oedd yn cyflogi **gweithwyr gofal** eu bod yn cael anhawster i recriwtio staff; saith o 13 (54%) ymatebwyr yr **Awdurdodau Lleol**, 32 o 45 (71%) o ymatebwyr y **sector annibynnol**, a phump o chwech (83%) o ymatebwyr y **trydydd sector**.
- 5.33 Fodd bynnag, mae'r patrwm hwn yn wahanol o ran cadw staff **gweithwyr gofal**; roedd chwech o 13 (46%) o ymatebwyr yr **Awdurdodau Lleol** ac 18 o 46 (39%) o ymatebwyr y **sector annibynnol** yn nodi anhawster i gadw staff ond ni wnaeth un o ymatebwyr y **trydydd sector** nodi hyn.
- 5.34 Mewn swyddi uwch, mae llai o anhawster gyda recriwtio ymhlith yr **Awdurdodau Lleol** a sefydliadau'r **sector annibynnol** (y ddau sector y gellir eu nodi). Nododd dau o 11 (18%) o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol eu bod yn cael anhawster recriwtio **uwch weithwyr gofal**, a dim ond un o 11 (9%) a nododd eu bod yn cael anhawster recriwtio **goruchwylwyr**. Yn yr un modd, nododd wyth o 29 (28%) a phedwar o 13 (31%) o ymatebwyr y sector annibynnol eu bod yn cael anhawster recriwtio uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr, yn eu tro.
- 5.35 Mewn swyddi is, mae llai o anhawster gyda chadw staff hefyd ar draws yr **Awdurdodau Lleol** a chyflogwyr y **sector annibynnol**, (y ddau sector y gellir eu nodi). Un o 11 (9%) o ymatebwyr yr Awdurdodau Lleol a nododd eu bod yn cael anhawster cadw **uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr**. Yn yr un modd, nododd dau o 28 (7%) o ymatebwyr y sector annibynnol eu bod yn cael anhawster cadw uwch weithwyr gofal ond ni nododd yr un ohonyn nhw eu bod yn cael anhawster cadw goruchwylwyr
- 5.36 Nododd **byrddau ac ymddiriedolaethau ieched y GIG** lai o anhawster gyda recriwtio a chadw **gweithwyr cymorth gofal ieched** na gweithwyr cyffelyb (gweithwyr gofal) a gyflogir ym maes gofal cymdeithasol. Ni nododd unrhyw fwrdd neu ymddiriedolaeth ieched anhawster gyda recriwtio a dim ond un o saith (14%) nododd broblem gyda chadw.

Amrywiad daearyddol

- 5.37 Doedd dosbarthiad yr ymatebion i'r arolwg ddim yn wastad ar draws Cymru. Doedd dim neu nemor ddim ymateb mewn rhai ardaloedd o Gymru tra roedden nhw'n niferus mewn mannau eraill. Fel y cyfryw, dydy hi ddim yn bosibl i adrodd yn ôl yn ystyrlon ar yr amrywiad.

Amrywiad grŵp cleientiaid

- 5.38 Fel gyda'r ymatebion ar amrywiad daearyddol, doedd dosbarthiad yr ymatebwyr ddim yn wastad ar draws Cymru. Doedd dim neu nemor ddim ymatebwyr mewn rhai rhannau o Gymru tra'n niferus mewn mannau eraill. Fel y cyfryw, dydy hi ddim yn bosibl i adrodd yn ôl yn ystyrlon ar amrywiad y grŵp cleientiaid.

6. Canfyddiadau: Cyfweiliadau a grwpiau ffocws

6.1 Mae'r canfyddiadau ansoddol a gyflwynir isod yn cynnwys data o gyfweiliadau, grwpiau ffocws gyda chyflogwyr a rheolwyr/darparwyr ac ymateb testun-rhydd (*free-text*) o arolygon gofal cymdeithasol Cymru-gyda a chyflogwr GIG. Mae'r math o ddata ac o ba ran o'r gweithlu gofal cymdeithasol y maen nhw'n deillio (Awdurdod Lleol, y sector annibynnol, y trydydd sector) gyda'r dyfyniadau z nodir isod. Ni chafodd manylion ychwanegol am gyfranogwyr, er enghraifft, ai darparwyr, ai rheolwyr neu weithwyr gofal ydyn nhw, eu cynnwys er mwyn sicrhau na ddatgelir unrhyw enw.

6.2 Themâu trosfwaol a ddatblygwyd o'r dadansoddiad ydy:

- Anawsterau recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol
- Prinder o bobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol y gellir eu recriwtio
- Sialensiau/natur y gwaith
- Anawsterau cadw staff gofal cymdeithasol
- Cymariaethau rhwng gofal cymdeithasol a iechyd
- Effaith anawsterau recriwtio a chadw
- Dulliau blaengar a llwyddiannus o fynd ati i recriwtio a chadw

Anawsterau recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol

6.3 Amlygwyd recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol yn broblem a wynebai'r darparwyr/rheolwyr. Roedd tâl ac amodau yn rhesymau amlwg a gynigwyd am anawsterau recriwtio. Fodd bynnag, nid tâl ac amodau oedd yr unig broblemau a godwyd. Ymhlith y ffactorau eraill cafwyd:

- Contractau cyflogaeth a sefydlogrwydd swydd
- Disgwyliadau a rheoliadau
- Prinder pobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol y gellir eu recriwtio
- Sialensiau/natur y gwaith

Tâl ac amodau

- 6.4 Er cynnig 'amodau da' ystyriwyd bod anallu i dalu'n uwch na'r isafswm cyflog yn ffactor allweddol gan un cyflogwr yn y trydydd sector:

'Mwy na thebyg, mae'n ymwneud â'r isafswm cyflog, ymddengys bod llawer o bobl yn gwneud cais i ddangos eu bod yn gwneud cais am swydd ac yna ddim yn dod i'r cyfweiliad. Mae ein hamodau gwaith yn dda, tâl gwyliau, pensiwn da, rydyn ni'n ceisio pwysleisio hynny ond dydy e ddim yn ymddangos ei fod yn denu pobl, ac ni allwn fynd yn uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol' (Cyfweiliad, trydydd sector)

Cymharodd cyfranogwyr eraill y tâl gyda'r hyn a gynigwyd gan gyflogwyr eraill tu allan i ofal cymdeithasol, manwerthu yn benodol. Ystyriwyd bod gan y swyddi hyn lai o gyfrifoldebau ac amodau gwaith haws na rhai'r gweithwyr cymdeithasol ac eto'r cyfraddau tâl yn uwch.

'Un o'r prif broblemau, mae'r tâl yn gymharol isel o'i gymharu â rolau eraill megis archfarchnadoedd' (Y sector annibynnol, cyfweiliad)

'Yr ydych yn gofyn i bobl sydd mwyaf agored i niwed yn y gymuned i wneud y swydd anoddaf a hynny o dan yr amodau gwaethaf a thalu llai iddyn nhw na'r fydden nhw'n ei gael yn Asda' (Grŵp ffocws, y Sector annibynnol)

'Dydyn ni ddim yn cael trafferth i recriwtio i swyddi gweithwyr gofal ond daw'r gystadleuaeth fwyaf o du'r sector manwerthu yn hytrach na darparwyr gofal (Awdurdod Lleol, arolwg)

Roedd cytundeb bod Awdurdodau Lleol, o'u cymharu â chyflogwyr y sector annibynnol a'r trydydd sector, yn cynnig tâl a thelerau ac amodau mwy cystadleuol.

'Gyda'r awdurdodau lleol, mae eu gweithwyr gofal yn dueddol i wneud llai o waith na ni ond maen nhw'n cael tua £2 yn fwy (Y trydydd sector, grŵp ffocws)

'Yr hyn na allwn ni mo'i wneud ydy cystadlu gyda phensiwn yr awdurdod lleol neu bethau fel yna [...] ni fydd ar yr un lefel er enghraifft ag unigolyn yr awdurdod lleol. Os bydd rhywun yn gweithio mewn canolfan ddydd yr awdurdod lleol ac yn edrych ar y rolau yr

ydyn ni'n eu cynnig, maen nhw'n cael eu talu fwy yn y ganolfan ddydd am lai o gyfrifoldeb efallai. Byddai amodau a telerau mewn awdurdod lleol yn well nag y bydden ni fel elusen yn y trydydd sector yn gallu ei gynnig' (Y trydydd sector, cyfweiliad)

'Mae'n sefydliad (Awdurdod Lleol) da i weithio iddo ac mae llawer yn dod o faes gofal preifat [...] mwy na thebyg bod y tâl yn llai. Gweithiais i gyda gofal yn y cartref pan ddechreuais i a phan dwi'n gweld y gofal yn y sector preifat, dydyn nhw (y gofalywyr) ddim yn cael munud, maen nhw mor brysur. O'r hyn wela i, mae gwell tâl, telerau ac amodau yn yr Awdurdod Lleol (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

Dyma oedd gan reolwr arall yr Awdurdod Lleol i'w ddweud am hyn:

'Rydyn ni newydd gyfweld am swydd rhan amser a llawn amser ac roedd yr ymateb yn rhyfeddol, calibr yr ymgeiswyr yn wych, dydy'r telerau a'r amodau sydd gennym gyda'r [Awdurdod Lleol], erioed wedi bod yn broblem (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

Amlygwyd y pryderon am dâl isel pan gyfeiriai darparwyr i staff yn cael trafferth i fforddio trwsio'u ceir, gorfod trefnu talebau banc bwyd a darparu blaen-daliad ar dâl newydd y staff oherwydd y bwlch rhwng eu budd-daliadau dod i ben a dyddiad talu eu cyflog.

'Mae gennym staff sydd, pan fyddan nhw'n cychwyn gyda ni, oherwydd bod eu budd-daliadau yn stopio a bod cyfnod o amser pan nad oes ganddyn nhw unrhyw arian a'u bod yn aros i'w cyflog i gyrraedd, y bydden ni'n arfer rhoi taliad ymlaen llaw o'u cyflog iddyn nhw ond beth oedd yn digwydd oedd nad oeddwn nhw'n gallu fforddio ei dalu nôl. Felly, nawr rydyn ni'n rhoi hamperi bwyd iddyn nhw (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

'I ni, gall fod yn daliad uniongyrchol ymlaen llaw am betrol, oherwydd na allan nhw, tan iddyn nhw gael eu cyflog, fforddio i dalu am betrol'. (Annibynnol, grŵp ffocws)

'Mae gen i staff lle rydwi wedi gorfod galw'r gwasanaethau cymdeithasol a threfnu talebau banc bwyd' (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

Contractau a sefydlogrwydd

- 6.5 Nododd rheolwr fod contractau cyflogaeth a sefydlogrwydd swydd yng nghydestun gweithwyr achlysurol ac oriau gwaith heb eu gwarantu yn cyfrannu at anawsterau recriwtio.

'Ydy, dw i'n credu ei fod [recriwtio] yn broblem enfawr, yn genedlaethol, yn ogystal â'n sefydliad ni ein hunain [...] Dw i'n meddwl bod y system yr ydyn ni'n dibynnu arni wedi'i hanelu fwy at weithwyr achlysurol, contractau oriau sero' (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

Fodd bynnag, i rai darparwyr annibynnol, mae cynnig gweithio oriau achlysurol ac oriau gwaith heb eu gwarantu yn golygu bod yn ymatebol i'r rhai sy'n derbyn gwasanaeth a hyblygrwydd i'w staff.

'Ym maes gofal cartref, mae pobl am gael gofal pan fyddan nhw'n codi yn y bore, pan fyddan nhw eisiau pryd bwyd, pan fyddan nhw'n dod allan o'r gwely. Mae angen ei ffitio o gwmpas yr hyn mae pobl yn ei ddymuno, felly, dydych chi ddim yn chwilio am bobl llawn amser, rydych am gael pobl sydd ar gael yn ystod yr oriau hynny' (Y sector annibynnol, grŵp ffocws).

'Rydyn ni, fel cwmni yn cynnig contractau parhaol, ond mae'n well gan ein staff y contractau oriau sero (Y sector annibynnol, arolwg)

'Mae pobl yn gwybod y gallan nhw ymestyn eu horiau gwaith os dymunan nhw, ond os oes ganddyn nhw gontract oriau sefydlog, ni fydd yr hyblygrwydd ganddyn nhw i ostwng eu horiau pan fydd yn ei siwtio nhw. (Y sector annibynnol, grŵp ffocws).

Disgwyliadau a rheoliadau newydd

- 6.6 Cyfeiriodd rhai o'r cyfranogwyr at y newidiadau yn y rheoliadau yn codi o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Er, drwyddi draw, roedd pobl yn croesawu mentrau i wella statws gweithwyr gofal cymdeithasol drwy gofrestru, mynegwyd rhai pryderon am y galwadau ychwanegol megis ffioedd cofrestru, a gofynion hyfforddiant newydd.

'Y [sefyllfa recriwtio gyfredol] ydy'r gwaethaf y bu erioed ac mae'n gwaethygu fesul wythnos. Mae'n rhannol oherwydd disgwyliadau a rheoliadau newydd. Mae'n golygu bod rhaid bod yn fwy penodol wrth

recriwtio sef dibynnu ar allu academaidd, argaeledd, oriau. Mae llawer o resymau, nid un rheswm yn unig' (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

'Rhaid i weithwyr gofal fod yn broffesiynol, ni all cyflogwyr fforddio talu cyflogau proffesiynol gan nad yw'r sector preifat yn derbyn digon o gyllid i wneud hyn. Bob blwyddyn, mae'r lleiafswm tâl yn cynyddu a dydy'r cynnydd rydyn ni'n ei dderbyn gan awdurdodau lleol ddim yn ddigon i dalu. Nes mynd i'r afael â'r cyllido i ddenu staff da, dydy'r sefyllfa ddim yn mynd i wella' (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

'Dim ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y cafwyd problem recriwtio staff gofal. Nawr, mae rhaid nodi Lefel 2 NVQ gan na allwn yn fewnol ddarparu yr anwytho beichus gofynnol (Y sector annibynnol, arolwg)

Prinder o bobl sy'n meddu ar y sgiliau priodol y gellir eu recriwtio

- 6.7 I rai cyflogwyr, roedd effaith prinder o bobl fedrus yn ceisio am swyddi ym maes gofal wedi golygu recriwtio staff efallai heb y sgiliau a'r galluoedd priodol.

'Rydyn ni i gyd yn pysgota o'r un afon, dydyn ni ddim yn cael ein llethu gan geisiadau [...] dydy'r swmp na'r ansawdd ddim yno. Ymddengys nad oes digon o bobl ym maes gofal a dydy'r llwybr gyrfaol ddim yn ddeniadol iddyn nhw (Y sector annibynnol, cyfweiliad)

'Mae calibr y staff sy'n dod i mewn i'r maes yn is, rydyn ni'n cyflogi staff is eu calibr (Y sector annibynnol, cyfweiliad)

Sialensiau/natur y gwaith

- 6.8 Cyfeiriodd cyfranogwyr at sialensiau gwaith gofal ac o ganlyniad yr anawsterau ychwanegol i recriwtio a chadw staff gofal.

- 6.9 *Y gwahaniaeth rhwng tâl a chyfrifoldeb y rôl*

'Derbyniwyd sylwadau megis "dydy'r tâl ddim yn ddigon am y gwaith y disgwylir i chi ei ysgwyddo' (Y sector annibynnol, arolwg)

'Mae 'na bethau all fynd o chwith a gellir gwneud honiadau yn eich erbyn a gall achosi llawer o strès. Bu rhaid i mi wynebu un honiad yn fy erbyn a dydy e ddim yn ddymunol. Dydych chi ddim yn cael hynny

mewn swydd gyffredinol mewn garej yn gwerthu ceir'. (Y trydydd sector, grŵp ffocws)

6.10 Ardaloedd gwledig/daearyddiaeth

'Mae ein partneriaid yn cael trafferth i recriwtio ac mae hyn oherwydd y ddaearyddiaeth a nifer y darpar gyflogai sydd ar gael yn yr Awdurdod Lleol gan ei fod yn lleoliad gwledig anghysbell (Awdurdod Lleol, arolwg).

Yn sicr, rydyn ni'n cael trafferth yn y gwasanaeth ac mae problem o ran lleoliad anghysbell y gwasanaeth hwnnw'. (Y trydydd sector, cyfweliad).

6.11 Anawsterau ariannol gweithwyr gofal

Yr hyn a gawn ydy bod eu ceir (y staff) yn torri lawr ac felly, fydden nhw ddim yn dod i'r gwaith gan eu bod gywilydd cyfaddef na allan nhw fforddio trwsio eu car (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

'Mae'r traul ar gerbydau preifat yn ei gwneud hi'n gostus i weithio yn sector y gymuned" (Y sector annibynnol, arolwg)

Anawsterau cadw staff gofal cymdeithasol

6.12 Nodwyd problemau cyffelyb hefyd o ran anawsterau cadw staff. Fodd bynnag, hefyd, cyfeiriodd cyfranogwyr at y gystadleuaeth ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol o fewn a thu allan i ofal cymdeithasol gan siarad am staff oedd wedi cael eu cyflogi ganddyn nhw ers amser.

6.13 Cystadleuaeth o fewn y sectorau gofal cymdeithasol a gyda'r GIG

'O fewn yr awdurdod, nid y tâl a'r amodau oedd e, cyn imi ddod i'r swydd, dw i'n credu iddyn nhw gollu wyth o staff gofal cymdeithasol mewn un tro. Roedden nhw i gyd yn mynd i wasanaethau dydd oedd wedi cynnal ymgyrch recriwtio enfawr oherwydd eu bod mor brin o staff. [...] Rydyn ni'n wasanaeth 24 awr ac yna mae gennyh wasanaethau dydd sef 9-5 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a'r hyn sy'n fwy deniadol, gallech chi fod allan o'ch tŷ, i ffwrdd o'r teulu, am dri diwrnod neu wasanaethau dydd lle gallech chi fod adref erbyn 5 bob nos'. (Awdurdod Lleol, cyfweliad)

'Rydyn ni wedi colli dau [aelod staff] i faes nyrsio. Roedd dau reswm dros yr unigolyn adael i fynd i'r GIG – un oedd ei bod yn gwybod na fyddai'n gallu symud ymlaen lawer pellach sef nad oes ysgol ddilyniant hir iawn. Rydych chi'n weithwyr preswyl, uwch weithwyr neu'n rheolwr, dydych chi ddim yn gallu mynd lawer pellach ac fel dwedodd hi, roedd y tâl yn well. Dwedodd "Dw i'n caru fy ngwaith ond galla i wneud gwaith tebyg yn gweithio ym maes nyrsio a chael fy nhalu mwy" (Awdurdod Lleol, grŵp ffocws).

6.14 Gwerthoedd a chymhellion (perthnasedd tâl)

'Mae'n rôl sy'n rhoi boddhad a dyna pam fod rhai pobl yn aros yn y swydd. Nid y math o swydd y byddech chi'n ei wneud am yr arian. [...] Mae gennym lawer o bobl sydd wedi bod yn y sefydliad ers pum, 10, 15 neu 20 mlynedd' (Y sector annibynnol, cyfweiliad).

'Dw i ddim yn meddwl y gallwch chi aros yn y swydd am y tâl yn unig, gallwch ennill yr un faint os nad mwy yn gweithio mewn diwydiannau eraill. Mae'n ymwneud â brwdfrydedd. Mae pobl yn dod i mewn i'r swydd yn awyddus i wneud gwahaniaeth ac yn aros oherwydd eu bod yn teimlo mor frwd am helpu plant' (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

'Y plant ydy'r rheswm pam dw i'n dod i'r gwaith bob dydd, nid y tâl galla i'ch sicrhau chi. Dw i'n gwybod mod i'n gwneud gwahaniaeth i fywyd plentyn, dyna sy'n fy nghymell (Awdurdod Lleol, grŵp ffocws)

Roedd gen i fy amheumon ar y cychwyn ai dyma oeddwn am ei wneud a nawr dwi'n gresynu mod i wedi heb ei wneud flynyddoedd yn ôl er mod i'n ennill llai, dw i'n cael boddhad yn yr hyn dw i'n ei wneud nawr (Y trydydd sector, grŵp ffocws).

Ffactorau sy'n cynorthwyo cadw staff

- 6.15 Ymhlith y ffactorau pwysig a drafodwyd a fyddai'n hwyluso cadw staff, mae tâl da, cysylltiadau da (perthynas gyda chyflogwr/staff a pherthynas gyda'r rhai y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw) a chreu amgylchedd cefnogol sy'n gwerthfawrogi staff.

'Dydyn ni ddim yn cael ein rhedeg fel corfforaeth fawr, dw i'n cael y teimlad bod ein hinsawdd yn dda' (Y sector annibynnol, cyfweiliad)

'Maen nhw [y staff] yn ennill arian eitha da, y gwyliau, cynllun pensiwn yr Awdurdod Lleol a mynediad i hyfforddiant'. (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

'Mae boddhad yn y swydd yn deillio o ddull o weithio sy'n ffocysu ar ganlyniadau yn hytrach nag ar 'amser a thasg'. Er iddi fod yn anodd iawn maen nhw [y staff] yn gwerthfawrogi'r amser rydyn ni'n treulio gyda nhw i'w paratoi ar gyfer eu cofrestru. Hoffwn weld mwy o hynny, dw i'n meddwl eu bod wedi mynd yn fwy positif ac efallai'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy.' (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

'Caiff staff fynediad a chymorth i lefelau priodol o hyfforddiant gyda gwir bwyslais ar ddatblygiad parhaol. Rydyn ni'n darparu mynediad i oruchwyliaeth gyson a chynnal cyfarfodydd tîm yn gyson a fforymau gweithlu'n rheolaidd gydag Uwch Reolwyr er mwyn sicrhau bod y sianelau cyfathrebu ar agor'. (Awdurdod Lleol , arolwg)

'Maen nhw [gweithwyr gofal cymdeithasol] yn mynd yn hoff iawn o'n preswylwyr [...]. Yn fy mhrofiad i, mae'r bobl sy'n gweithio fel gofalwyr yn wirioneddol fawr eu gofal o'r preswylwyr a dw i'n meddwl y byddai'n gam mawr iddyn nhw adael y swydd ar ôl sefydlu'r berthynas, heblaw bod rheswm da iawn dros fynd. (Y sector annibynnol, cyfweliad)

'Pan fydd staff newydd yn cyrraedd rydyn ni'n eu cyfeillio gydag uwch aelod o staff a'u cael i ddilyn cynllun o bopeth gyda ni. Yna ar ôl chwe wythnos byddwn yn cynnal cyfweliad gyda nhw i weld sut mae pethau'n mynd ac a oes angen help arnyn nhw gydag unrhywbeth'. (Y sector annibynnol, arolwg)

Cymariaethau rhwng y sectorau gofal cymdeithasol a'r GIG

- 6.16 Mewn cyferbyniad â'r Awdurdod Lleol, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, nododd grŵp ffocws y GIG nad oedden nhw wedi cael unrhyw broblem gyda recriwtio a chadw. Dyfynnodd y grŵp y tâl da, pensiwn, gyda chanran uchel o gontractau llawn amser, a chyfleoedd am ddilyniant gyrfa. Yn ogystal, roedden nhw'n teimlo bod y gwahaniaeth rhwng y modd y canfyddir y GIG a sut y canfyddir gofal cymdeithasol yn rheswm pellach bod y GIG mewn sefyllfa mwy manteisiol o ran recriwtio a chadw staff.

Yn yr un modd, roedd adborth y rhai yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn cadarnhau bod y modd y canfyddir gofal cymdeithasol a'i werthfawrogi yn effeithio ar recriwtio a chadw.

'Dw i'n credu bod rhywbeth ynglŷn â'r gwerthoedd yr ydyn ni'n eu rhoi ar ofal cymdeithasol ac ar y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol [...]. Rydyn ni'n siarad am bobl sy'n ofalu am bobl a chael eu talu'r lleiafswm tâl a'r ffaith y gallech chi fod yn gweithio ym maes manwerthu a chael eich talu mwy gyda llawer llai o gyfrifoldeb a sut mae hynny yn effeithio ar unigolion sy'n gweithio yn y sector' (Y trydydd sector, grŵp ffocws)

Dyna'r peth am y modd y canfyddir y sector, pawb yn dweud "Dw i eisiau bod yn nyrs neu'n ddoctor", ond faint o bobl sy'n dweud "Dw i eisiau bod yn ofalwr"?' (Y sector annibynnol, grŵp ffocws)

Effaith anawsterau recriwtio a chadw staff

- 6.17 Roedd effaith problemau recriwtio a chadw staff yn cynnwys dilyniant gofal a chynnydd yn y pwysau/galwadau ar y staff presennol.

'Mae'n rhoi llawer o bwysau ar y tîm presennol gan eu bod yn cymryd mwy o waith bob amser, er eu bod yn galw ar eraill a helpu ond allwch chi ddim cario ymlaen fel yna am hir' (Trydydd sector, cyfweiliad)

'Mae [dilyniant y gofal] yn broblem enfawr i gael dilyniant staff a cholli pobl â phrofiad a gwybodaeth ac i bawb mae newid yn rhywbeth gofidus. [...] Mae newid cyson yn achosi gofid parhaus dw i'n meddwl i bobl sydd heb fawr o reolaeth dros eu bywydau beth bynnag'. (Y trydydd sector, cyfweiliad)

'Hyd yn oed pan fydd gennym dîm llawn o staff, yn llythrennol mae'n argyfwng arnon ni os bydd un gweithiwr yn absennol oherwydd salwch. Yr hyn nad ydyn nhw [yr Awdurdod Lleol] yn fodlon i ni gael fel staff ydy i bawb gael 6 wythnos o wyliau, absenoldeb salwch, hyfforddiant, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb oherwydd profedigaeth, popeth y mae ganddyn nhw hawl iddo. Does dim staff dros ben a all wneud yr oriau hyn, yn llythrennol, mae'n dibynnu ar ewyllys da aelodau eraill eich tîm i helpu a gall hynny ddim para cymaint â hynny (Awdurdod Lleol, grŵp ffocws)

'Yn ein cynllun ers amser hir, rydyn ni'n gweithio oriau ychwanegol, a gwneud cymaint mwy oherwydd prinder staff'. (Y trydydd sector, grŵp ffocws)

Dulliau blaengar o fynd ati i recriwtio a chadw staff

- 6.18 Yn absenoldeb gallu cynnig gwell tâl ac amodau, ond serch hynny yn sylweddoli bod recriwtio a chadw staff yn broblem, cynigiodd cyfranogwyr rai enghreifftiau o ddulliau o fynd ati roedden nhw'n eu defnyddio i geisio mynd i'r afael â'r broblem.

Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ar y panel cyfweld

- 6.19 Dull newydd o fynd ati oedd yn rhoi hyder i un cyfranogwr eu bod yn cyflogi'r unigolyn cywir gyda'r gwerthoedd priodol.

'Yn ddiweddar, dw i wedi cynnwys un o ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn y broses cyfweld a bu'n llwyddiant mawr [...] roedd yn rhyfeddol mewn gwirionedd oherwydd roedd y rhyngweithio rhwng y ddau yn dweud cyfrolau (Awdurdod Lleol, cyfweliad)

Dathlu cyflawniadau

- 6.20 Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd roedd gwobrwyo gofalwr/cyflogai y mis, a gwobrau yn cydnabod gwasanaeth,

'Mae gennym wobrau, felly enwebir staff bob chwarter' (Y sector annibynnol, cyfweliad)

Cynnig cymhellion

- 6.21 Soniodd rhai, yn enwedig y rhai hynny yn y sector annibynnol, am enghreifftiau o gymhellion ar gyfer staff, y cyfeiriwyd at rai ohonyn nhw yn arolwg y cyflogwyr. Roedden nhw'n cynnwys 'cynllun argymell ffrind' fyddai'n rhoi tâl ariannol i staff, raffl, cynlluniau cynilo ar gyfer staff, talebau rhoddion/ bonws i staff am beidio bod yn absennol drwy'r mis, a bonws gwasanaeth maith. Roedd un darparwr yn rhoi anrhegion pen-blwydd a Nadolig i'w staff, cyfarwyddyd gyda chynngor ariannol a chynnig benthyciadau bach yn ddi-log i'r staff.

'Rydyn ni'n cynnig bonws croeso iddyn nhw, pan fyddan nhw'n cychwyn - £100 ar ôl 3 mis a £100 ar ôl 6 mis' (Y sector annibynnol, arolwg)

'Rydyn ni'n gyson yn rhoi gwobrau h.y. prydau bwyd a la carte, tocynnau rygbi, arian, ciniawau Nadolig (Y sector annibynnol, arolwg)

Cynnig 'sesiynau blasu'

- 6.22 Roedd rheolwr Awdurdod Lleol wedi bod yn rhan o ddwy ffair swyddi gyda'r nod o gynorthwyo pobl i ddod yn ôl i gyflogaeth ac i edrych ar y posibilrwydd o gynnig 'sesiynau blasu'. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle i unigolion ddeall rôl gwaith gofal heb golli eu buddion ac mae unigolion hefyd yn cael cyfweiliadau gydag adborth ar gyfer datblygu eu sgiliau. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus.

'Rydyn ni'n ddiweddar wedi cael pedwar unigolyn, ac mae tri ohonyn nhw wedi derbyn contractau gyda mi yr wythnos hon' (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

I'r rheolwr, roedd hyn yn golygu bod pedwar o'r saith contract 24 awr gwag newydd wedi eu llanw, gan arbed amser ar hysbysebu, recriwtio, hyfforddi a gorfod aros am wiriadau pellach.

Ar gyfer unigolion sy'n ystyried ymuno â / ymgeisio am rôl ym maes gofal cymdeithasol, bu grŵp ffocws yn trafod pwysigrwydd cael dealltwriaeth dda o'r hyn y mae hynny'n ei olygu, gan awgrymu y byddai cael sesiynau blasu yn fanteisiol.

'Dylai rhan o'r broses recriwtio fod yn rhoi mewnwelediad i bobl o'r maes y maen nhw'n mentro iddo. Rhowch flas iddyn nhw, cyfnod sefydlu os mynnwch chi. Oherwydd mae rhai ohonyn nhw'n cerdded i mewn trwy'r drws ac maen nhw'n gweld gyda agwedd ac maen nhw'n dianc. Dydy hynny o ddim help i neb. Felly rhowch fwy o wybodaeth iddyn nhw' (Y trydydd sector, grŵp ffocws).

Gweithio cydweithredol

- 6.23 Roedd yr un rheolwr mewn Awdurdod Lleol wrth gynnig sesiynau blasu hefyd wedi datblygu partneriaeth gyda darparwydd gofal cartref Awdurdod Lleol ac yn cynghori ei gilydd ar ddarpar gyflogai.

'Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Gofal Cartref. Pan ddaw hi'n adeg cynnal cyfweiliadau ac fe fu cydweithiwr ym maes gofal cartref yn cynnal cyfweiliadau'n ddiweddar ac ar ddiwedd y dydd cefais e-bost yn dweud "Mae gen i unigolyn fan hyn" [] oes gennych chi ddiddordeb mewn cael gafael arno/arni?" (Awdurdod Lleol, cyfweiliad)

Cynhwysiant ac adeiladu timau

- 6.24 Trafododd cyflogwr annibynnol sawl menter yr oedden nhw wedi'u rhoi ar waith ac oedd yn canolbwyntio ar adeiladu perthynas gref, cymell y staff presennol, a recriwtio wedi'i dargedu.

Roedd cynlluniau adeiladu tîm ar gyfer gwaith elusennol a chodi arian, a chynnal 'sgyrsiau grŵp' yn galluogi staff i siarad â'i gilydd neu gyda'u rheolwr, a bu hynny o fudd arbennig i ofalwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain.

'Mae'n ffantastig o safbwynt olyniaeth ac i'w gwneud nhw deimlo'n rhan o'r tîm, felly mae hynny'n help gyda chadw staff. Dydyn nhw (y staff) ddim yn teimlo eu bod nhw ar eu pennau eu hunain' (Y sector annibynnol, cyfweliad)

Roedd y cylchlythyrau wythnosol yn cynnwys gwybodaeth ymarferol (e.e. dolenni i gyrraedd cynghorion ar sut i ofalu am eich car yn y gaeaf), penblwyddi'r staff a'u cyflawniadau.

Anelwyd yr hysbysebion recriwtio drwy eu targedu at grwpiau o oedrannau penodol.

'Mae yna tua phum gwahanol berson i recriwtio o'u plith; mae gennyh chi'ch pobl ifanc nad ydyn nhw erioed wedi gwneud gwaith gofal ond sy'n ei ystyried fel gyrfa; yna mae gennyh chi bobl eraill sydd ddim ond yn awyddus i ennill arian da ond mae'n rhaid i chi bob amser sicrhau bod y gwerthoedd priodol ganddyn nhw; mae gennyh chi rai eraill sydd â phlant ac felly maen nhw eisiau ffitio'r gwaith o gwmpas eu plant; ac mae gennyh chi hefyd eich pobl hŷn sydd efallai wedi gwneud gwaith swyddfa ac eisiau cyfrannu rhywbeth yn ôl i'r gymuned. Felly fe wnaethon ni geisio targedu ein hysbysebion gan geisio edrych ar sut y gallen ni gyrraedd y bobl hynny' (Y sector annibynnol, cyfweliad)

Fe wnaeth cyflogwr o Awdurdod Lleol hefyd nodi'r defnydd o ymgyrchoedd recriwtio wedi eu targedu

'Sicrhau ein bod yn targedu cynulleidfa sy'n dymuno cael gyrfa a bod yn rhan o gyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y sector gofal cymdeithasol' (Awdurdod Lleol, yr arolwg).

Prentisiaethau/dilyniant gyrfa a dysgu

- 6.25 Cyfeiriwyd at bwysigrwydd bod gwaith gofal yn cael ei weld yng nghyd-destun sefydlu gyrfa.

'Yn ddiweddar rydyn ni wedi recriwtio dros 50 o Brentisiaid Gofal Iechyd o'r gymuned leol. Dyma'r cyntaf i gael eu recriwtio i'r Academi Brentisiaethau – ac fe fyddan nhw'n symud ymlaen trwy raglen ddatblygu 8 mlynedd i ddod yn Nyrsys cofrestredig. Mae'r cynllun yn gwarantu lle iddyn nhw mewn prifysgol a chyflogaeth iddyn nhw o fewn y Bwrdd Iechyd ar y diwedd. Mae ein cynllun "Tyfu Eich Hun" ar gael ar gyfer Cynorthwyr Gofal Iechyd presennol yn y Bwrdd Iechyd ac yn eu cefnogi trwy eu hyfforddiant Nyrsio. Mae'r ddau gynllun yn rhoi cyfle i 'ddysgu ac ennill' ac mae galw mawr amdany'n nhw' (GIG, arolwg)

'Rydym wedi cyflwyno cynllun prentisiaeth ac wedi ymuno â threial a fydd yn cynnig lleoliad 10 wythnos i bawb a ddewiswyd, allan o'r gronfa gyn-gyflogaeth, i gymryd rhan' (Awdurdod Lleol, yr arolwg)

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 6.26 Roedd elfen ymchwil ansoddol y prosiect yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i deimladau, safbwyntiau a chanfyddiadau cyflogwyr a staff. Cyflwynir y crynodeb canlynol yng nghyd-destun deall y cysylltiad rhwng y rhain â'r amrywiad yn y tâl, amodau a contractau a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff.

Amrywiadau yn y tâl ac amodau

- 6.27 Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod Awdurdodau Lleol yn cynnig tâl ac amodau mwy cystadleuol o'u cymharu â'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Amlygodd cyflogwyr annibynnol y mater hwn ymhellach wrth roi enghreifftiau o staff sy'n cael trafferth gydag anawsterau ariannol. Mewn cyferbyniad, ni chododd unrhyw gyfranogwyr o'r Awdurdodau Lleol na'r GIG bryderon tebyg.

Amrywiadau yn y contractau

- 6.28 Ychydig iawn o gyfeiriadau a wnaed at unrhyw wahaniaethau mewn contractau cyflogaeth o fewn neu rhwng y sectorau yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Cyfeiriodd un rheolwr Awdurdod Lleol at fodolaeth contractau achlysurol / rhai heb eu gwarantu fel achos anhawster recriwtio. Fodd bynnag, mae canfyddiadau ansoddol yn dangos nad oedd sefydlogrwydd contractau yn cael ei ystyried yn fater oedd yn cyfrannu'n allweddol wrth recriwtio. I gyflogwyr y sector annibynnol, roedd cynnig oriau gwaith heb eu gwarantu'n golygu rhoi dewis a hyblygrwydd i'w staff ac i'r rhai maen nhw'n gofalu amdany'n nhw.

Amrywiadau ym maes recriwtio a chadw staff

- 6.29 Roedd yr amrywiad yn yr anawsterau recriwtio a chadw staff yn fater a nodwyd ymhlith y sectorau gofal cymdeithasol a'r GIG. Ni nododd grŵp ffocws y GIG unrhyw anawsterau recriwtio a chadw staff o gymharu â chyflogwyr yr Awdurdodau Lleol, y sector annibynnol a thrydydd sector. Lle nodwyd problemau recriwtio a chadw fel rhai oedd o bwys, rhoddodd un cyfranogwr Awdurdod Lleol enghraifft o weithiwr yn gadael i weithio yn y GIG, gan nodi gwell tâl a chyfleoedd i symud ymlaen. Gwnaed cymariaethau rhwng gwerth isel canfyddedig gyfa mewn gofal cymdeithasol o'i gymharu â gyfa yn y GIG.
- 6.30 Bu rheolwr mewn Awdurdod Lleol yn disgrifio, er yn cydnabod bod ganddyn nhw dâl ac amodau da, bod nifer o staff yn gadael i fynd at Awdurdod Lleol arall mewn maes gwahanol o'r gwasanaeth (gwasanaethau dydd) gan fod yr oriau gwaith yn well.
- 6.31 Roedd y gystadleuaeth gyda swyddogaethau gwahanol y tu allan i faes gofal cymdeithasol yn rheswm ychwanegol a nodwyd dros gael anawsterau recriwtio a chadw staff, ac roedd darparu tâl gwell neu debyg am rôl gyda llai o gyfrifoldeb yn bwysig ac yn cael ei adlewyrchu o fewn y grwpiau ffocws staff..
- 6.32 Codwyd mater bod mewn ardal wledig fel ffactor sy'n effeithio ar recriwtio gan un Awdurdod Lleol a rheolwr yn y trydydd sector, gan nodi'r gwahaniaeth o ran recriwtio rhwng ardaloedd trefol a rhai gwledig.

Cymhellion a gwerthoedd

- 6.33 Yn bur aml, yn ystod y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws, trafodwyd y tâl ac amodau gwaith a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol ac roedd cytundeb cyffredinol (yn enwedig gan gyfranogwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol) ynghylch lefel y tâl a'r telerau salach ac amodau gwaelach. Fodd bynnag, yr hyn oedd hefyd yn bwysig i staff sy'n parhau i weithio ym maes gofal cymdeithasol oedd y gwerthoedd a'r chymhellion dros aros. Ar draws pob sector gofal cymdeithasol, cyfeiriwyd at y boddhad wrth gyflawni gwaith gofal, eu bod yn gwneud gwahaniaeth, eu bod yn angerddol, yn cael boddhad yn y swydd, ac yn meithrin perthynas â'r unigolion y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw. Roedd darparu amgylchedd cefnogol (e.e. hyfforddiant a goruchwyliaeth), lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi hefyd yn bwysig.

Dulliau llwyddiannus o fynd ati ar gyfer recriwtio a chadw staff

- 6.34 Darparodd y cyfranogwyr rai enghreifftiau o ddulliau arloesol a llwyddiannus o recriwtio a chadw staff, er enghraifft cynnig cymhellion, gweithio ar y cyd a sesiynau blasu. Serch hynny, heblaw am ymgyrchoedd yn y cyfryngau cenedlaethol, roedd y mentrau'n adlewyrchu ymdrechion cyflogwyr unigol ac nid oedd llawer o dystiolaeth bod arferion da yn cael eu rhannu a'i mabwysiadu'n ehangach.

7. Crynodeb o'r canfyddiadau

7.1 Mae'r adran sy'n dilyn yn grynodeb o'r canfyddiadau wedi eu casglu ynghyd o dair ffynhonnell data yr astudiaeth:

- 1) Yr adolygiad llenyddiaeth
- 2) Arolwg cyflogwyr Cymru-gyfan
- 3) Cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda darparwyr/rheolwyr a staff

7.2 Mae pob un tabl yn ystyried y dystiolaeth o amrywiadau (y gwahaniaethau) yn y meysydd isod:

- Tâl
- Contractau
- Ychwanegiadau
- Recriwtio
- Cadw staff

7.3 Efallai bydd cynnwys y tablau yn yr adran hon yn gorgyffwrdd a dylid eu hystyried gyda'i gilydd yn hytrach na fesul un.

Tabl 3: Crynodeb o'r canfyddiadau: Tâl

Pwnc	Adolygiad llenyddiaeth	Arolwg cyflogwyr Cymru-gyfan	Cyfweiliadau a grwpiau ffocws
Gwahaniaethau yn y tâl ymhlith y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol a'r GIG	Dim tystiolaeth o amrywiad yn y tâl ar gyfer mathau o gyflogwyr ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd peth tystiolaeth bod y GIG yn cynnig telerau ac amodau gwell na'r sector annibynnol a'r trydydd sector.	Yr isafswm gwerth tâl sylfaenol canolrifol yn y sector annibynnol oedd £8.25; Gweithwyr cymorth gofal iechyd y GIG yn derbyn £9.03; a'r Awdurdodau Lleol yn talu £9.74. Mae'r GIG yn talu mwy o ychwanegiadau i gyflog sylfaenol, ac mae cyrff statudol yn cynnig mwy o welliannau nag eraill.	Cyflogwyr yn y GIG yn enwi tâl a phensiynau da ac amodau gwaith da. Awdurdod Lleol yn rhoi enghraifft o weithwyr yn gadael er mwyn mynd i swyddi yn y GIG gan nodi bod yno dâl gwell a gwell cyfleoedd.
Cystadleuaeth rhwng y cyflogwyr gofal cymdeithasol, y GIG ac eraill	Sefydliadau gofal cymdeithasol yn wynebu cystadleuaeth oddi wrth y GIG ac o'r tu allan i faes	Ar gyfer gweithwyr gofal, roedd canolrif y gwerth isafswm sylfaenol yn is i'r sector annibynnol (£8.25) nag ar	Amlygwyd bod y gystadleuaeth am weithwyr gofal cymdeithasol ymhlith cyflogwyr yn fater oedd o bwys.

	gofal cymdeithasol e.e. byd lletygarwch a manwerthu.	<p>gyfer sector yr Awdurdodau Lleol (£9.74).</p> <p>Ar gyfer uwch ofalwyr, roedd yr canolrif y gwerth isafswm sylfaenol yn is i'r sector annibynnol (£8.80) nag ar gyfer Awdurdodau Lleol (£11.08).</p> <p>Ar gyfer goruchwylwyr, roedd canolrif y gwerth isafswm sylfaenol yn is i'r sector annibynnol (£10.10) nag ar gyfer Awdurdodau Lleol (£13.37).</p>	<p>Roedd yna gytundeb cyffredinol y gall Awdurdodau Lleol, o'u cymharu â'r sector annibynnol a'r trydydd sector, gynnig tâl, telerau ac amodau mwy cystadleuol.</p> <p>Roedd rolau y tu allan i ofal cymdeithasol yn cael eu hystyried fel rhai ag iddyn nhw lai o gyfrifoldeb a chyflog tebyg neu well.</p>
Gofal cymdeithasol fel sector tâl isel	<p>Gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried fel sector tâl isel</p> <p>Yn 2018 yn y DU, y tâl canolrifol ar gyfer gweithiwr gofal oedd £9.14 yr awr ac ar gyfer uwch weithwyr gofal, y tâl cyfartalog oedd £9.62. Roedd tua 517,000 o swyddi mewn gofal cymdeithasol a yn cael eu talu'n is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol .</p> <p>Roedd hanner yr holl ymatebwyr i Astudiaeth Gofal Hydredol wedi derbyn rhyw fath o fudd-daliadau lles a dywedodd 28% o weithwyr gofal fod rheoli eu cyllid yn 'anodd' neu'n 'anodd iawn'.</p>	Gweler uchod.	<p>Effeithiau lefelau tâl ar staff (materion tlodi) y cyfeirir atyn nhw gan y sector annibynnol lle roedd staff yn methu â thalu am atgyweirio cerbydau, yn gorfod trefnu i gael talebau banc bwyd, yn derbyn hamperi bwyd ac angen blaendaliadau o'u cyflog.</p> <p>Ni cofnodwyd materion fel hyn yn sector yr Awdurdodau Lleol na'r GIG.</p> <p>Cytundeb cyffredinol (yn enwedig ymhlith y trydydd sector a'r sector annibynnol) ynghylch y lefelau tâl a'r telerau ac amodau oedd yn salach.</p>

7.4 Dengys Tabl 3:

- Bod yna wahaniaethau (amrywiadau) yn y tâl rhwng y tri sector gofal cymdeithasol.
- Bod cyflogwyr gofal cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol a'r GIG yn ymddangos fel bod nhw'n talu'n uwch ac yn cynnig telerau ac amodau mwy ffafriol mewn cymhariaeth â'r darparwyr annibynnol a'r trydydd sector.
- Bod mwy o ffactorau yn rhoi ychwanegiadau i'r tâl sylfaenol yn y GIG a'r Awdurdodau Lleol.
- Bod yna gystadleuaeth oddi wrth gyflogwyr y tu allan i'r tri sector gofal cymdeithasol (e.e. manwerthu) am y rolau yr ystyrir eu bod â chyflog tebyg neu well ond gyda llai o gyfrifoldeb.

- Bod gan ofal cymdeithasol weithlu ar gyflog isel a gall hyn arwain at weithwyr gofal fod yn wynebu anawsterau ariannol.

Tabl 4: Crynodeb o'r canfyddiadau: Contractau

Pwnc	Adolygiad llenyddiaeth	Arolwg cyflogwyr Cymru-gyfan	Cyfweliadau a grwpiau ffocws
Contractau cyflogaeth ac oriau gwaith heb eu gwarantu	<p>Un nodwedd o'r gweithlu gofal cymdeithasol ydy'r lefelau uchel o ansicrwydd swydd megis trefniadau gweithio ansicr (e.e. contractau dim oriau, contractau dros dro tymor byr).</p> <p>Cysylltir y defnydd o gontractau oriau sero â nifer o fylchau oriau di-dâl yn niwrnod gwaith y gweithwyr gofal.</p> <p>Gall gwaith afreolaidd neu weithio mwy na'r oriau a gontractiwyd achosi iddyn nhw golli hawl i dderbyn budd-daliadau (e.e Credyd Cynhwysol).</p> <p>Yn 2017, roedd 82% o staff darparwyr gofal a gomisiynwyd yng Nghymru ar gontractau parhaol ac yn achos gwasanaethau a reoleiddir gan yr Awdurdodau Lleol, roedd 79% o staff ar gontractau parhaol</p>	<p>Mae darparwyr Awdurdodau Lleol yn cyflogi tua dwywaith cymaint o staff parhaol rhan-amser na staff parhaol amser llawn, ond mae'r ddau sector gofal cymdeithasol arall a'r GIG yn cyflogi tua dwywaith cymaint o staff parhaol amser llawn na staff parhaol rhan-amser.</p> <p>Mae cyfran y gweithwyr gofal a gyflogir ar gontractau oriau gwaith heb eu gwarantu / oriau sero yn hynod debyg ar 22% ar gyfer cyflogwyr Awdurdodau Lleol, 22% ar gyfer cyflogwyr annibynnol, a 21% ar gyfer y GIG. Fodd bynnag, mae gweithwyr gofal cymdeithasol y trydydd sector yn llawer llai tebygol o gael eu cyflogi ar gontractau oriau gwaith heb eu gwarantu / dim oriau (4%).</p> <p>Roedd llai na 10% o gontractau i uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr gan Awdurdodau Lleol a chyflogwyr annibynnol yn gontractau oriau gwaith heb eu gwarantu / rhai dim oriau.</p>	<p>Ychydig o gyfeirio, os o gwbl, wnaed am y gwahaniaethau mewn contractau cyflogaeth.</p> <p>Amlygodd cyflogwyr y sector annibynnol fanteision contractau heb eu gwarantu; yr hyblygrwydd a'r dewis i staff a'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.</p> <p>Dim ond un cyflogwr Awdurdod Lleol a gyfeiriodd bod y defnydd o gontractau heb eu gwarantu yn rhai sy'n cyfrannu at broblemau recriwtio.</p> <p>Mae'r canfyddiadau'n dangos nad oedd sefydlogrwydd contractau yn fater oedd yn effeithio'n allweddol ym maes recriwtio.</p>

7.5 Mae Tabl 4 yn dangos bod yna fanteision ac anfanteision o ddefnyddio contractau oriau gwaith heb eu gwarantu:

- Er bod yr adolygiad llenyddiaeth yn cyfeirio at y materion problemus sy'n gysylltiedig ag oriau gwaith heb eu gwarantu, ni chodwyd, mewn cyfweliadau na grwpiau ffocws, y ffaith bod sefydlogrwydd contractau yn fater oedd yn cyfrannu at yr effaith ar recriwtio.

- Amlygodd darparwyr sector annibynnol fod oriau gwaith heb eu gwarantu'n rhoi dewis a hyblygrwydd i'w staff a'r unigolion yr oedden nhw'n gofalu amdany'n nhw.

7.6 At hynny, o ran cyfran y gweithwyr gofal a gyflogir ar gontractau oriau gwaith heb eu gwarantu:

- Nid oes llawer o amrywiad ymhlith yr Awdurdodau Lleol a'r sectorau annibynnol
- Nid oes llawer o amrywiad rhwng yr Awdurdodau Lleol, y sector annibynnol a'r trydydd sector a'r GIG
- Mae darparwyr gofal cymdeithasol y trydydd sector yn llai tebygol o gynnig y math hwn o gontract
- Yng nghyd-destun cymhareb contractau parhaol rhan-amser ac amser llawn, mae yna wahaniaethau ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol a'r GIG.

Tabl 5: Crynodeb o'r canfyddiadau: Ychwanegiadau

Pwnc	Adolygiad llenyddiaeth	Arolwg cyflogwyr Cymru-gyfan	Cyfweliadau a grwpiau ffocws
Amrywiad yn yr ychwanegiadau ar gyfer gweithluoedd gofal cymdeithasol a'r GIG	<p>Dim tystiolaeth o'r amrywiad yn yr ychwanegiadau ar gyfer mathau o gyflogwyr ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol.</p> <p>Mae ychwanegiadau cyfyngedig ar gael am oriau cymdeithasol neu lefel profiad i'r rhai sy'n derbyn y Cyflog Byw Cenedlaethol.</p> <p>Mae system Agenda ar gyfer Newid y GIG yn cysoni telerau ac amodau gwasanaeth megis gwyliau blyneddol, oriau a thâl salwch, a gwaith a wneir yn ystod oriau anghymdeithasol.</p>	<p>Amrywiad ymhlith ac o fewn Awdurdodau Lleol, cyflogwyr gofal cymdeithasol annibynnol a'r trydydd sector.</p> <p>Mae mwy o achosion o ychwanegu at y tâl i'w gweld yn y GIG na sectorau eraill.</p>	<p>Cytundeb cyffredinol y gall Awdurdodau Lleol, o'u cymharu â'r sectorau annibynnol a'r trydydd sector, gynnig tâl, telerau ac amodau mwy cystadleuol.</p>

7.7 Ni amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth (tabl 5) unrhyw dystiolaeth i ddangos beth oedd yr amrywiad yn yr ychwanegiadau ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol ond cyfeiriodd at gysondeb tâl ymhlith gweithwyr gofal iechyd a gyflogir yn y GIG

(Agenda ar gyfer Newid). Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dangos y gwahaniaethau yn yr ychwanegiadau i'r tâl sylfaenol ymhlith ac o fewn Awdurdodau Lleol, cyflogwyr gofal cymdeithasol annibynnol a'r trydydd sector, canfyddiad a gefnogwyd gan y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws. Mae'r tâl sylfaenol yn cael ei wella gan fwy o ffactorau yn y GIG a'r Awdurdodau Lleol.

Tabl 6: Crynodeb o'r Canfyddiadau: Recriwtio

Pwnc	Adolygiad llenyddiaeth	Arolwg cyflogwyr Cymru-gyfan	Cyfweiliadau a grwpiau ffocws
Tâl yn fater sy'n effeithio ar recriwtio o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol	Mae cyflogwyr gofal cymdeithasol annibynnol a gwirfoddol yn ei chael hi'n anodd i gystadlu â thelerau ac amodau gwasanaeth y GIG.	Adroddwyd bod 'tâl' yn rheswm dros anawsterau recriwtio gan gyflogwyr yn yr Awdurdodau Lleol, cyflogwyr annibynnol a'r trydydd sector. Awdurdodau Lleol a chyflogwyr annibynnol yn dweud bod swyddi tebyg yn y GIG yn arwyddocaol.	Tâl ac amodau yn cael eu henwi fel materion sy'n peri problemau recriwtio i'r sector annibynnol, y trydydd sector a rhai cyflogwyr gofal cymdeithasol Awdurdodau Lleol.
Graddfa uchel o swyddi gwag a throsiant uchel ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol	Graddfa uchel o drosiant a swyddi gweigion ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol	Ni nododd y GIG unrhyw anawsterau gyda recriwtio gweithwyr cymorth gofal iechyd ac felly mae'n is nag ydy hynny ar gyfer gweithwyr tebyg (gweithwyr gofal) yn yr Awdurdodau Lleol, y rhai annibynnol a'r trydydd sector. Anawsterau amrywiol yn cael eu nodi ym maes gofal cymdeithasol - nododd 54% o Awdurdodau Lleol, 71% o gyflogwyr annibynnol ac 83% o gyflogwyr y trydydd sector eu bod yn cael anhawster recriwtio gweithwyr gofal. Llai o anhawster recriwtio uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr. Y ffaith bod swyddi amgen i'w cael y tu allan i'r sector gofal (e.e. manwerthu) yn 'sylweddol' yn ôl yr Awdurdodau Lleol a'r cyflogwyr annibynnol.	Y GIG heb nodi unrhyw anawsterau. Yr Awdurdodau Lleol, cyflogwyr annibynnol a'r trydydd sector yn dweud eu bod yn cael anawsterau recriwtio. Gwell swyddi neu rolau ar yr un tâl ar gael tu allan i faes gofal cymdeithasol.
Statws isel gofal cymdeithasol	Gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn isel ei statws.	Cyflogwyr Awdurdodau Lleol a rhai annibynnol yn dweud	Canfyddiad cyffredinol bod gan swydd y GIG statws

		bod swyddi tebyg ar gael yn y GIG yn fater sylweddol.	uwch na gwaith ym maes gofal cymdeithasol
Oriau gwaith a phatrymau gwaith shifft	Oriau gwaith beichus a phatrymau trwm o shifftiau	Nodwyd bod 'gwaith shifft/oriau anghymdeithasol' yn ffactor sylweddol ymhlith anawsterau recriwtio i gyflogwyr yn yr Awdurdodau Lleol a rhai annibynnol.	Mae contractau cyflogaeth a sefydlogrwydd swyddi'n ffactorau sy'n effeithio ar y recriwtio.
Ardaloedd gwledig	Heriau i ddarparwyr gofal yn y cartref mewn ardaloedd gwledig i recriwtio gweithwyr gofal. Mae'r mater yn cael ei lesteirio gan gost teithio a'r cludiant cyhoeddus ar gyfer gweithwyr gofal sydd heb gerbydau eu hunain.	Ni fu'n bosibl adrodd yn ystyrlon am yr amrywiad daearyddol o ystyried bod y sampl yn un cyfyngedig.	Nododd rheolwyr yn yr Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector bod ardaloedd gwledig a daearyddiaeth Cymru'n cael effaith ar y recriwtio

Tabl 7: Crynodeb o'r Canfyddiadau: Cadw staff

Pwnc	Adolygiad llenyddiaeth	Arolwg cyflogwyr Cymru-gyfan	Cyfweliadau a grwpiau ffocws
Graddfa uchel o swyddi gwag a throsiant uchel ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol	Graddfa uchel o drosiant a swyddi gweigion ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol	<p>Roedd y GIG yn nodi nad oedd bron ddim anhawster (ac eithrio un ymatebydd) gyda chadw gweithwyr cymorth gofal iechyd.</p> <p>Anawsterau amrywiol yn cael eu cofnodi ym maes gofal cymdeithasol – roedd 46% o gyflogwyr Awdurdodau Lleol a 39% o gyflogwyr annibynnol yn dweud eu bod yn cael anhawster i gadw gweithwyr ond y trydydd sector heb adrodd am unrhyw drafferthion.</p> <p>Adroddwyd bod swyddi amgen o fewn a thu allan i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn achosi anhawster cadw.</p> <p>Adroddwyd bod llai o anhawster i gadw uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr.</p>	<p>Ni nododd y GIG bod ganddyn nhw broblem</p> <p>Adroddodd rheolwyr gofal cymdeithasol Awdurdodau Lleol rhai annibynnol a thrydydd sector bod ganddyn nhw anawsterau cadw staff.</p> <p>Gwell swyddi neu rolau ar yr un tâl ar gael tu allan i faes gofal cymdeithasol.</p>
Tâl, telerau ac amodau	Mae'r gwahaniaethau o ran telerau ac amodau a gynigir gan y GIG yn cyfrannu at	Adroddwyd bod 'tâl' yn rheswm dros anawsterau cadw gan Awdurdodau Lleol a chyflogwyr annibynnol.	Cystadleuaeth am weithwyr gofal cymdeithasol ymhlith cyflogwyr ac yn erbyn y GIG

	anawsterau wrth gadw gweithwyr gofal cymdeithasol Er gwaethaf y trosiant uchel, mae mwyafrif y gweithlu'n gadael i weithio i ddarparwyr eraill a dydyn nhw ddim yn gadael byd gofal cymdeithasol	Adroddwyd bod 'swyddi tebyg yn y sector gofal' yn rheswm arwyddocaol dros anawsterau i gyflogi gweithwyr gofal gan gyflogwyr annibynnol	
Statws isel gofal cymdeithasol	Gofal cymdeithasol yn cael ei weld fel maes â statws isel iddo	Bron ddim un cyfeiriad at 'statws isel y swydd' fel rheswm dros gael anawsterau cadw staff.	Y canfyddiad cyffredinol ydy bod gweithio yn y GIG yn uwch ei statws na maes gofal cymdeithasol
Oriau gwaith a phatrymau gwaith shift	Oriau gwaith beichus a phatrymau trwm o shifftiau	Cyfeiriwyd at 'waith shifft/oriau anghymdeithasol' fel rheswm sylweddol dros anawsterau cadw gan Awdurdodau Lleol a chyflogwyr annibynnol.	Contractau cyflogaeth a sefydlogrwydd swyddi yn ffactorau ym maes cadw staff.

7.8 Mae Tablau 6 a 7 uchod yn dangos bod materion tebyg yn cyfrannu tuag at anawsterau recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol. Ymhlith y rhain mae:

Tâl

- Cyfeiriodd pob cyflogwr gofal cymdeithasol at y 'Tâl' fel rheswm dros anawsterau recriwtio a chadw.
- Ni thynnodd y GIG sylw at dâl, fel mater sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff.
- Cyfeiriodd cyflogwyr gofal cymdeithasol mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws yn rheolaidd bod y tâl ac amodau gwaith yn faterion problematig.
- Nododd yr Awdurdodau Lleol a chyflogwyr gofal cymdeithasol annibynnol fod y gystadleuaeth yn erbyn swyddi tebyg o fewn y GIG yn effeithio ar recriwtio.
- Mae cystadleuaeth o fewn ac ymhlith cyflogwyr gofal cymdeithasol a'r GIG yn cyfrannu at broblemau cadw staff ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol.

Nifer uchel o swyddi gwag a throsiant uchel ymhlith staff gofal

- Effeithir ar y gweithlu gofal cymdeithasol gan drosiant uchel a chyfraddau uchel o swyddi gwag.

- Yn wahanol i'r GIG, nododd Awdurdodau Lleol, cyflogwyr annibynnol a rhai'r trydydd sector anawsterau amrywiol wrth recriwtio a chadw gweithwyr gofal.
- Yn yr un modd, adroddwyd am broblemau sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth ymhlith y cyflogwyr gofal cymdeithasol a chystadlu gyda'r GIG; fodd bynnag, dywedwyd bod llai o anhawster wrth recriwtio a chadw yr uwch weithwyr gofal a'r goruchwylwyr.
- Priodolwyd anawsterau recriwtio a chadw hefyd oherwydd rolau y tu allan i ofal cymdeithasol (e.e. manwerthu).

Statws isel gwaith gofal cymdeithasol

- Mae anawsterau recriwtio a chadw o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol hefyd wedi'u priodoli i statws isel gofal cymdeithasol fel opsiwn gyrfa sy'n cael ei gwerthfawrogi yn enwedig mewn cymhariaeth â rolau tebyg yn y GIG, sydd â statws uwch.

Oriau gwaith a phatrymau gwaith shift

- Mae oriau gwaith a phatrymau shift yn rhesymau ychwanegol a briodolir i anawsterau recriwtio a chadw o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.
- Adroddodd Awdurdodau Lleol a chyflogwyr annibynnol fod 'gwaith shift / oriau anghymdeithasol' yn rhesymau dros broblemau recriwtio a chadw staff.

7.9 Yn ychwanegol at y ffactorau uchod, nodwyd bod ardaloedd gwledig (a oedd yn cynnwys anawsterau cludiant h.y. cael mynediad at gludiant cyhoeddus a bod yn berchen eu cerbydau eu hunain, a phrinder pobl o'r ardal y gellir recriwtio o'u plith) yn peri problemau recriwtio a chadw staff.

Ffactorau eraill sydd ynghlwm wrth faes recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol

7.10 Yn ogystal â meysydd tâl, a thelerau ac amodau contractau cyflogaeth, mae ffactorau ychwanegol yr ystyrir eu bod yn bwysig ar gyfer recriwtio a chadw, sy'n cynnwys:

- Gwerthoedd a chymhellion y staff
- Recriwtio'r unigolyn cywir gyda'r gwerthoedd priodol

- Er mwyn i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cynnwys
- Pwysigrwydd a gwerth 'boddhad bod yn y swydd' a'r berthynas sydd gan staff gyda'r rhai y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw, gan wybod eu bod yn gwneud gwahaniaeth ac yn cael effaith.

7.11 Darparu amgylchedd cefnogol gan gynnwys darparu goruchwyliaeth, hyfforddiant a chyfleoedd yn rheolaidd ar gyfer dilyniant personol a phroffesiynol.

- Er mwyn i staff deimlo eu bod yn rhan o dîm
- Agor sianelau cyfathrebu gyda'r goruchwylwyr a'r rheolwyr

8. Trafodaeth: Y goblygiadau ar gyfer y gweithlu a chyflogwyr

Cylch gwaith a chyd-destun

- 8.1 Cadarnhawyd cyd-destun yr ymchwil hwn gan y canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth, y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau a gadarnhaodd fod gan ofal cymdeithasol y pethau canlynol:
- cyfraddau trosiant uchel a graddfa uchel o swyddi gwag
 - galw cynyddol am weithwyr gofal
 - recriwtio a hyfforddi staff newydd yn gostus
 - defnydd cynyddol o staff asiantaeth, a hefyd
 - cystadleuaeth oddi wrth y GIG ac asiantaethau swyddi dros dro
- 8.2 Mewn cyferbyniad, ystyrir bod gan y GIG weithlu tebyg sy'n fwy sefydlog (gweithwyr cymorth gofal iechyd), sy'n cael ond ychydig iawn o broblemau gyda recriwtio a chadw staff cyfatebol, ac yn gyffredinol ei fod yn lle sy'n cael ei werthfawrogi'n fwy o ran cyflogaeth.
- 8.3 Roedd y canfyddiadau yn y penodau blaenorol yn adrodd ar yr amrywiadau yn y tâl ac yn yr amodau i weithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal iechyd, gan ddangos bod gwahaniaethau yn amlwg ym mhob un o'r sectorau gofal cymdeithasol a rhyngddyn nhw a'r GIG. Mae'n anodd dod i gasgliadau diffiniol o'r ymchwil am effaith yr amrywiadau hyn. Mae'r rhain yn systemau cymhleth, gydag amrywiaeth o rymoedd yn dylanwadu arnyn nhw ar yr un pryd. Mae cynnig barn ddiffiniol ar y ffactorau sydd ar waith yn gymhleth, yn anad dim oherwydd nifer y newidynnau a archwiliwyd gan yr ymchwil. Felly, mae'n fwy defnyddiol efallai i fyfyrion ar y canfyddiadau a rhai sylwadau ar oblygiadau'r amrywiadau mewn tâl ac amodau a welwyd yng nghyd-destun ehangach yr heriau o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal iechyd.
- 8.4 Ar y sail hon, mae'r drafodaeth isod yn cychwyn drwy drafod materion tâl, budd-daliadau a chontractau, gan gloi gyda ffactorau sy'n denu pobl at swydd neu achosi gwrthgilio o'r swyddi o safbwynt cyflogwyr a gweithwyr, gan gynnwys sut mae bod yn 'gyflogwr da' yn hanfodol bwysig i redeg gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd da. Y neges ddaw o hyn ydy bod lleihau'r amrywiadau mewn arferion cyflogaeth yn gyffredinol, yn enwedig o ran gwerthfawrogi staff, gan

gynnwys y dulliau recriwtio, yn helpu i liniaru'r effeithiau negyddol achosir gan unrhyw amrywiadau na ellir eu hosgoi yn y tâl.

Tâl

- 8.5 Heb os, mae'r tâl yn fater sy'n effeithio ar allu cyflogwyr i recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'n amlygu ei hun mewn sawl ffordd:
- Fel adlewyrchiad o'r gwerth isel a deimlir o fewn y maes gofal cymdeithasol a chan weithwyr gofal cymdeithasol
 - mae lefel y cyflog sylfaenol ar draws gofal cymdeithasol tua'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol, mewn rhai achosion tua'r lefel cyflog byw gwirioneddol.
 - Fel rhywbeth i symbylu recriwtio a chadw staff
 - mae'r amrywiad yn y tâl ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol a rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG wedi'i nodi fel rheswm pam fod pobl yn newid swyddi.
 - Fel ffordd o ddangos y darnio fu o fewn y diwydiant gofal cymdeithasol lle mae'r ddarpariaeth bellach mewn gwahanol sectorau a chan gyflogwyr unigol
 - Mae'r amrywiadau yn y lefelau tâl yn pwysleisio'r canfyddiad o anghysondeb rhwng cyflogwyr Awdurdodau Lleol ac eraill o ran eu gallu i dalu staff.
 - Fel dull gor-symml o arddangos set gymhleth o faterion sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff.
 - defnyddir lefelau tâl sylfaenol yn aml i wneud cymariaethau; fodd bynnag, mae'n fwy anodd canfod beth ydy'r pecyn taliadau go iawn oherwydd yr ychwanegiadau a buddion eraill.
 - Fel ffordd o gadarnhau'r bwllch rhwng y cyfrifoldeb a chydabyddiaeth, yn enwedig pan fo pwysau gwaith yn ddrwg iawn
 - gwelir bod pwysigrwydd cymharol y swydd ymhell iawn o fod y lefel tâl a nodwyd ar ei chyfer.
- 8.6 Mae cymharu lefelau tâl yn gywir yn waith llawn anawsterau. Mae gwahanol asiantaethau yn gweithredu gwahanol systemau tâl, e.e. mae gan rai bwyntiau sefydlog tra bod gan eraill ystod o raddfeydd tâl. Mae'r gwahaniaethau hyn yn berthnasol o fewn y sectorau (e.e. gwahanol Awdurdodau Lleol yn talu cyfraddau gwahanol) ac ymhlith sectorau. Mae ychwanegiadau i dâl sylfaenol hefyd yn cael eu defnyddio'n wahanol, o ran yr amrediad o ychwanegiadau a roddir a'r graddau y

maen nhw'n cael eu hamsugno i'r gyfradd tâl sylfaenol. Fodd bynnag, mae digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad bod lefelau tâl gweithwyr gofal cymdeithasol yn sector yr Awdurdodau Lleol a'r GIG yn uwch yn gyffredinol nag mewn sectorau eraill, gan gadarnhau'r gwahaniaeth mewn lefelau tâl yn y sectorau hyn.

- 8.7 Wrth ystyried rhesymau posibl dros y gwahaniaeth hwn mewn cyflogau ac ychwanegiadau, dylid nodi bod Awdurdodau Lleol wedi rhoi llawer o'u gwasanaethau gofal ar gontract allanol ond mae llawer wedi cadw'r gwasanaeth ailalluogi yn fewnol, fel maes y gellid ei ystyried sydd angen lefel sgiliau uwch ac felly'n denu mwy o dâl. Nid oedd cwestiynau'r arolwg yn gwahaniaethu gwahanol fathau o ofal yn y cartref fel y gellid gwirio hyn. Yn ail, deallir bod rhai darparwyr gofal sector annibynnol wedi teimlo ei bod yn angenrheidiol lleihau costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r isafswm cyflog cenedlaethol a chyflog byw ac mae hyn wedi effeithio ar eu gallu i dalu ychwanegiadau.
- 8.8 Mae yna nifer o ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff ond adroddir mai tâl ydy'r mater mwyaf arwyddocaol. Hyd yn oed pan eir i'r afael â materion eraill sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr da, megis bod yna gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael, mae tâl isel yn parhau i fod yn ffactor a allai fod yn rhwystr rhag symbylu gweithwyr.
- 8.9 Yn gyffredinol, ystyrir bod y gwahaniaeth yn y cyflogau rhwng sectorau yn ffactor gan achosi llawer o drosiant di-alw-amdano ym maes gofal cymdeithasol lle mae staff yn ystyried bod tâl ac amodau yn well mewn mannau eraill. Mae cyflogwyr annibynnol a'r trydydd sector yn ystyried hyn yn arbennig o gyffredin gan weld y telerau gwell ar gyfer swyddi tebyg yn yr Awdurdodau Lleol a'r GIG yn cynnig sawl cymhelliant i'w staff symud. Mae Awdurdodau Lleol yn nodi bod y swyddi amgen oedd ar gael yn y GIG hefyd yn ffactor yn hyn o beth ac mae'r nifer gymharol uchel o awdurdodau sy'n cofnodi bod ganddyn nhw anawsterau recriwtio a chadw, o gymharu â bron dim anawsterau a adroddwyd gan gyflogwyr y GIG, yn tueddu i gefnogi'r farn hon. Yn ddiddorol, fodd bynnag, mae'r arolygon cyflogwyr yn dangos lefel is o anhawster ymhlith cyflogwyr y sector annibynnol i allu cadw staff na'r Awdurdodau Lleol, a fyddai'n awgrymu nad yw atyniad ymddangosiadol swyddi mewn Awdurdodau Lleol o leiaf mor gryf ag y mae'n ymddangos ar y dechrau. Yn yr un modd, mae'r gyfradd sylfaenol is a delir gan y GIG o'i chymharu ag Awdurdodau

Lleol yn codi'r cwestiwn ai tâl ydy'r prif ffactor sy'n cymell staff i adael am swyddi tebyg gyda'r gwasanaeth iechyd. Mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai fod nifer o esboniadau eraill am y trosiant ymhlith staff.

Contractau ac amodau cyflogaeth eraill

- 8.10 Mae'n bur debyg bod ffactorau eraill ar waith. Cadarnhaodd grŵp ffocws y GIG ystod o fanteision mewnol atyniadol o fod yn gweithio i'r GIG, megis hyfforddiant a datblygiad a chyfleoedd dilyniant gyrfa. Mae'n bosibl y gellir canfod buddion 'meithrin rhai eich hunain' gan bob sector yn y nifer gymharol isel o anawsterau recriwtio a chadw staff a gofnodir mewn perthynas ag uwch weithwyr gofal a goruchwylwyr. Mae'r GIG hefyd yn parhau i dalu ychwanegiadau am weithio shifft, penwythnosau ac oriau anghymdeithasol, nad yw'r sectorau gofal cymdeithasol yn eu talu fel arfer. Fodd bynnag, ymddengys bod ychwanegiadau i'r tâl yn gyffredinol yn fwy yn y GIG a'r Awdurdodau Lleol nag mewn sectorau eraill. Gall swyddi yn y GIG hefyd elwa o gael eu hystyried yn rhai lle cewch eich gwerthfawrogi'n fawr a bod y GIG ei hun yn gyflogwr da a sefydlog.
- 8.11 Ar y cyfan, mae rhinwedd yn y casgliadau drwy'r adolygiad llenyddiaeth nad yw'n bosibl penderfynu i ba raddau y mae amrywiad tâl ac amodau yn ffactor wrth i weithwyr adael i weithio i ddarparwyr eraill. Byddai angen system gadarn o olrhain symudiad staff ynghyd â chyfweliadau ymadael traws-sector i fod yn fwy sicr o ran yr union resymau pam bod staff yn newid swyddi. Mae gwybodaeth gan y grwpiau ffocws yn awgrymu bod ystod o amgylchiadau personol yn rhan o gymhellion pobl, ochr yn ochr â ffactorau cydnabyddedig fel tâl ac amodau. Nid gwadu perthnasedd yr olaf ydy hynny, gan eu bod yn amlwg yn ffactorau pwysig. Dydy hynny ond yn tynnu sylw at y ffaith bod nodi yr union resymau dros symud staff o fewn a rhwng sectorau yn broses gymhleth.
- 8.12 Mae'r un mor anodd asesu i ba raddau y mae swyddi y tu allan i ofal cymdeithasol, yn enwedig yn y sector manwerthu, yn denu pobl i symud. Mae tair elfen yr ymchwil yn awgrymu bod swyddi amgen yn ffactor, ond nododd pobl hefyd y teimlad o werth a brofwyd ganddyn nhw wrth ymgymryd â dyletswyddau gofalu a sut roedd hyn yn gorbwyso manteision gweithio mewn sefyllfaoedd lle roedd y pwysau'n llai. Mae cymharu pecynnau cydnabyddiaeth yn uniongyrchol rhwng gofal cymdeithasol ac

eraill hefyd yn anodd gan fod yn rhaid ystyried materion fel lefelau cyfrifoldeb, oriau gwaith a buddion fel gostyngiadau siopa hefyd yn gorfod cael eu hystyried.

- 8.13 Un nodwedd bryderus a nodwyd o'r ymchwil oedd bod nifer o weithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu hunain mewn sefyllfa ariannol ansicr ac angen ychwanegu at eu henillion â buddion y wladwriaeth a buddion eraill, ac weithiau'n dibynnu ar fenthyciadau tymor byr gan gyflogwyr. Mae gan hyn oblygiadau posibl i ansawdd a pharhad y gofal oherwydd ei effaith ar sefydlogrwydd y gweithlu.
- 8.14 Cyfeiriodd y briff ar gyfer yr astudiaeth hon yn benodol at y 'defnydd niweidiol o gontractau oriau sero', y cyfeirir atyn nhw fel arall fel contractau oriau gwaith heb eu gwarantu neu gontractau gwaith achlysurol. Mae'r niwed hwn yn gysylltiedig â bylchau amser di-dâl niferus yn niwrnod gwaith y gweithwyr gofal a cholli'r hawl i fudd-dal (e.e. credyd cynhwysol, oherwydd oriau gwaith afreolaidd). Mae'r ymchwil yn dangos yr amrywiad lleiaf posibl rhwng cyfran y contractau hyn i gontractau parhaol ymhlith y gwahanol sectorau gofal cymdeithasol, gydag ychydig dros dri ym mhob pedwar contract yn rhai parhaol. Er bod rhai cyflogwyr sector annibynnol yn ystyried bod ansicrwydd contractau yn ffactor arwyddocaol sy'n effeithio ar gadw staff, y prif gasgliad gan y sector hwnnw oedd ei bod yn amhriodol ystyried contractau oriau sero fel rhai cwbl negyddol. Rhaid cydbwyso unrhyw negyddiaeth â'r manteision y maen nhw'n eu cynnig i lawer o staff o ran gweithio'n hyblyg, ac i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau mewn perthynas â gallu gwarantu parhad gwasanaeth yn absenoldeb staff parhaol. I'r trydydd sector, fodd bynnag, mae ansicrwydd contractau yn broblemus gan ei fod yn ddibynnol iawn ar gyllid allanol ac mae methu â chael sefydlogrwydd naill ai mewn cyllid neu'r gweithlu yn arbennig o heriol.
- 8.15 Fodd bynnag, mae yna amrywiad yn y gymhareb rhwng contractau rhan-amser i rai amser llawn ac mae hyn yn ddiddorol gan ei fod yn dangos bod gwahanol batrymau gweithlu yn cael eu defnyddio i redeg gwasanaethau gofal cymdeithasol. Adroddir am fwy o ddefnydd o gontractau rhan-amser yn sector yr Awdurdodau Lleol a gellid dadlau bod cael gweithlu rhan-amser yn bennaf yn galluogi defnydd hyblyg o'r gweithwyr hynny i weithio oriau ychwanegol a chynnal parhad y gwasanaeth. Ar y llaw arall, gallai cyflogi mwy o weithwyr unigol arwain, o bosibl, at rai goblygiadau negyddol i bobl agored i niwed o ran parhad perthynas. Mae hefyd yn golygu bod

angen cyflogi mwy o staff ar adeg pan mae'n anodd recriwtio. Mae hyn yn ffactor posibl ymhlith cyflogwyr sector annibynnol, oedd yn dweud am y lefelau uwch o anhawster wrth recriwtio ond lefelau is wrth gadw gweithlu, gan ddewis cyflogi mwy o weithwyr amser llawn.

- 8.16 Wrth ystyried yr effaith ar ansawdd a pharhad gofal, mae consensws bod cyfraddau swyddi gwag a throsiant uchel yn ei gwneud hi'n fwy anodd cyflawni a chynnal safonau gofal da. Mae effeithiau eraill yn cynnwys pwysau a galw cynyddol ar y staff presennol, morâl is ymhlith staff a'r niwed wneir i foddhad y swydd, a gall ei golli effeithio ar gydweithwyr ac ar ansawdd y gofal a ddarperir. Mae effaith prinder pobl gyda'r sgiliau priodol sy'n ceisio rolau mewn gofal wedi golygu recriwtio staff nad oedd, o bosibl, ganddyn nhw'r sgiliau a'r galluoedd priodol.

Recriwtio a chadw staff

- 8.17 Mae'n bosibl bod y termau recriwtio a chadw staff wedi cael eu defnyddio'n or-gyfystyr wrth ddisgrifio heriau'r gweithlu. Maen nhw'n wahanol ac yn peri problemau gwahanol i gyflogwyr. Felly mae'n rhaid i'r strategaethau ar gyfer delio â phob un amrywio hefyd. Mae'r ymchwil yn awgrymu ei bod yn bosibl nodi gwahanol bethau sy'n denu (ffactorau recriwtio) a'r hyn sy'n achosi i rai gilio (ffactorau cadw) mewn gofal cymdeithasol o safbwynt gweithwyr, gan gydnabod bod rhai yn effeithio ar recriwtio yn ogystal â chadw staff. Gall y rhain weithredu ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad.
- 8.18 O ran yr ymchwil yn gyfan, mae'r rhain ymhlith y ffactorau sy'n denu:
- cael yr hawl i rymuso ac ymreolaeth
 - cael cyswllt / perthynas â defnyddwyr y gwasanaeth
 - natur y swydd
 - cyfle i ddysgu a symud ymlaen yn y swydd
 - gweithio hyblyg ac argaeledd swyddi yn agos at adref
 - teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi am y rôl a gyflawnir
 - boddhad yn y swydd (gan gynnwys yr amrywiaeth a her eu rôl)
 - cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl
 - cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol
 - amodau gwaith da (e.e. oriau gwaith gwarantedig, cyflogau teg)

- tâl da
- perthynas dda rhwng cyflogwyr a staff
- amgylchedd gwaith cefnogol

8.19 Mae'r rhain ymhlith y ffactorau sy'n achosi rhai i gilio:

- heriau'r rôl (e.e. gweithio ar eu pennau eu hunain, lefelau tâl a lefel y gefnogaeth a ddarperir)
- straen am fod apwyntiadau yn rhy agos at ei gilydd
- diffyg swydd amser llawn
- gweithio shifftiau
- diffyg mewnbwn i amserlenni gwaith a newidiadau munud olaf
- gweld gweithwyr asiantaeth yn cael eu talu'n uwch
- telerau ac amodau cyflogaeth (yn enwedig y tâl)
- amser gweithio a phrinder staff
- statws gwerth isel gofal cymdeithasol, yn enwedig o'i gymharu â'r GIG
- swyddi amgen llai sy'n llai o straen

8.20 O safbwynt y cyflogwr, ymddengys mai'r allwedd i gwrdd â'r sialensiau hyn ydy bod yn gyflogwr da a dangos sgiliau fel y rhai a restrir isod:

- diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi, yn parchu ac yn gwerthfawrogi staff
- mynediad at hyfforddiant a datblygiad parhaus
- gonestrwydd ynglŷn â realiti'r rôl
- amodau gwaith da (yn enwedig gweithio hyblyg)
- cyfathrebu (gwrando ar staff)
- cefnogi staff yn eu rolau (ac yn gynyddol yn eu bywydau personol)
- manteision a chymhellion priodol
- cael proses recriwtio gadarn
- gweithwyr gofal sy'n cael eu hystyried yn 'hyfforddwyr' sy'n gwneud gwaith cadarnhaol ac ysgogol
- lleihau hierarchaeth o fewn timau a all alluogi sefydliadau i gynnig hyfforddiant a chyfraddau tâl mwy cystadleuol fel bod gyrfa ym maes gofal yn fwy deniadol
- timau ymreolaethol

- cynnal cyfarfodydd tîm yn rheolaidd er mwyn osgoi amodau gwaith sy'n ynysig
- mwy o hyfforddiant a hyblygrwydd i weithio'n awtonomaidd
- cymhellion ariannol e.e. ffi canfod; cyd-rannu enillion llwyddiant, ymgysylltiad y cyflogai

- 8.21 Mae bod yn gyflogwr da yn dibynnu'n rhannol, wrth gwrs, ar y gallu i weithredu o fewn hinsawdd economaidd a pholisi cefnogol. Mae rhai ffactorau yn y cyd-destun hwn yn enghraifft o'r sialensiau o ddarparu cymhellion i staff gael eu denu i weithio ac aros ym maes gofal cymdeithasol tra'n sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cynnal parhad yn y busnes. Mae'r rhain i raddau helaeth yn ymwneud â'r momentwm tuag at dalu cyflog byw cenedlaethol a bod darparwyr yn gorfod gweithio dan bwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chontractau 'tynn' gyda chomisiynwyr Awdurdodau Lleol. Mae ffactorau eraill yn ymwneud â diffyg amser a gallu ymhlith uwch reolwyr i fuddsoddi mewn cynllunio gweithlu a gwasanaeth a bod rhywfaint o ddryswch yn parhau ymysg cyflogwyr ynghylch sut 'wedd' sydd yna i ddull o reoli'r gweithlu yn seiliedig ar eu gwerth, sut i'w ddatblygu, a beth sy'n cynrychioli arferion da.
- 8.22 Mae'r Llywodraeth yn chwarae ei rhan trwy arweinyddiaeth, deddfwriaeth a chyllid, a thrwy noddi a chefnogi mentrau cenedlaethol fel ymgyrchoedd yn y cyfryngau i hyrwyddo statws gofal cymdeithasol a manteision gweithio ynddo, megis Gofalwn Cymru. gellir ystyried comisiynu'r ymchwil hwn fel enghraifft o LIC yn ceisio deall a gweithredu'n well ar faterion sy'n effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol a'i effaith ar ansawdd gofal. Mae dau fater hefyd yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun hwn ar hyn o bryd:
- datblygiadau i wella statws proffesiynol gofal cymdeithasol trwy gofrestru, a hefyd
 - y strategaeth cenedlaethol newydd ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, sydd ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd.
- 8.23 Mae'r olaf yn bwysig yn yr ystyr ei fod yn rhoi cyfle i greu hinsawdd a fframwaith i gyflogwyr fynd i'r afael â'r materion y cyfeirir atyn nhw yn yr adroddiad hwn. Gan fod y strategaeth yn dal i fod ar ffurf ddrafft, nid yw'n briodol ei beirniadu mewn perthynas â'i pherthnasedd i amrywiad mewn tâl ac amodau ond mae'n werth nodi bod ei chyfeiriad at bwysigrwydd gosod gwerth ar staff a defnyddio cylchoedd

recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd yn cyd-fynd gyda'r canfyddiadau o'r ymchwil hwn. Cadarnhaodd aelodau'r grŵp cyfeirio arbenigol berthnasedd yr ymchwil hwn i gwblhau cynnwys y strategaeth.

- 8.24 O ran cofrestru, er bod cytundeb cyffredinol y byddai proffesiynoli'r gweithlu yn gwella ei statws ac o bosibl yn cynorthwyo recriwtio, rhoddwyd rhai rhybuddion am ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, gallai costau i gyflogwyr a gweithwyr sy'n gysylltiedig â'r fenter fod yn anghymesur o'u cymharu â gwireddu'r manteision. Felly, mae taro'r cydbwysedd cywir yn hanfodol a bydd cyfathrebu da yn amlwg yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni hyn.

Arloesedd ac arferion da

- 8.25 Yn galonogol, nododd yr ymchwil enghreifftiau o arferion arloesol a llwyddiannus mewn perthynas â recriwtio a chadw, gan gynnwys rhai o fewn Cymru. Amlygwyd y rhain yng nghanfyddiadau'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws. Fodd bynnag, byddai mentrau'n elwa o gael ymchwil i'r hyn sy'n gweithio ac o werthuso pam bod hyn, ac ym mha gyd-destun. Mae'n hanfodol bwysig bod yna gyfleoedd i rannu a hyrwyddo ymarfer, darparu canllawiau ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn dysgu oddi wrth ei gilydd ac i barhau i ddatblygu dulliau arloesol.
- 8.26 Mae'n bosibl bod mwy o enghreifftiau o arferion da heb eu riportio a allai, o'u rhannu'n ehangach, gyfrannu at welliannau mewn dulliau recriwtio a dethol. Er enghraifft, cyflwyno dealltwriaeth gyffredin o'r hyn ydy dull seiliedig ar werthoedd ar gyfer recriwtio a chadw. Byddai hyn yn golygu sefydlu bod gan ddarpar weithwyr newydd y priodoleddau personol, y cymhelliant a'r gwerthoedd cywir (e.e. empathi, parch a chydymdeimlad), a allai yn ei dro hyrwyddo mwy o gysondeb o ran dull gweithredu ac o bosibl achosi lleihad yn y trosiant ymhlith gweithwyr.
